Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Cynllun Buddsoddi ar gyfer De-orllewin Cymru

# Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
# Cynllun Buddsoddi ar gyfer De-orllewin Cymru

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **Cyflwyniad** | **3** |
| **2.0** | **Blaenoriaeth buddsoddi cymunedau a lleoedd** | **5** |
| **2.1** | **Heriau lleol** | **5** |
| **2.2** | **Cyfleoedd lleol** | **14** |
| **2.3** | **Deilliannau CFfGDU blaenoriaeth buddsoddi cymunedau a lleoedd** | **21** |
| **2.4** | **Ymyriadau blaenoriaeth buddsoddi cymunedau a lleoedd** | **21** |
| **2.5** | **Prosiectau posibl sy'n dod o dan y flaenoriaeth buddsoddi cymunedau a lleoedd** | **22** |
| **3.0** | **Blaenoriaeth buddsoddi cefnogi busnesau lleol** | **24** |
| **3.1** | **Heriau lleol** | **24** |
| **3.2** | **Cyfleoedd lleol** | **30** |
| **3.3** | **Y deilliannau a gyflenwir gan y cynllun buddsoddi o dan y flaenoriaeth buddsoddi cefnogi busnesau lleol** | **38** |
| **3.4** | **Ymyriadau a ddefnyddir gan y rhanbarth sy'n cwrdd â'r flaenoriaeth buddsoddi cefnogi busnesau lleol** | **39** |
| **3.5** | **Prosiectau posibl sy'n dod o dan y flaenoriaeth buddsoddi cefnogi busnesau lleol** | **41** |
| **4.0** | **Blaenoriaeth buddsoddi mewn pobl a sgiliau a rhaglen Multiply** | **43** |
| **4.1** | **Heriau lleol** | **43** |
| **4.2** | **Cyfleoedd lleol** | **52** |
| **4.3** | **Y deilliannau a gyflenwir gan y cynllun buddsoddi o dan y flaenoriaeth buddsoddi mewn pobl a sgiliau** | **58** |
| **4.4** | **Ymyriadau CFfGDU a ddefnyddir a fydd yn cwrdd â'r y flaenoriaeth buddsoddi mewn pobl a sgiliau** | **59** |
| **4.5** | **Ymyriadau y rhaglen Multiply** | **60** |
| **4.6** | **Prosiectau posibl sy'n dod o dan y flaenoriaeth buddsoddi mewn pobl a sgiliau** | **60** |
| **5.0** | **Dethol prosiectau** | **63** |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (CFfGDU) yn golofn canolog o agenda Ffyniant Bro llywodraeth y DU a bydd yn darparu cyllid dros y 3 blynedd nesaf hyd at fis Mawrth 2025. Bydd pob rhan o’r DU yn derbyn dyraniad o’r Gronfa drwy fformiwla gyllido yn hytrach na chystadleuaeth. Gellir defnyddio'r gymysgedd o gyllid refeniw a chyfalaf i gefnogi ystod eang o ymyriadau i feithrin balchder mewn lle a gwella cyfleoedd bywyd.

1.2 Mae cyfanswm y CFfGDU ar gyfer y rhanbarth yn cynnwys cyllid ‘craidd’, a fydd yn cyllido’r rhan fwyaf o Flaenoriaethau’r Gronfa a’r rhaglen Multiply sy’n canolbwyntio ar gefnogi mentrau rhifedd oedolion. Mae'r dyraniad ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth fel a ganlyn:

| Cyfanswm | CFfGDU Craidd | Multiply | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Rhanbarth y De-orllewin** | £ 113,985,414 | £ 17,970,430 | £ 131,955,844 |
| Sir Gaerfyrddin | £ 32,002,918 | £ 5,045,437 | £ 37,048,355 |
| Castell-nedd Port Talbot | £ 28,448,295 | £ 4,485,031 | £ 32,933,326 |
| Sir Benfro | £ 19,125,971 | £ 3,015,315 | £ 22,141,286 |
| Abertawe | £ 34,408,230 | £ 5,424,647 | £ 39,832,877 |

1.3 Bydd y cyllid hwn yn cael ei fuddsoddi ar draws tair blaenoriaeth y CFfGDU erbyn 31 Mawrth 2025:

- Cymunedau a lleoedd: galluogi lleoedd i fuddsoddi er mwyn adfer eu mannau a chysylltiadau cymunedol, a chreu'r sylfeini ar gyfer datblygiad economaidd ar lefel cymdogaeth, helpu i gryfhau gwead cymdeithasol cymunedau, gan gefnogi adeiladu balchder mewn lle.
- Cefnogaeth i fusnesau lleol: galluogi lleoedd i gyllido ymyriadau sy'n cefnogi busnesau lleol i ffynnu, arloesi a thyfu.
- Pobl a sgiliau: cyllid i helpu i leihau'r rhwystrau y mae rhai pobl yn eu hwynebu i gyflogaeth a'u cefnogi i symud tuag at gyflogaeth ac addysg. Gall lleoedd hefyd dargedu cyllid i sgiliau ar gyfer ardaloedd lleol i gefnogi cyflogaeth a thwf lleol.

1.4 Mae cwmpas y Rhaglen yn ehangach na chronfeydd blaenorol yr UE, ond gyda chyllideb gyfatebol gryn dipyn yn llai. Ni ellir defnyddio'r Rhaglen i gymryd lle darpariaeth statudol.

1.5 Yng Nghymru, mae llywodraeth y DU yn cefnogi darpariaeth ar draws y pedair ardal ddaearyddol strategol ranbarthol ar yr ôl troed datblygu economaidd. Cafodd llywodraeth leol y cyfrifoldeb am ddatblygu cynllun buddsoddi rhanbarthol i'w gymeradwyo gan lywodraeth y DU, ac i gyflenwi'r Gronfa wedi hynny. Bydd 'awdurdod lleol arweiniol' ar gyfer y rhanbarth yn derbyn dyraniad y Rhanbarth a bydd ganddo atebolrwydd cyffredinol am y cyllid a sut mae'r Gronfa'n gweithredu. Enwebwyd Cyngor Abertawe i weithredu fel yr Awdurdod arweiniol ar ran rhanbarth y De-orllewin.

## 2. Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol

2.1 Er mwyn cael gafael ar eu dyraniad, gofynnwyd i awdurdodau lleol arweiniol gwblhau Cynllun Rhanbarthol, sy'n nodi sut y maent yn bwriadu defnyddio a chyflenwi'r cyllid ar lefel uchel iawn. Cyflwynwyd y cynllun buddsoddi hwn i lywodraeth y DU ym mis Awst 2022.

2.2 Oherwydd yr amserlenni byr, paratôdd pob awdurdod lleol gynllun buddsoddi lleol sydd wedi bwydo i'r Cynllun Rhanbarthol ehangach hwn ar gyfer De-orllewin Cymru.

2.3 Derbyniwyd cymeradwyaeth ar 5 Rhagfyr 2022.

# 2.0 BLAENORIAETH BUDDSODDI CYMUNEDAU A LLEOEDD

## 2.1 HERIAU LLEOL

Mae gan Dde-orllewin Cymru economi amrywiol a set unigryw o asedau naturiol a diwylliannol. Yn economaidd, mae ein treftadaeth ddiwydiannol yn cyfuno â pheth o botensial ynni morol mwyaf arwyddocaol y DU, gan ysgogi cyfleoedd sylweddol ar gyfer datgarboneiddio a thwf Economi Werdd y DU. Yn amgylcheddol, mae'r arfordir a chefn gwlad – gan gynnwys Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr – yn cyfrannu at gynnig gwych i ymwelwyr ac ansawdd bywyd. Yn ddiwylliannol, mae'r rhanbarth yn cwmpasu dinas brifysgol ddeinamig sy'n tyfu, sef Abertawe, rhwydwaith amrywiol a nodedig o drefi gwledig, gyda'r Gymraeg yn gynyddol fywiog.

Mae'r rhanbarth yn cynnwys llawer o amrywiaeth, yn enwedig o fewn y dimensiwn gwledig/trefol. Er gwaethaf amrywiaeth ar draws y rhanbarth, mae yna gyffredinedd sylweddol, ac mae gan rai o'r cyfleoedd mawr ôl troed rhanbarth-gyfan. Fodd bynnag, mae rhai ohonynt yn ymestyn y tu hwnt i'r rhanbarth ei hun, a bydd cysylltiadau sy'n wynebu tuag allan yn bwysig. Ceir ystod o gwestiynau allweddol o dan faner cydlyniant cymunedol:

- Sut rydym yn ymateb i anghenion ein poblogaeth sy'n heneiddio fel y gall pobl fyw bywydau iach, hir a da;
- Sut y gallwn barhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol tra bod toriadau digynsail i wariant cyhoeddus yn parhau;
- Sut y gallwn leihau'r bwlch rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig ym mhob sir, yn enwedig ein plant a phobl ifanc fel bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
- Sut rydym yn helpu cymunedau i gynnal eu hunain ac adeiladu hinsawdd lle mae pobl yn gofalu am ei gilydd;
- Sut rydym yn cydbwyso disgwyliadau newidiol cenhedlaeth sy'n galw am wasanaethau trwy dechnolegau newydd, tra'n gwneud yn siŵr nad yw'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ar hyn o bryd yn cael eu gadael ar ôl;
- Sut rydym yn sicrhau ein bod yn gwarchod ac yn gwella ein hamgylchedd lleol fel y gellir ei werthfawrogi am genedlaethau lawer i ddod;
- Sut i fynd i'r afael ag unigrwydd, unigedd, iechyd meddwl;
- Sut rydym yn ail-gydbwyso dosbarthiad cyfle a chyfoeth rhwng canolfannau trefol a chymunedau gwledig / y cymoedd.

**Heriau cyffredin ar draws y rhanbarth o dan y flaenoriaeth Cymunedau a Lleoedd:**

**Adfywio Canol y Ddinas, Canol Trefi a Phentrefi**
Canol Dinas Abertawe, ein trefi a'n cymunedau llai yw'r canolbwyntiau ar gyfer gweithgarwch economaidd a chymdeithasol ar draws y rhanbarth. Roedd symud i ffwrdd o'r stryd fawr i siopa ar y rhyngrwyd a thu allan i'r dref, ynghyd â diffyg eiddo masnachol a manwerthu addas i'r diben, yn creu lefelau cynyddol o eiddo gwag ac yn gostwng nifer yr ymwelwyr, hyd yn oed cyn y pandemig Covid.

Mae gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr a chostau cynyddol yn lleihau gallu busnesau i fuddsoddi yng ngwedd allanol eu hadeiladau. Caiff hyn effaith negyddol ar atyniad strydoedd mawr a balchder lleol yn eu lle, a chreu tuedd ar i lawr. Gwaethygwyd y sefyllfa hon gan y pandemig, gyda methiant manwerthwyr lleol a chenedlaethol yn arwain at niferoedd cynyddol o adeiladau gwag a chyfnodau clo olynol yn taro nifer yr ymwelwyr, gan amharu ar fywiogrwydd strydoedd mawr ar draws y rhanbarth.

Dengys data Sbardun ym Mehefin 2022 er bod nifer yr ymwelwyr â chanol dinas Abertawe yn dechrau gwella, eu bod yn parhau i fod 24.2% yn is na'r lefelau cyn pandemig 2019. Yn Sir Benfro, mae'r cyfraddau gwacter yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru yn achos Abergwaun, Hwlffordd, Aberdaugleddau a Doc Penfro. Cofnododd canol tref Aberdaugleddau y gyfradd gwacter uchaf o unedau dosbarth A yn Sir Benfro yn 2021, sef 29%.

Mae anghydbwysedd o ran defnydd ar draws lleoedd rhwng manwerthu, hamdden, lletygarwch, preswyl - a gwelir dechrau ar symudiad a gychwynnodd yn ystod y pandemig. Mae yna ddiffyg gofod masnachol ar raddfa lai i ficrofusnesau a chyfleoedd fanteisio ar y potensial i rannu mannau gwaith mewn cymunedau lleol, er mwyn rhoi dewis amgen i’r cynnydd mewn gweithio o gartref a gafwyd yn ystod y pandemig.

Mae hwn yn angen parhaus i fuddsoddi yng nghanol y ddinas, canol trefi a phentrefi ar draws y rhanbarth er mwyn:

- annog twf cynaliadwy a'u trawsnewid yn lleoedd i fyw, gweithio, dysgu a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden;
- Denu mwy o amrywiaeth o ddefnyddiau;
- Gwella amgylchedd canol y dref, tir y cyhoedd, treftadaeth a diwylliant, ar gyfer trigolion presennol ac ar gyfer buddsoddwyr newydd ac ymwelwyr;
- Gwella hygyrchedd (er enghraifft, adeiladu ar brofiad cyfnewidfa drafnidiaeth newydd Port Talbot);
- Sicrhau defnyddiau amgen ar gyfer eiddo segur, gan gynnwys defnydd yn y cyfamser;
- Denu buddsoddiad masnachol;
- Datblygu cyfleoedd ar gyfer perchnogaeth ac arweinyddiaeth gymunedol.

Hyd at y pwynt hwn, mae'r rhan fwyaf o arian cyfalaf a diffyg cymorth refeniw wedi cyfyngu ar y gallu i gynllunio ymyriadau wedi'u targedu i gefnogi cymunedau a busnesau, megis digwyddiadau neu bethau eraill sy’n cynyddu nifer yr ymwelwyr.

**Adferiad Covid, Tlodi ac Argyfwng Costau Byw**

Yn gyffredin â phob rhan o’r DU, mae De-orllewin Cymru yn parhau i ddioddef o effaith y pandemig Covid a’r siociau economaidd byd-eang dilynol sy’n effeithio ar gostau byw. Er enghraifft, mae tua 21,000 o oedolion o oedran gweithio a 7,500 o blant yn byw ar incwm o lai na’r canolrif 60% yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae incwm aelwydydd yn Abertawe (£16,262 yn 2019) yn is na Chymru (o 5.8%) a lefelau'r DU (o 24.1%) ac yn tyfu'n arafach, mae 29,444 o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi. Mae’r lefelau cyflog is hyn yn cael eu gwasgu gan yr argyfwng costau byw gyda chostau uwch ynni a bwyd yn ei gwneud yn fwyfwy anodd

i aelwydydd gael dau ben llinyn ynghyd, gydag effeithiau tlodi tanwydd a bwyd ymhlith eraill. Mae'r rhai oedd yn yr amgylchiadau anoddaf cyn y siociau hyn bellach mewn sefyllfa waeth byth. Mae banciau bwyd yn gyffredin ar draws y rhanbarth.

Cynyddodd y pandemig unigrwydd ac arwahanrwydd; mae wedi lleihau hyder ac wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl. Mae'r cyfyngiadau ar lif gwybodaeth o fewn cymunedau, a gorddibyniaeth ar gyfryngau cymdeithasol, yn gadael rhan sylweddol o’r ddemograffeg allan o’r drafodaeth. Mae angen inni greu cyfleoedd i ddod â phobl yn ôl i weithgarwch cymunedol lleol, a meithrin capasiti mewn cymunedau lleol a grymuso mwy o weithgarwch ar lawr gwlad i leihau’r ddibyniaeth ar y sector cyhoeddus. Yn ôl y Glymblaid Dileu Tlodi Plant, wrth wneud sylwadau ar ddata’r Adran Gwaith a Phensiynau o fis Mai 2020, Sir Benfro sydd â’r gyfradd uchaf o dlodi plant yng Nghymru gyda 31.3% o blant yn byw mewn tlodi, ar ôl ystyried costau tai. Ymchwiliwyd yn drylwyr i effaith tlodi ar blant, a gwyddys ei fod yn arwain at iechyd corfforol a meddyliol gwaeth, cyrhaeddiad addysgol is a chyfleoedd bywyd amharedig, boed yn cael ei fesur yn nhermau dilyniant gyrfa, cyswllt â’r system cyfiawnder troseddol neu ddisgwyliad oes.

Gwelir tlodi ym mhob rhan o’r rhanbarth, ac mewn llawer o leoedd mae cyfraddau uwch na’r cyfartaledd o dlodi ac amddifadedd a fydd angen ymyriadau wedi’u targedu’n well. Ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019, mae gan Abertawe gyfran uwch na'r cyfartaledd o'i Hardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda 17 (11.5%) o'i 148 ACEHI yn y 191 (10%) mwyaf difreintiedig. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, roedd y crynodiadau mwyaf o amddifadedd yn ôl MALlC 2019 yn Sandfields ac Aberafan yn ardal drefol Port Talbot, Llansawel, rhannau o Gastell-nedd a’r ardal o amgylch Croeserw yn rhan uchaf Dyffryn Aman. Yn fwy cyffredinol, mae dosbarthiad amddifadedd yn gysylltiedig â rhannau trefol Castell-nedd a Phort Talbot a'r Cymoedd ôl-ddiwydiannol uchaf.

Gyda'r cynnydd parhaus mewn costau byw, yr her yw gwella safonau byw i sicrhau nad yw'r rhai mewn cyflogaeth yn waeth eu byd nag yr oeddent ar fudd-daliadau. Mae angen cynyddol am gymorth hawliau lles ychwanegol, cyngor ar ddyledion, cymorth ariannol a chynhwysiant digidol i gael mynediad at wasanaethau ar-lein, yn ogystal â sicrhau mynediad at gyfleusterau gwella llesiant a mannau agored, ond mae hefyd yn ymestyn i gymryd rhan mewn mesurau cymunedol ac elwa arnynt i leihau costau byw.

**Poblogaeth sy'n heneiddio**

Gall ymateb yn effeithiol i anghenion poblogaeth sy’n heneiddio roi pwysau ychwanegol ar wasanaethau, felly mae helpu pobl i heneiddio’n dda a byw bywydau mor annibynnol â phosibl yn her, ac yn gyfle. Ystyriaeth allweddol yn hyn o beth yw sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad at sefydliadau diwylliannol, hanesyddol a threftadaeth presennol i wrthsefyll effeithiau ynysu. Mae hyn yn ymestyn i sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad i gyfleusterau chwaraeon lleol i fwynhau gweithgareddau priodol a pherthnasol er mwyn cynyddu llesiant. Yn ogystal, mae cyfraddau pobl hŷn sy'n byw mewn tlodi yn cynyddu, a chredir yn rhannol fod hyn yn ganlyniad i unigolion yn ymddeol heb ddigon o gynilion neu enillion. Gwaethygir hyn gan gostau byw cynyddol a hefyd gan y ffaith mai ychydig iawn o gyfle sydd gan bensiynwyr i

gynyddu eu hincwm i wrthweithio'r effeithiau hyn. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos mai pensiynwyr sydd leiaf tebygol o wirio pa fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae'n hollbwysig felly bod pobl hŷn yn gallu elwa ar fesurau cymunedol i leihau eu costau byw.

**Anabledd a Chyflyrau Iechyd**

Mae carfan sylweddol o unigolion ag anableddau neu gyflyrau iechyd cyfyngol yn bodoli ar draws y rhanbarth. Felly, mae'n arbennig o bwysig bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau bod yr unigolion hyn yn gallu gwneud cyfraniadau cadarnhaol i'w cymunedau lleol a mwynhau'r gwasanaethau a'r gweithgareddau sydd ar gael. Ceir cyfleoedd yma i sicrhau bod y gwelliannau a wneir i ddatblygiadau presennol (neu greu datblygiadau newydd) yn cael eu dylunio gyda'r unigolion hyn mewn golwg. Mae hwn yn fater mynediad ac yn fater perthnasedd. Yn ogystal, mae unigolion o'r grŵp hwn yn fwy tebygol o gael eu heffeithio'n andwyol gan yr argyfwng costau byw ac felly mae cyfleoedd yma i gefnogi'r unigolion hyn trwy eu cynnwys mewn datblygiadau sydd wedi'u cynllunio i wrthsefyll yr effeithiau dan sylw (fel y nodir uchod). Ers dyfodiad y pandemig, bu cymhlethdod cynyddol o ran anghenion cymorth a welwyd o ran problemau iechyd meddwl, gan gyfrannu at unigolion sydd angen cyfnodau hwy a mwy dwys o gymorth.

Mae llawer o dystiolaeth sy’n cadarnhau’r effeithiau cadarnhaol y gall y dirwedd naturiol ac adeiledig eu cael ar lesiant – mae’n gallu gwrthweithio yr effeithiau dinistriol y gall problemau iechyd meddwl eu cael ar unigolion a’u teuluoedd. Ceir cyfleoedd clir yma i ystyried dyluniad ymyriadau yn y gymuned a’r gwelliannau y gellir eu gwneud i hygyrchedd y gwasanaethau hyn.

**Llesiant**

Cafodd Covid-19 effaith ddifrifol ar iechyd meddwl. Nododd Mind Cymru bod mwy na hanner yr oedolion (60% o’r rhai dros 25 oed) a thri chwarter y bobl ifanc (74% o’r rhai 13-24 oed) yn dweud bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod clo yng ngwanwyn 2021. Mae unigrwydd yn effeithio ar iechyd meddwl pobl ifanc yn fwy sylweddol nag iechyd meddwl pobl hŷn. Er bod dros dri chwarter (78%) o bobl ifanc wedi dweud bod unigrwydd wedi gwaethygu eu hiechyd meddwl yn ystod y cyfnod clo, cododd hyn i 85% yn achos pobl ifanc 18-24 oed.

Nid yw unigedd wedi’i gyfyngu i bobl hŷn - mae yna hefyd lawer o bobl ifanc sydd heb yr hyder a’r gallu i gael mynediad at wasanaethau, ac nid oes gan lawer ohonynt fynediad at drafnidiaeth.

**Cymunedau gwledig a’r Cymoedd**

Nodweddir rhanbarth y De-orllewin gan wledigrwydd, sy’n golygu bod ein lleoedd a’n cyrchfannau mewn amgylchedd naturiol gwych, ond mae hefyd yn golygu heriau o ran darparu a mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth isel iawn, hyfywedd parhaus cymunedau ffermio bach, cysylltedd trafnidiaeth, a phwysau rheoli cyrchfannau o safbwynt twristiaeth/ymwelwr, a datblygiad cynaliadwy a goroesiad cymunedau lleol.

Ym mhob un o’r pedair sir, mae rhan sylweddol o'r diriogaeth yn wledig, sef lleiniau glas ac arfordirol di-dor. O amgylch canol dinas Abertawe a chanol trefi maestrefol, mae 60% o'r sir yn wledig ei natur, gyda phocedi sylweddol o aneddiadau lled-wledig ynghyd â pharthau maestrefol. Amcangyfrifir bod 61% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn byw mewn lleoliadau gwledig. Y tu hwnt i'r llain arfordirol a phrif drefi Castell-nedd Port Talbot, mae'r fwrdeistref sirol yn wledig iawn, yn cynnwys nifer o gymunedau cymharol anghysbell, ôl-ddiwydiannol yn bennaf. I'r gogledd o'r M4, mae patrymau anheddu yn dilyn y prif gymoedd: o'r dwyrain i'r gorllewin, y rhain yw Dyffryn Aman, Cwm Nedd, Cwm Dulais, Cwm Tawe uchaf a rhan o Ddyffryn Aman uchaf o amgylch Gwaun-Cae-Gurwen. Mae Castell-nedd Port Talbot wledig hefyd yn cynnwys asedau naturiol a threftadaeth pwysig, gan gynnwys Parc Coedwig Afan a Rhaeadr Aberdulais. Mae'r rhain yn ymestyn tuag at Glydach, Mawr a Phontarddulais yn sir Abertawe, gan arwain at Rydaman a'r Gorllewin. Nodweddir Sir Gaerfyrddin gan nifer gymharol uchel o aneddiadau gwasgaredig wedi'u hangori gan dair prif dref; Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman. Yn gartref i dros 190,000 o bobl, dyma’r 4edd sir fwyaf yng Nghymru o ran maint y boblogaeth ond mae ganddi ddwysedd poblogaeth cymharol isel o 80.2. Mae topograffeg Sir Gaerfyrddin yn un sy’n creu nifer o heriau a chyfleoedd dilynol, a chaiff y rhai mwyaf perthnasol eu harchwilio isod yng nghyd-destun rhai themâu allweddol.

Mae’r cymunedau hyn yn wynebu heriau a chyfleoedd unigryw o’u cymharu â’r ardaloedd trefol sy’n gyson â’r economi wledig ledled Cymru. Mae agosrwydd at ganolfannau trefol mwy yn y rhanbarth yn aml yn taflu cysgod dros yr heriau gwledig unigryw a wynebir yn y rhanbarth.

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn her fawr ac yn rhwystr i gael mynediad at gyflogaeth i'r rheini yng nghymunedau'r cymoedd a chymunedau gwledig. Mae dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi dod yn fwyfwy anodd oherwydd toriadau i wasanaethau bysiau - lle mae bysiau'n rhedeg, maent yn aml yn rhedeg ar amserlen gyfyngedig nad yw'n briodol ar gyfer gweithio sifft yn gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos. Mae argaeledd trafnidiaeth yn effeithio ar iechyd trigolion mewn ardaloedd gwledig a’r cymoedd, oherwydd na allant fynychu apwyntiadau ysbyty, deintyddol a meddyg teulu.

Mae twristiaeth yn sector allweddol yn yr economi wledig, ac mae rhwydwaith sefydledig a chynyddol o gynhyrchwyr bwyd a diod lleol sy’n rhoi De-orllewin Cymru ar y map fel cyrchfan bwyd.

Mae’r amgylchedd naturiol gwych yn greiddiol i'r cynnig ‘ansawdd bywyd’, ac o bwysigrwydd canolog i’r hyn a gynigir gan dwristiaeth yn y rhanbarth ehangach ac i’w atyniad i ddarpar drigolion a buddsoddwyr. Mae agosrwydd yr amgylchedd naturiol a lleoliadau trefol dwys yn her ac yn bwynt gwerthu unigryw o bwys, ond mae angen ei drin yn sensitif ac yn gynaliadwy.

Yn ystod misoedd cynnar y pandemig Covid, amlygwyd cysylltiadau rhwng cynhyrchu a’r rhwydwaith o ganolfannau manwerthu mawr a bach ledled y rhanbarth, ac roedd hyd yn oed newid bach mewn arferion prynu yn fwy nag y gallai masnachwyr bach ymdopi ag ef. Tynnai hyn sylw at sefyllfa 'gwneud y gorau ohoni' ar rai o'r strydoedd mawr mewn lleoedd llai; cadwodd y rhain eu bywiogrwydd a chreu incwm da i fasnachwyr bach, lle bo'n briodol.

Mae darparu gwasanaethau a'r mynediad dilynol at y gwasanaethau hynny yn creu heriau penodol gan gynnwys:

- Mae dwyseddau poblogaeth is yn ei gwneud yn anodd cyflawni arbedion maint cymharol; gall hyn gynnwys nifer isel o gwsmeriaid am wasanaethau, gan olygu bod y costau darparu yn ddrud yn ogystal â chyfyngu ar gyfleoedd ymgysylltu posibl.
- Mae pellteroedd teithio mawr yn cynyddu'r amser a'r gost o gyrchu gwasanaethau; gall hyn lesteirio gallu unigolyn i deimlo'n gysylltiedig â'i gymuned, gwaethygu unigedd a lleihau teimladau o falchder a pherthyn lleol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i grwpiau ymylol.
- Mae cysylltedd digidol gwael a phroblemau gyda'r 'filltir olaf o gysylltedd' yn parhau i fod yn her sylweddol i lawer yn yr ardaloedd mwyaf gwledig, er bod hyn wedi gwella rhywfaint yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae angen ymyriadau i gefnogi adferiad a thwf trefi gwledig a'r ardaloedd cyfagos, gan gynnwys cyfleoedd i wella cysylltiadau ac amwynderau ffisegol, diwylliannol a chymdeithasol trwy ganolbwyntio buddsoddiad i greu lleoedd o safon y mae pobl eisiau byw, gweithio, chwarae a dysgu ynddynt.

**Mynediad at Wasanaethau**

Nodwyd 21.4% o ardaloedd cynnyrch Ehangach Is Sir Gaerfyrddin a 38% o rai Sir Benfro ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019). Mae hyn yn bennaf oherwydd natur wledig y siroedd. Mae'r trydydd sector yn chwarae rhan arwyddocaol o ran darparu gwasanaethau a chyrraedd trigolion bregus yn y siroedd hyn ac ar draws y rhanbarth ehangach, sydd wedi bod yn arbennig o amlwg yn ystod y pandemig. Ceir cyfleoedd i ehangu ac adeiladu ar rôl y trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, a chefnogi ymhellach newidiadau strwythurol o fewn y sector.

**Argyfwng hinsawdd / datgarboneiddio ac Argyfwng Natur**

Delio â'r argyfwng hinsawdd a natur, a chyfrannu at uchelgeisiau sero net trwy gefnogi cymunedau a busnesau lleol i leihau eu hôl troed carbon, gwella cynefinoedd a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ystyried y risgiau hinsawdd ac ymyriadau o ran addasu hinsawdd a gwneud y mwyaf o'r potensial am ynni adnewyddadwy a chynyddu seilwaith gwyrdd a gwyrddu trefol mewn cymunedau sy'n agored i newid yn yr hinsawdd. Mae yna ddiffyg arwyddion ac eglurder mannau gwyrdd lle mae'r rhain yn croestorri â lleoliadau trefol.

Mae heriau amgylcheddol yn cynnwys:

- Ansawdd aer;
- Llifogydd yng nghanol ein prif drefi;
- Diffyg mannau gwyrdd a'r mannau chwarae sydd eu hangen i wella bioamrywiaeth a gwella iechyd a llesiant.
- Colli cynefinoedd a seilwaith allweddol o ganlyniad i lifogydd, stormydd ac erydiad, dwysáu amaethyddol. Mae effaith newid yn yr hinsawdd yn

gwaethygu rhywogaethau anfrodorol ymledol a phwysau gan ddatblygiadau, ac mae angen gwella cydnerthedd y seilwaith yn sgil hyn
- Llai o fioamrywiaeth.

Yn gysylltiedig ag adfywio canol trefi, mae her yn parhau ledled y rhanbarth i sicrhau mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd da, a mynediad i'r amgylchedd naturiol o'n mannau trefol. Mae angen ystyried mynediad i'r grwpiau ymylol.

Mae angen gwneud mwy i elwa ar fanteision seilwaith gwyrdd yn ei holl amrywiadau, o adeiladau a seilwaith hyd at seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, a datblygu sgiliau i roi'r gweithlu gorau i'r economi Werdd.

Yn ogystal, mae angen gwneud mwy i harneisio potensial yr economi gylchol sy'n elfen allweddol o'r agenda sero net ac sydd â llawer o elfennau (o ailosod, atgyweirio, ail-wneud drwy ddylunio a gweithgynhyrchu cynaliadwy, hyd at ystyriaethau o faterion adnoddau naturiol a defnydd tir). Yn ogystal, gellir defnyddio dull yr economi gylchol hefyd i ymgysylltu â dinasyddion a chodi ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd a'r agenda datgarboneiddio. Bydd hyn yn hybu buddsoddiad mewn economi fwy cylchol / adfywiol - gan hyrwyddo defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol a defnyddio gwastraff fel adnodd.

**Trosedd**

Cofnodwyd cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws canol trefi. Yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2021, bu gostyngiad cyffredinol o 5.7% yn y troseddau a gofnodwyd yn gyffredinol yn Abertawe, o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol, ond cafwyd y cynnydd mwyaf (dros +10%) mewn meddiant cyffuriau a throseddau trefn gyhoeddus. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol a digartrefedd ar y stryd yn dylanwadu ar ganfyddiadau o strydoedd mawr lleol, a thargedwyd cyfleoedd i gyflwyno ymyriadau strwythuredig tymor hwy er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn. Rhoddwyd Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus newydd yn eu lle ar gyfer rhannau o Ganol Dinas Abertawe, stryd fawr Treforys a Hwlffordd. O'r 10% (190) o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru o safbwynt Diogelwch Cymunedol, mae chwech yn Sir Gaerfyrddin, sy'n cwmpasu tair ardal gymunedol tair tref fwyaf Sir Gaerfyrddin; Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman, 15 yn Abertawe, 6 yn Sir Benfro a 5 yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol fel a ganlyn:

- Anhawster i gael tystiolaeth o'r problemau a rhoi ymyriadau priodol ar waith oherwydd tan-adrodd;
- Ymddieithrio ieuenctid a'r angen am weithgareddau dargyfeiriol yn ein cymunedau, yn enwedig ar ôl covid / cyfnod clo;
- Canfyddiad y cyhoedd - bu buddsoddiad sylweddol yn ddiweddar i adfywio a datblygu ein trefi sy'n cael ei ddifetha gan y wasg a'r cyfryngau yn adrodd am y nifer fach o unigolion sy'n achosi problemau;
- Mae anghydfod rhwng cymdogion wedi cynyddu'n aruthrol yn ystod y cyfnod clo ac mae problemau'n parhau gyda rhai o'r rhain, er gwaethaf codi'r cyfyngiadau.

Mae’r heriau cam-drin domestig fel a ganlyn:

- Darlun newidiol o gam-drin domestig, wrth i dechnoleg ddatblygu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf - rydym yn gweld mwy o broblemau yn ymwneud â stelcian, sgamiau, a seiberdroseddu mewn achosion cam-drin domestig;
- Nifer y dioddefwyr ag anghenion cymhleth iawn sydd angen mwy na dim ond cefnogaeth cam-drin domestig, ond ffactorau eraill fel iechyd meddwl neu gaethiwed; mae angen i ni ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at gymorth;
- Bu bylchau yn narpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) drwy gydol y cyfnod clo ac rydym bellach yn gweld effeithiau hynny, gyda phlant ddim mor ymwybodol o berthnasoedd iach ag y byddent wedi bod, neu faterion cydsyniad a phynciau tebyg.

**Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden, Diwylliant**

Mae twristiaeth a gweithgareddau diwylliannol yn sbardun pwysig i'r rhanbarth, o ran cyflogaeth a chyfraniad economaidd. Ceir cyfleoedd ar gyfer twf pellach. Mae profiad o le yn genhadaeth allweddol yn y Cynllun Cyflenwi Economaidd Rhanbarthol sy'n seiliedig ar wead cyfoethog cyrchfannau sydd wedi'u gwasgaru ar draws y rhanbarth. Mae’r amrywiaeth eang o arlwy o fewn cyrraedd teithio hawdd yn gynnig deniadol, ond erys heriau, fel sicrhau twf cynaliadwy o ran sero net a pharchu’r effaith ar gymunedau lleol, a sut i harneisio’r cyfle’n llwyddiannus er mantais yn hytrach nag anfantais. Hefyd, effeithiodd y pandemig yn ddifrifol ar y sector hwn, gyda newid mewn ymddygiad sydd wedi gadael ei ôl ar y gweithlu ac ar gapasiti. Dengys ymchwil bod gweithgareddau hamdden a diwylliannol yn allweddol i sicrhau bod gennym lesiant cadarnhaol, ac maent hefyd yn helpu i leddfu unigrwydd a rhoi ymdeimlad o bwrpas. Mae cynyddu mynediad at gyfleusterau o'r fath hefyd yn flaenoriaeth allweddol.

Mae rhai o’r heriau allweddol yn cynnwys:

- Annog ymwelwyr i aros dros nos er mwyn cynyddu cyfraniad economaidd twristiaeth;
- Sefydlu cyrchfannau rhanbarthol fel lleoliadau ‘amgen’, gyda buddsoddiad parhaus yn y cynnyrch twristiaeth;
- Newid canfyddiadau rhannau o'r rhanbarth fel ardaloedd trefol neu ddiwydiannol yn bennaf er mwyn cael cydnabyddiaeth o asedau rhanbarthol fel ardaloedd gwledig a'r cymoedd, ac ardaloedd arfordirol a threfol.

Derbyniodd Abertawe dros 4.79m o ymwelwyr yn 2019, gyda thwristiaeth yn cynhyrchu dros £477m o wariant yn yr economi leol. Mae angen buddsoddiad mewn asedau twristiaeth, diwylliannol, chwaraeon a hamdden ar draws y sir i wella ansawdd, ehangder a chynaliadwyedd y cynnig ‘profiad’ i ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd. Bydd hyrwyddo'r cynnig hwn yn ehangach yn codi proffil Abertawe fel lle deniadol i fyw, gweithio, ymweld, astudio a buddsoddi ynddo, a bydd mwy o gyfranogiad gan drigolion lleol mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a hamdden yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant.

**Treftadaeth**

Mewn rhai ardaloedd, mae diffyg dehongliad o safleoedd a chyrchfannau allweddol a diffyg dealltwriaeth o dreftadaeth y mannau hyn o ran balchder lleol a dinesig a darllen yn sgil hynny. Er enghraifft, yn Abertawe, er bod yno dreftadaeth ddiwydiannol gyfoethog, ceir anawsterau o ran cefnogi adeiladau a strwythurau rhestredig allweddol, ac mae 'treftadaeth er mwyn treftadaeth' yn effeithio ar ddiffyg balchder dinesig mewn lle. Mae adeiladau a chyfleusterau wedi dirywio mewn rhannau o'r sir, ac yn arbennig nodweddion cymeriad e.e. nid oes dealltwriaeth na phwyslais ar y nodweddion brics a cherrig pennant a weithgynhyrchwyd yn lleol.

**Teithio Llesol**

Mae blaenoriaeth gyffredinol cerbydau preifat hefyd yn cael effaith fawr ar eglurder lleoedd, ac yn niweidio cymeriad a chyrchfannau. Mae angen i lwybrau teithio llesol gael blaenoriaeth er mwyn galluogi pobl i symud yn ddiogel ac yn gynaliadwy rhwng cymunedau lleol er mwyn cael mynediad at wasanaethau lleol a chyflogaeth. Mae rhannau mawr o'n poblogaeth yn dioddef o dlodi trafnidiaeth ac angen gwario 10% neu fwy o'u hincwm i redeg car, er enghraifft (Sustrans Cymru).

Yn aml, nodir trafnidiaeth fel problem sy'n gwaethygu unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae cymunedau gwledig a chymoedd llai, dwysedd is yn wynebu heriau penodol os yw'r mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn wael, yn enwedig i'r bobl sydd â phroblemau symudedd. Hyd yn oed mewn ardaloedd trefol, mae pobl yn cael anhawster defnyddio trafnidiaeth oherwydd na allant gyrraedd y safle bws. Darperir trafnidiaeth gymunedol i alluogi pobl hŷn (llawer ohonynt yn byw ar eu pen eu hunain) i gael mynediad at weithgarwch cymdeithasol sy'n lleihau arwahanrwydd ac sicrhau bod mynychwyr yn aros yn feddyliol-weithgar, ond yn aml mae parthau cyflogaeth yn anodd eu cyrraedd gydag amserlenni cyfyngedig gan ddarparwyr trafnidiaeth prif ffrwd. Mae angen edrych ar hyn ymhellach, oherwydd anaml y bydd amseriad gwasanaethau yn ystyried patrymau gwaith sifft, ac ati.

**Digidol**

I lawer ohonom, mae'r pandemig Covid-19 wedi newid y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau. Mae bod ar-lein wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod y pandemig, gan ganiatáu i ni aros mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, cyrchu gwybodaeth ac arweiniad, gweithio gartref a defnyddio ystod eang o wasanaethau. Er bod llawer wedi croesawu ffyrdd newydd o gael mynediad at wasanaethau digidol, fodd bynnag, mae rhaniad digidol cynyddol - mae 11% o'n dinasyddion yn parhau i fod all-lein ac wedi'u hallgáu o'r gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen arnynt wrth i fwy a mwy o wasanaethau llywodraeth ac awdurdodau lleol fynd ar-lein. Mae diffyg sgiliau digidol a mynediad i'r rhyngrwyd yn cael effaith enfawr ar fywydau pobl. Mae mynediad at gysylltedd digidol, technoleg a sgiliau, yn hanfodol i sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal, ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl yn y gymdeithas ddigidol hon. Nid yw 41% o bobl 75 oed a throsodd yn defnyddio'r rhyngrwyd. Mae cymorth i bobl hŷn fynd ar-lein yn flaenoriaeth er mwyn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a chael mynediad at y gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen arnynt.

**Yr Iaith Gymraeg**

Thema trosfwaol allweddol i'w hystyried wrth fanteisio ar y cyfleoedd a grybwyllwyd uchod yw'r Gymraeg. Mae hyn yn ymestyn i ddiogelu, hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn, gan gydnabod ei phwysigrwydd o ran creu ymdeimlad o le i Sir Gaerfyrddin a'i phobl. Mae hyn yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i gael miliwn o bobl yng Nghymru yn siarad Cymraeg erbyn 2050 a mwy o uchelgeisiau strategol lleol ar lefel Sir Gaerfyrddin.

## 2.2 CYFLEOEDD LLEOL

Mae pob ardal leol yn gweithio'n adeiladol trwy bartneriaethau adfywio lleol i ffurfio ymatebion i'r heriau a nodir uchod. Cyflwynir y rhain yng nghyd-destun Cynllun Cyflenwi Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru, a chynlluniau a strategaethau lleol perthnasol.

**<u>Cynllun Cyflenwi Economaidd Rhanbarthol</u>**

Yn y Cynllun Cyflenwi Economaidd Rhanbarthol, ceir tair 'Cenhadaeth' a fydd yn arwain gweithgaredd yn y dyfodol, dros y deng mlynedd nesaf a thu hwnt. Maent wedi'u cynllunio i roi cyfeiriad teithio clir, tra'n parhau'n ddigon eang i ddarparu ystod eang o fuddsoddiadau posibl a ddaw ymlaen dros amser. Mae'r tair Cenhadaeth lefel uchel fel a ganlyn:

**Cenhadaeth 1: Arweinydd yn y DU ym maes ynni adnewyddadwy a'r economi sero net**

Gan edrych ymlaen at 2030, ein nod yw gwneud De-orllewin Cymru yn arweinydd ym maes ynni adnewyddadwy yn y DU. Mae hynny'n golygu manteisio ar ein hasedau naturiol a'n galluoedd diwydiannol ac ymchwil a datblygu i adeiladu presenoldeb o arwyddocâd rhyngwladol mewn technolegau tanwydd yn y dyfodol ac i ysgogi datgarboneiddio ein sylfaen ddiwydiannol a'r economi ehangach

<u>Meysydd gweithredu allweddol:</u>
- Capasiti Ychwanegol i yrru'r agenda yn ei blaen
- Datblygu prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mawr y rhanbarth
- Denu a gyrru buddsoddiad diwydiannol yn ei flaen
- Datgarboneiddio trafnidiaeth a'r stoc tai.

**Cenhadaeth 2: Adeiladu sylfaen fusnes gref, gydnerth sydd wedi'i gwreiddio.**

"Mae busnes yn greiddiol i'n strategaeth hyd at 2030: trwy ehangu cwmnïau presennol a dechrau a denu rhai newydd y bydd cyflogaeth newydd yn cael ei chynhyrchu ac y sicrheir twf cynhyrchiant. Mae hynny'n golygu cefnogi twf busnes cynaliadwy - sy'n flaengar ym maes technoleg ac arloesi ac ar draws yr economi."

<u>Meysydd gweithredu allweddol:</u>
- Cymorth mabwysiadu ac arloesi cyflymach (yn gysylltiedig ag argymhellion Cymru 4.0 mewn perthynas â chymorth busnes, sgiliau ac arloesi)
- 'Caffael blaengar' o fewn system datblygu cadwyn gyflenwi a busnes lleol.

**Cenhadaeth 3: Tyfu a chynnal cynnig 'profiad' De-orllewin Cymru**

"Mae gan Dde-orllewin Cymru amgylchedd gwych ac 'ansawdd bywyd' unigryw. Mae hwn yn ased allweddol i'r rhanbarth, ac yn un y mae'n rhaid i ni ei amddiffyn a'i wella. Byddwn yn gwneud De-orllewin Cymru yn adnabyddus am ansawdd ac ehangder ei 'gynnig profiad', gan ddod ag ansawdd amgylcheddol trefol a gwledig, 'ansawdd bywyd' a diwylliant i gyd ynghyd. Bydd hyn yn cefnogi economi ymwelwyr gwerth uchel - ond bydd hefyd mewn perchnogaeth leol ac yn rhan ganolog o'n cynnig buddsoddi."

Meysydd gweithredu allweddol:

- Buddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu a'i gydlynu, gan gynnwys yng nghanol trefi a dinasoedd
- Cydbwyso mentrau ar raddfa ranbarthol, leol a chymunedol.

**Dinasoedd, Trefi a Phentrefi**

Mae rhanbarth y De-orllewin yn cynnwys y ddinas ail fwyaf a'r ddinas leiaf o ddinasoedd Cymru, sef Abertawe a Thyddewi.

Mae canolfannau ardal mwy yn Abertawe yn deillio i raddau helaeth o etifeddiaeth y chwyldro diwydiannol fel ardaloedd noswylio ar gyfer y diwydiannau metel a mwyngloddio mawr ar draws y sir, ond wrth i effeithiau gwaethaf y diwydiannau bylu, mae sylw'n troi at adrodd y stori ac fel rhan o hynny, galluogi entrepreneuriaeth leol yn ei holl ogoniant i ffynnu o sylfaen gref o weithgarwch cymunedol a gwirfoddol i ficrofusnesau newydd ar draws pob sector, gyda llawer ohonynt yn dechrau rhoi bywyd newydd i strydoedd mawr sydd wedi bod yn dirywio. Mae angen creu lleoedd fforddiadwy, deniadol a chynaliadwy i fyw, dysgu, gweithio a chwarae ynddynt ar draws yr holl leoliadau, gan gynyddu nifer yr ymwelwyr a'r defnydd gan bobl er mwyn ymgorffori gwytnwch lleol a helpu i oroesi siociau'r presennol a'r dyfodol.

**Adfywio Canol y Ddinas, Canol Trefi a Phentrefi**

- Cael dylanwad cadarnhaol ar leoedd i helpu i feithrin cydbwysedd llwyddiannus rhwng eiddo masnachol o wahanol feintiau, tai fforddiadwy a thai marchnad a chyfleusterau cyflenwol.
- Hwyluso 'darllen' a llywio lleoedd trwy feddalu nodweddion tir y cyhoedd, arwyddion clir a deniadol a gwneud y gorau o dechnolegau digidol
- Cefnogaeth gofod yn y cyfamser, gan adeiladu ar gynlluniau peilot llwyddiannus a dysgu sy'n dod i'r amlwg i ddarparu cyfleoedd cost isel i fusnesau newydd a lleihau cyfraddau swyddi gwag ar y stryd fawr
- Cynnydd mewn digwyddiadau, gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a hamdden i ychwanegu bywiogrwydd a chynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas a'r stryd fawr
- Adeiladu 'cardiau pas' i alluogi mynediad rhwydd i leoliadau gwaith, yn lleol ac yn ganolog

- Targedu buddsoddiad ar drefi a phentrefi craidd i gryfhau'r hyn a gynigir ganddynt a'u helpu i ddod yn ganolfannau twf, yn lleoliadau ar gyfer hybiau allweddol i ailgysylltu â chymunedau a chyflawni darpariaeth gyfannol o wasanaethau.
- Gweithio mewn partneriaeth i adeiladu lleoedd cynaliadwy gyda seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol rhagorol, seilwaith gwyrdd integredig, ac yn hollbwysig, canol trefi defnydd cymysg sy'n diwallu anghenion lleol.
- adeiladu ar y rôl allweddol sydd gan ganol trefi o ran adeiladu lleoedd cynaliadwy fel y nodwyd gan egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol lleoli gwasanaethau masnachol, siopau, addysg, iechyd a chyhoeddus newydd yng nghanol trefi.
- Dilyn model adfywio seiliedig ar le i ganol trefi, gan ddilyn y dull 'Creu Lleoedd Cymru' i greu lleoedd cynaliadwy a sicrhau eu bod yn briodol i'r lle ac yn cefnogi'r gymuned yn y ffordd orau.
- gwneud y mwyaf o gyfleoedd canol trefi a hybu'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir mewn trefi – gan greu gofod gweithio a byw hyblyg; a chynyddu mynediad at wasanaethau a hamdden. Mae nifer o weithgareddau yn deillio o'r strategaeth ar gyfer trefi gan gynnwys:
    - Troi arwynebedd llawr masnachol gwag yn llety preswyl;
    - Gwella ac uwchraddio arwynebedd llawr masnachol gwag i ddefnydd busnes buddiol;
    - Darparu seilwaith gwyrdd a phrosiectau bioamrywiaeth;
    - Darparu cynlluniau gwella tir y cyhoedd ar raddfa fach;
    - Caffaeliadau ar raddfa fach;
    - Datblygu a galluogi marchnadoedd lleol;
    - Sefydlu defnydd yn y cyfamser neu dros dro mewn adeiladau gwag;
    - Gwella blaen allanol siopau ar y cyd;
    - Trefi digidol i gefnogi dadansoddeg Wi-Fi a rhwydweithiau Lora Wan;
    - Darpariaethau sy'n cefnogi neu'n hwyluso llwybrau teithio llesol;
    - Cefnogaeth benodol i ddarparu toiledau;
    - Darparu cyfleusterau chwarae awyr agored, ardaloedd gemau aml-ddefnydd (MUGAs) a gweithgareddau hamdden awyr agored.

**Adferiad Covid, Tlodi a Chostau Byw**

- Gweithgareddau i helpu pobl i ddod allan o arwahanrwydd y pandemig a chroesawu cyfleoedd trwy weithgareddau cymunedol presennol a newydd, e.e. defnyddio adeiladau cymunedol i greu 'mannau cynnes' hygyrch mewn cymunedau lleol a all ddarparu canolbwynt ar gyfer gwasanaethau a chreu lle i bobl gyfarfod, bwyta a defnyddio cyfleusterau a rennir. Helpu pobl i leihau costau a mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd.
- Gwella mesurau lleol ar gyfer llif gwybodaeth o fewn cymunedau y tu allan i gyfryngau cymdeithasol
- Darparu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn gwirfoddoli a gweithgarwch cymunedol lleol, i feithrin capasiti mewn cymunedau lleol a grymuso mwy o weithgarwch ar lawr gwlad i leihau'r ddibyniaeth ar y sector cyhoeddus
- cefnogi cymunedau gyda'r argyfwng costau byw, gyda ffocws ar danwydd a bwyd a mathau eraill o dlodi sy'n effeithio ar ein dinasyddion. Adeiladu ar waith y fenter 'diogel ac iach' a sefydlwyd fel yr ymateb dyngarol i'r pandemig

a pharhau i wneud y mwyaf o effaith gweithio mewn partneriaeth â’r Trydydd Sector.

- Rhoddodd pandemig Covid-19 straen sylweddol ar ein cymunedau, ein lleoedd a’n gwasanaethau lleol - gan gyflwyno heriau economaidd-gymdeithasol a gwaethygu'r rhai presennol. Fel rhan o’r ymdrech i adeiladu’n ôl yn gryfach ac annog buddsoddiad, mae angen i ni ganolbwyntio ar yr ardaloedd o’r rhanbarth sy’n allweddol i gyflawni’r canlyniadau hyn.

**Mwyhau Potensial Treftadaeth, Twristiaeth, Diwylliant a Chwaraeon**

- Dichonoldeb a gwaith ar gyfer ardaloedd cadwraeth a strwythurau hanesyddol rhestredig allweddol a phwysig eraill sy’n ymgorffori balchder mewn lle, mannau gwerthu unigryw a chyrchfannau, gan gynnwys gwella nodweddion sydd wedi’u hadeiladu o ddeunyddiau a chymeriad lleol e.e. nodweddion brics a cherrig pennant a weithgynhyrchwyd yn lleol nad ydynt yn cael eu deall na'u pwysleisio;
- Gwell ffyrdd o adrodd hanes lleoedd i gymunedau lleol ac ymwelwyr
- Newid sylweddol yn y dehongliad o safleoedd a chyrchfannau allweddol a dealltwriaeth o dreftadaeth y lleoedd hyn o ran balchder lleol a dinesig
- Meithrin capasiti a buddsoddi mewn cyfleusterau a gweithgareddau twristiaeth, hamdden, chwaraeon a diwylliannol i wella ansawdd bywyd a’r ‘cynnig profiad’ i drigolion ac ymwelwyr, a gwella ichyd a llesiant
- Cefnogi gweithrediad prif gynlluniau allweddol
- Gwneud y mwyaf o botensial arfordir y rhanbarth, y cymoedd a chymunedau gwledig, canolfannau trefol, treftadaeth a diwylliant
- cyfleoedd adfywio twristiaeth a arweinir gan dreftadaeth i ddatblygu'r economi ymwelwyr gan gynnwys ffocws cymunedol i alluogi grwpiau treftadaeth i chwarae rhan annatod yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol asedau a safleoedd treftadaeth ochr yn ochr â phartneriaid allweddol eraill.

**Cymunedau Gwledig a’r Cymoedd**

- Adeiladu ar y momentwm a ddatblygwyd drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig i gefnogi cymunedau a busnesau gwledig gweithgar, gwydn a chysylltiedig
- Datblygu cadwyni cyflenwi cylchol byrrach rhwng defnyddwyr, cynhyrchwyr a chyflenwyr, gan gysylltu ardaloedd gwledig a threfol
- dysgu gwersi o ddull Leader a datblygu'r cyfle i greu cronfa i gefnogi ein cymoedd a'n cymunedau gwledig. Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu strategaeth i dargedu buddsoddiad yn ein cymunedau gwledig a'r cymoedd ac yn ein pentrefi.

**Teithio Llesol**

- Ailgydbwyso blaenoriaeth cerbydau preifat yn erbyn cerddwyr a chyflwyno teithio llesol i wella eglurder lleoedd, a gwella cymeriad a chyrchfannau
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd modelau trafnidiaeth hygyrch amgen – defnyddio trafnidiaeth gymunedol, clybiau ceir, cynlluniau ceir, gwaith olwynion 2 a hefyd defnyddio cerbydau trydan.

**Datgarboneiddio/Addasu Hinsawdd a Chefnogi Adferiad Natur**

- Gwella bioamrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd ar draws y rhanbarth drwy fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd mewn cymunedau lleol
- Gwella effeithlonrwydd ynni ac ôl troed carbon cyfleusterau cymunedol
- Manteisio ar y potensial ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel
- Gwella arwyddion ac eglurder mannau gwyrdd lle mae'r rhain yn gorgyffwrdd â lleoliadau trefol
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu economi fwy cylchol / adfywiol - hyrwyddo defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol a defnyddio gwastraff fel adnodd i liniaru risgiau hinsawdd a datblygu ymyriadau ar gyfer addasu i'r hinsawdd.
- Buddsoddi mewn cynigion penodol i addasu i batrymau newidiol yn yr hinsawdd
- Cefnogi gwelliannau ar raddfa fach i ansawdd aer a dŵr, a mecanweithiau i ddatgloi datblygiad mewn ardaloedd sydd ar hyn o bryd wedi'u cyfyngu gan lefelau uchel o faetholion
- Atebion naturiol i heriau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, iechyd, llesiant a chostau byw (e.e. lliniaru llifogydd a llwyth maetholion, tyfu bwyd cymunedol a mynediad i fannau gwyrdd)

**Trosedd**

- Ymyriadau strwythurol hirdymor wedi'u targedu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar strydoedd mawr lleol
- Mae cyfleoedd i ddefnyddio atebion arloesol i fynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, i ddatblygu cysylltiadau ymhellach gyda Chyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Ieuenctid i edrych ar bontio unrhyw fylchau a gwella gwasanaethau ymhellach. Mae cyfle ar gyfer dull cydgysylltiedig ar draws holl flaenoriaethau CFfGDU i fynd i'r afael ag ymddieithrio.
- Mae'n bwysig parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o bob math o gam-drin domestig, trwy amrywiaeth o ddulliau, a sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael.

**Digidol**

Mae trawsnewid digidol wedi newid yn aruthrol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r pandemig wedi ein gorfodi i fod â mwy o gysylltiad digidol. Mae pobl bellach yn gallu gweithio gartref mewn ffordd ddi-dor, sydd wedi gwella cysylltedd a chydweithio. Mae angen darparu cyfleoedd i'r rhai sy'n dal i fod wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Cysylltu â grwpiau cymunedol i gyflwyno sesiynau cynhwysiant digidol mewn adeiladau cymunedol i'r rhai nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd nac offer digidol. Mae angen i ni weithio gydag unigolion a grwpiau i'w cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio technoleg ddigidol a sut i ddefnyddio eu hoffer a'u dyfeisiau'n gywir i gael y gorau o wasanaethau digidol.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Trydydd Sector i sicrhau bod sefydliadau'n hyrwyddo cynhwysiant digidol drwy gysylltu a nodi meysydd sydd angen cymorth i gael mynediad at wasanaethau digidol.

Mae darpariaeth band eang rhesymol ar draws y rhanbarth yn cynnig cyfleoedd i fusnesau a chymunedau gwledig ddod o hyd i ffyrdd ychwanegol ac arloesol o fanteisio ar seilwaith digidol i wella eu cymunedau a'u lle.

**Cydlyniant cymunedol**

- Mae cyfle i Gydlynwyr Ardal Leol weithio gyda'r gymuned i adnabod ac ymateb i heriau, anghenion a chyfleoedd eu hardaloedd lleol.
- Darparu cymorth capasiti i adeiladu ar weithgareddau cymunedol a gynyddodd yn ystod y pandemig ac adeiladu cymunedau gwydn.
- Gweithio gyda phartneriaid i wella a chefnogi cyfleusterau cymunedol/diwylliannol/treftadaeth a chwaraeon sy'n bwysig i'n cymunedau.
- Mae cyfle i wneud y mwyaf o ymdrech gwirfoddolwyr mewn cymunedau, gan adeiladu ar y gwaith sydd wedi dechrau yn ystod y pandemig lle mae cymunedau yn ymfalchïo yn lle maent yn byw.

**Economi Sylfaenol**

Mae potensial i archwilio dulliau newydd o ddatblygu economaidd a arweinir gan y gymuned, gan adeiladu ar y syniad o gaffael/prynu'n lleol yn y sector cyhoeddus a hybu twf busnesau bach yn yr economi sylfaenol. Sefydlu modelau perchnogaeth gymunedol, lle mae'r rhain yn cyflwyno cyfleoedd i gadw cyfoeth lleol o'r asedau allweddol (er enghraifft trwy gynhyrchu ynni, lle gallai derbyniadau o gynlluniau ynni adnewyddadwy lleol helpu i gymell defnydd); neu lle gallai asedau sy'n eiddo i'r gymuned gynhyrchu elw hirdymor o nwyddau economaidd a allai fod yn fasnachol anneniadol fel arall (e.e. eiddo masnachol ar raddfa fach).

Cyfleoedd i hybu datblygiad busnes lleol trwy fodelau 'caffael blaengar'. Yn nodweddiadol, mae'r rhain yn cynnwys pwysoli buddion cyflogaeth leol a'r gadwyn gyflenwi o fewn y broses gaffael; a phecynnu gwaith comisiwn yn unedau llai fel bod modd i gwmnïau lleol llai gystadlu.

## <u>Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (FRIW)</u>

Mae ein cynigion o dan y flaenoriaeth hon yn gyson ag amlinelliad y Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ac yn gyson â'r blaenoriaethau a amlinellir ynddo.

**Blaenoriaeth 1: Busnesau Mwy Cynhyrchiol a Chystadleuol**
"Rydym yn awyddus i sbarduno adferiad a ffyniant drwy gefnogi entrepreneuriaid, busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli'n barod i greu a chadw swyddi cynaliadwy sy'n adlewyrchu egwyddorion Gwaith Teg Cymru. Byddwn yn helpu busnesau i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu ac yn cryfhau cynhyrchiant a chystadleurwydd busnesau a mentrau cymdeithasol o bob maint, yn enwedig busnesau o faint micro i ganolig.

Mae hyn yn cynnwys cefnogi busnesau gyda'u hymdrechion i greu neu wella eu cyfran o'r farchnad allforio"

**Blaenoriaeth 2: Lleihau'r Ffactorau sy'n Arwain at Anghydraddoldeb Economaidd**
"Rydym am i gynifer o bobl â phosibl allu cymryd rhan mewn gwaith cynaliadwy o ansawdd da, a chael cyflog teg am y gwaith hwnnw, gan sicrhau bod hyn yn cael ei rannu'n deg ar draws ardaloedd daearyddol a gwahanol ddemograffeg, yn enwedig ymysg grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod anghydraddoldeb yn cael effaith niweidiol ar dwf economaidd a chanlyniadau cymdeithasol. Yn y tymor byr, bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio ar gefnogi'r rhai y mae effaith economaidd y pandemig Covid wedi'u taro waethaf, yn enwedig pobl ifanc, y rhai mewn cyflogaeth incwm isel ac ansicr, merched, grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), a phobl anabl."

**Blaenoriaeth 3: Cefnogi'r Newid i Economi Ddi-Garbon**
"Yr argyfwng hinsawdd yw her fyd-eang ein hoes ni. Mae'r risgiau'n real i bob dinesydd a busnes, ond maen nhw waethaf i'r rhai sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd pontio i economi ddi-garbon yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd glân ac effeithlon o ran ynni, swyddi o ansawdd a buddion yn y farchnad fyd-eang, yn ogystal â buddion i'n heconomi, ein hiechyd, ein cyfalaf naturiol, a'n gwasanaethau ecosystemau"

**Blaenoriaeth 4: Cymunedau Iachach, Tecach, a Mwy Cynaliadwy**
"Mae gweithluoedd sy'n hapus ac yn iach, a chymunedau cryf a chydnerth sydd â chysylltiadau da, yn asedau economaidd sydd o fudd i bawb. Mae'r cyswllt rhwng llesiant a'r economi yn gliriach nag erioed. Rydym am helpu i sicrhau bod gan gymunedau lle a chymunedau pobl y cydnerthedd a'r strwythurau sydd eu hangen arnynt er mwyn i'r bobl sy'n byw yma allu byw bywyd hir a hapus, a gwireddu eu potensial i wneud cyfraniad cynhyrchiol i'n heconomi a'n cymdeithas."

## <u>Cyswllt i Genhadaeth Ffyniant Bro</u>

### Cenhadaeth 7. Erbyn 2030, bydd y bwlch mewn Disgwyliad Oes Iach (HLE) rhwng ardaloedd lleol lle mae ar ei uchaf a'i isaf wedi lleihau, ac erbyn 2035 bydd HLE yn codi o bum mlynedd

I ddynion, mae Disgwyliad Oes Iach yn uwch na chyfartaledd Cymru (61.5 mlynedd) ar gyfer y cyfnod 2018-2020 yn Abertawe (61.9 mlynedd) a Sir Benfro (61.8 mlynedd) ond yn is yn Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot (y ddau yn 59.7 mlynedd). I fenywod, mae'r darlun yn wahanol gyda dim ond Sir Benfro, ar 65.8 mlynedd, â Disgwyliad Oes Iach yn uwch na chyfartaledd Cymru (62.4 mlynedd) ar gyfer y cyfnod 2018-2020, a Sir Gaerfyrddin (61.8), Abertawe (60.5) a Chastell-nedd Port Talbot (57.9) i gyd isod

Mae'r bwlch absoliwt mewn disgwyliad oes iach ar gyfer merched adeg eu geni ym mhob sir yn dra gwahanol gyda bwlch o 3.3 blynedd o gymharu â'r pumed ran lleiaf difreintiedig yn Sir Benfro, bwlch o 8.9 mlynedd yn Sir Gaerfyrddin, bwlch o 17.2 mlynedd yng Nghastell-nedd Port Talbot a bwlch o 19.8 mlynedd yn Abertawe ar

gyfer y cyfnod 2018-2020. I ddynion, mae'r bwlch absoliwt mewn disgwyliad oes iach ar ei isaf yng Nghastell-nedd Port Talbot gyda bwlch o 10.2 mlynedd rhwng y pumed ran lleiaf i'r mwyaf difreintiedig, ac yna Sir Gaerfyrddin ar 10.8 mlynedd, Abertawe ar 14.9 mlynedd, a Sir Benfro gyda'r bwlch mwyaf, sef 15.1 mlynedd, ar gyfer y cyfnod 2018-2020.

Mae'r gwerthoedd hyn yn rhagddyddio'r pandemig ac o'r herwydd, ni wyddys pa effaith y bydd y pandemig wedi'i chael ar y gwerthoedd hyn. Data o Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru https://publichealthwales.shinyapps.io/PHWO_HealthExpectanciesWales_2022/

**Cenhadaeth 8. Erbyn 2030, bydd llesiant wedi gwella ym mhob rhan o'r DU, gyda'r bwlch rhwng meysydd sy'n perfformio orau a meysydd eraill yn cau.**

Mae sgorau llesiant meddwl, yn ôl Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin, ar gael i bobl 16 oed a throsodd o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r data hwn yn dangos bod lefelau llesiant meddwl ar gyfer 2018-19 (y data diweddaraf sydd ar gael) ar eu hisaf yn Sir Benfro (49.7), ac yna Abertawe (50.3) a Sir Gaerfyrddin (51.1), gyda dim ond Castell-nedd Port Talbot (52.1) yn uwch na chyfartaledd Cymru (51.4).

**Cenhadaeth 11. Erbyn 2030, bydd lladdiad, trais difrifol, a throseddau yn y gymdogaeth wedi gostwng, gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd yr effeithir arnynt waethaf.**

Mae cyfle i gydweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i gyrraedd y targed hwn.

## 2.3 DEILLIANNAU CFfGDU BLAENORIAETH BUDDSODDI CYMUNEDAU A LLEOEDD

Swyddi wedi'u creu
Swyddi wedi'u diogelu
Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr
Cynnydd mewn ymwelwyr
Cyfraddau is o swyddi gwag
Gostyngiadau nwyon tŷ gwydr
Gwell hygyrchedd canfyddedig/a brofwyd
Gwell canfyddiad o gyfleusterau/amwynderau
Cynnydd yn nifer yr eiddo sy'n cael eu hamddiffyn yn well rhag llifogydd ac erydu arfordirol
Mwy o ddefnyddwyr cyfleusterau / amwynderau
Gwell canfyddiad o brosiect cyfleuster/seilwaith
Mwy o ddefnydd o lwybrau beicio neu lwybrau
Cynnydd mewn Bioamrywiaeth
Mwy o fforddiadwyedd digwyddiadau/mynediad
Gwell canfyddiad o ddiogelwch
Gostyngiad mewn troseddau cymdogaeth

Gwell niferoedd yn ymgysylltu
Gwell canfyddiad o ddigwyddiadau
Cynnydd yn nifer y chwiliadau gwe am le
Niferoedd yn gwirfoddoli o ganlyniad i gefnogaeth
Nifer y rhaglenni celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol a arweinir gan y gymuned o ganlyniad i gefnogaeth
Mwy o bobl yn defnyddio mesurau effeithlonrwydd ynni
Cynnydd yn nifer y prosiectau yn deillio o astudiaethau dichonoldeb a ariennir
Nifer yr adeiladau sydd â chysylltedd digidol gwell
Dim un o'r uchod

## 2.4 YMYRIADAU BLAENORIAETH BUDDSODDI CYMUNEDAU A LLEOEDD

W1: Cyllid ar gyfer gwelliannau i ganol trefi a strydoedd mawr, gan gynnwys gwell hygyrchedd i bobl anabl, gan gynnwys gwariant cyfalaf a chostau rhedeg.

W2: Cyllid ar gyfer prosiectau seilwaith cymunedol a chymdogaeth newydd neu welliannau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys y rhai sy'n cynyddu gallu cymunedau i wrthsefyll peryglon naturiol, megis llifogydd, a buddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol, a rheoli gwastraff i wella'r newid i fyw bywyd carbon isel. Gallai hyn gynnwys gwariant cyfalaf a chostau rhedeg.

W3: Creu a gwella mannau gwyrdd lleol, gerddi cymunedol, cyrsiau dŵr ac argloddiau, ynghyd ag ymgorffori nodweddion naturiol a gwelliannau bioamrywiaeth mewn mannau cyhoeddus ehangach.

W4: Gwell cefnogaeth i sefydliadau diwylliannol, hanesyddol a threftadaeth presennol sy'n rhan o'r cynnig diwylliannol a threftadaeth lleol, gan gynnwys gwelliannau i fynediad i safleoedd i wrthsefyll effeithiau ynysu, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl.

W5: Dylunio a rheoli'r amgylchedd adeiledig a thirluniol er mwyn 'dylunio i atal trosedd'

W6: Cefnogaeth i weithgareddau celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol lleol

W7: Cefnogaeth ar gyfer gwella teithio llesol a phrosiectau seilwaith trafnidiaeth werdd eraill ar raddfa fach, gan ystyried Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

W8: Cyllid ar gyfer datblygu a hyrwyddo ymgyrchoedd ehangach a phrofiadau gydol y flwyddyn sy'n annog pobl i ymweld â'r ardal leol a'i harchwilio.

W9: Cyllid ar gyfer prosiectau gwirfoddoli a/neu weithredu cymdeithasol effeithiol i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol a dynol mewn mannau lleol

W10: Cyllid ar gyfer cyfleusterau chwaraeon lleol, twrnameintiau, timau a chynghreiriau; i ddod â phobl at ei gilydd

W11: Buddsoddi mewn meithrin capasiti a chymorth seilwaith ar gyfer cymdeithas sifil leol a grwpiau cymunedol

W12: Buddsoddi mewn cynlluniau ymgysylltu â'r gymuned i gefnogi cyfranogiad cymunedol wrth wneud penderfyniadau ar adfywio lleol.

W13: Mesurau cymunedol i leihau costau byw, gan gynnwys drwy fesurau i wella effeithlonrwydd ynni, a brwydro yn erbyn tlodi tanwydd a newid yn yr hinsawdd.

W14: Cyllid i gefnogi astudiaethau dichonoldeb perthnasol

W15: Buddsoddiad a chymorth seilwaith digidol ar gyfer cyfleusterau cymunedol lleol.

## 2.5 PROSIECTAU POSIBL SY’N DOD O DAN Y FLAENORIAETH BUDDSODDI CYMUNEDAU A LLEOEDD

Mae'r rhanbarth wedi ymgynghori'n eang mewn ardaloedd lleol a nodwyd ystod o raglenni allweddol sy'n dod o dan y flaenoriaeth fuddsoddi hon. Mae’r canlynol yn enghreifftiau o brosiectau a rhaglenni a ragwelir:

Astudiaeth ddichonoldeb o strwythurau hanesyddol ac ardal gadwraeth a chronfa prosiect

Gwelliannau ar raddfa fach i ganol trefi a phentrefi y gall pobl eu hadnabod yn eu lleoedd i gyllido cyfalaf a refeniw, gan gynnwys cymorth i symud tuag at ganol trefi mwy amrywiol, creu amgylcheddau clyfar yn ddigidol a chofleidio gwyrddu canol trefi a datgarboneiddio, ynghyd â chymorth swyddogion penodedig i ddarparu capasiti a chydlynu. Rhyngwynebu’n ofalus â rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ac adeiladu ar daith ddatblygu barhaus lwyddiannus yn enwedig mewn safleoedd a blaenoriaethau allweddol a nodwyd eisoes ledled y rhanbarth. Rhagwelir cymysgedd o ymyriadau yn pontio ar draws ymyriadau lluosog.

Rhaglen Mannau Cyfamser – i ddefnyddio eiddo gwag ar y stryd fawr i ddarparu cyfleoedd i ficrofusnesau ddechrau masnachu, ychwanegu bywiogrwydd a chynyddu nifer yr ymwelwyr

Rhaglen capasiti diwylliannol gan gynnwys gweithgareddau sy’n cefnogi llesiant cymunedau lleol mewn ystod o feysydd o fynediad at wasanaethau, cyfleusterau chwaraeon a hamdden, diwylliant a threftadaeth leol hyd at fynd i’r afael â thlodi tanwydd a newid hinsawdd, e.e. mannau cynnes.

Treialu rhaglen gymorth Ynni Gwyrdd

Rhaglen adfywio economaidd gwledig a datblygu cymunedol – rhaglen wledig dargededig sy’n adeiladu ar fomentwm y Rhaglen Datblygu Gwledig flaenorol ar draws rhanbarth y De-orllewin. Bydd hyn yn cynnwys gwaith ar y trefi marchnad

gwledig ar draws y rhanbarth a chymunedau’r cymoedd i gefnogi eu datblygiad a’u cynaliadwyedd

Prosiectau a arweinir gan y gymuned a chymorth i fentrau cymdeithasol sydd wedi'u cynllunio i greu cymunedau mwy bywiog a chynaliadwy.

# 3.0 BLAENORIAETH BUDDSODDI CEFNOGI BUSNESAU LLEOL

## 3.1 HERIAU LLEOL

Yn y blynyddoedd cyn y pandemig Covid, perfformiodd economi De-orllewin Cymru yn gryf o ran creu swyddi newydd: Erbyn 2019, roedd tua 322,000 o swyddi yn y rhanbarth, cynnydd trawiadol o 20,000 ar ffigur 2013.

Gan adlewyrchu dosbarthiad poblogaeth a datblygiad diwydiannol hanesyddol y rhanbarth, mae'r crynoadau mwyaf o gyflogaeth yn y dwyrain, o amgylch Bae Abertawe. Mae Abertawe ei hun yn cyfrif am tua 40% o swyddi yn Ne-orllewin Cymru (a hon yw ei phrif gyrchfan i gymudwyr), a diffinnir yr ardal o amgylch Bae Abertawe a Llanelli yng Nghymru'r Dyfodol fel 'Ardal Twf Cenedlaethol' ar gyfer swyddi a thai newydd. Mae dwyrain y rhanbarth hefyd yn cynnwys crynhoad nodedig a helaeth o weithgarwch gweithgynhyrchu ym Mhort Talbot, gan gynnwys gwaith dur mwyaf y DU ac Ardal Fenter Dyfrffordd Port Talbot.

Ymhellach i'r gorllewin, mae tua 20% o gyflenwadau ynni cenedlaethol yn dod i mewn i Brydain drwy Sir Benfro, gyda Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn ganolfan bwysig ar gyfer seilwaith ynni presennol a manteisio ar gyfleoedd newydd. Yn fwy cyffredinol, mae gan Gaerfyrddin a Hwlffordd rolau pwysig fel canolfannau rhanbarthol, gan gefnogi economi wledig eang a diwydiant cynhyrchu bwyd. Gan adlewyrchu ansawdd yr amgylchedd, mae gan y rhanbarth ddynodiadau amgylcheddol helaeth, gan gynnwys y ddau Barc Cenedlaethol a'r AHNE ac amddiffyniadau arbennig ar hyd llawer o'r arfordir. Mae'r ansawdd amgylcheddol hwn yn cefnogi economi ymwelwyr mawr, pwysig sy'n tyfu, yn ogystal â darparu buddion llesiant sylweddol i'n trigolion lleol.

Fodd bynnag, mae bwlch cynhyrchiant mawr a pharhaus o hyd gyda gweddill y DU. Mae gwendidau economaidd y rhanbarth yn strwythurol i raddau helaeth, yn gysylltiedig â phrosesau newid diwydiannol hirdymor (sydd mewn rhai agweddau yn dal i fynd yn eu blaenau), ac yn cael eu rhannu â rhanbarthau eraill yng Nghymru a'r DU. Bydd gwireddu maint llawer o gyfleoedd twf y rhanbarth yn y dyfodol yn gofyn am fuddsoddiad cyhoeddus parhaus, ochr yn ochr â'r sector preifat.

Mae angen cydbwyso cyfleoedd twf 'trawsnewidiol' â'r amodau ar gyfer gwelliannau cynyddrannol mewn gwytnwch, capasiti a gallu ar draws yr economi gyfan. Mae'r cyfleoedd nodedig sydd ar flaen y gad yn gysylltiedig â'r arbenigedd ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant – ond bydd gwytnwch cyflogaeth hirdymor a thwf cyflogau yn dibynnu ar gynaliadwyedd, cynhyrchiant ac ehangiad y stoc ehangach o BBaChau yn y rhanbarth.

**Heriau cyffredin ar draws y rhanbarth o dan y flaenoriaeth Cefnogi Busnesau Lleol yw:**

**Lefelau Cynhyrchiant a Chyflogau Isel**

Mae bwlch cynhyrchiant mawr o hyd yn Ne-orllewin Cymru, sy'n effeithio ar ffyniant lleol. Roedd cynhyrchiant (swm y gwerth ychwanegol gros a gynhyrchwyd ar gyfer

pob swydd wedi'i llenwi) tua £46,300 yn Ne-orllewin Cymru yn 2020. Mae'r bwlch gyda gweddill y DU wedi lleihau ychydig dros amser, ond mae'n dal yn sylweddol: yn 2020, roedd cynhyrchiant tua 80% o lefel y DU. Yn ogystal â chynhyrchu allbwn uwch fesul gweithiwr, yr her allweddol yw sicrhau bod yr enillion cynhyrchiant yn cael eu dal yn lleol mewn cyflog, amodau a chyfleoedd busnes.

Ym mhob rhan o'r rhanbarth, mae cyflog wythnosol crynswth cyfartalog gweithwyr llawn amser yn is na chyfartaledd y DU, gyda dim ond Castell-nedd Port Talbot, ar £596.80, â lefelau cyflog uwch na chyfradd Cymru (£562.80). Yn fras, mae gan y rhanbarth orgynrychioliad o gyflogaeth mewn sectorau â chyflogau is, sgiliau is a chwota is mewn sectorau cyflog uchel a medrus.

**Prif Sectorau**

Mae gan y rhanbarth gryfderau ar draws nifer o sectorau - rhai ohonynt yn cyd-fynd ag asedau gwyddoniaeth ac ymchwil y rhanbarth mewn iechyd a meddygaeth, peirianneg a gweithgynhyrchu a chyfrifiadura a gwyddor data - gan gynnwys gweithgynhyrchu uwch, bwyd-amaeth, diwydiannau creadigol, ynni, iechyd, gofal a gwyddorau bywyd a meddalwedd/digidol. Mae'r mwyafrif y tu allan i'r economi sylfaenol traddodiadol ac yn cynnig y potensial mwyaf ar gyfer cynhyrchiant uwch, cyflogau uwch, lefelau twf uwch a photensial cyflogaeth uwch.

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot economi nodedig o safbwynt cydbwysedd sectoraidd, gyda gweithgynhyrchu yn cyfrif am tua 25% o gyfanswm yr allbwn a 19% o gyflogaeth (o'i gymharu â 10% yn y DU a 17% yng Nghymru). Er bod cyfran allbwn gweithgynhyrchu wedi gostwng dros yr ugain mlynedd diwethaf (o 37% yn 1998) a chyda chrebachiad sydyn yn 2014/15 – y diwydiant dur yn bennaf – mae wedi sefydlogi ers hynny ac yn parhau i fod yn arwyddocaol iawn. Mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i fod yn un o leoliadau gweithgynhyrchu pwysicaf Cymru, felly yr her yw adeiladu gwytnwch a thwf trwy strategaethau sy'n canolbwyntio ar arallgyfeirio, uwchsgilio, a datblygu cadwyni cyflenwi i gefnogi sectorau sy'n tyfu, fel ynni adnewyddadwy a chyflwyno datblygiadau technolegol.

Mae heriau lleol yn Sir Benfro yn ymwneud â sectorau strategol allweddol traddodiadol sydd wedi dirywio; effeithiwyd ar y rhain gan gyfyngiadau'r pandemig, colli gweithwyr yr UE, neu maent angen addasu i'r amgylchedd ôl-Brexit a chostau cynyddol eu cadwyni cyflenwi. Mae'r sectorau yr effeithir arnynt yn arbennig gan anhawster recriwtio staff yn cynnwys y sectorau lletygarwch a hamdden, adeiladu, manwerthu, a gofal. Mae cynnydd mewn prisiau yn y gadwyn gyflenwi yn arbennig o amlwg yn y diwydiant adeiladu, ac mewn arlwyo/lletygarwch.

**Dibyniaeth ar Ficrofusnesau a Busnesau Bach**

Mae rhai cyflogwyr mawr pwysig (fel purfa Valero ym Mhenfro a Tata Steel ym Mhort Talbot a Llanelli), ond mae proffil busnes y rhanbarth yn gwyro tuag at fusnesau micro a bach, gyda 94.3% o'r holl fentrau yn ficrofusnesau (0-9 o weithwyr).

Yn sir Benfro, yn arbennig, mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn dal i fod yn rhai ffordd o fyw sydd heb botensial arloesi na deinameg, ac na allant gynnig dilyniant gyrfa i'r rhai sy'n gweithio ynddynt, er bod hyn bellach yn newid yn araf.

Os ydym am wireddu twf economaidd nodedig a chynyddu cynhyrchiant, mae angen canolbwyntio ar gefnogi busnesau bach i uwchraddio gan gynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr, yn ogystal â busnesau bach a chanolig traddodiadol. Trwy ddefnyddio'r sylfaen gyfoethog sydd eisoes yn bodoli, byddwn yn cynyddu gwariant lleol ac yn harneisio'r potensial ar gyfer twf mwy lleol mewn cyfoeth a llesiant cymunedol, gan dynnu at ei gilydd fusnesau, pobl a lleoedd. Mae busnesau cymdeithasol yn gyflogwyr da sy'n aml yn darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl yr ystyrir sydd bellaf o'r gweithle, ac maent fel arfer yn cyflogi pobl sy'n agos iawn at ganolfan y busnes. Mae cyfleoedd i ddatblygu twf yn y sector hwn ymhellach.

Mae gorddibyniaeth ar ficrofusnesau a mentrau bach yn arwain at heriau unigryw, ac mae angen mecanweithiau cymorth busnes sydd yn dargededig ond eto'n hyblyg, ac sy'n ystyried y set unigryw o heriau a rhwystrau sy'n wynebu'r busnesau hynny rhag cynyddu. Mae'r rhain yn cynnwys;

- <u>Recriwtio a chadw talent</u> – Wynebodd sawl sector heriau recriwtio a chadw yn dilyn y pandemig. Mae'r anhawster i gael mynediad at y sgiliau iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn, yn llesteirio gallu busnes i ateb y galw ac, mewn rhai achosion, yn arallgyfeirio eu gwasanaeth neu gynnig.
- <u>Mynediad at gyllid a buddsoddiad</u> – Mae busnesau yn aml yn cael eu cyfyngu o ran dechrau neu dyfu oherwydd diffyg cyllid fforddiadwy. Gall y dirwedd cymorth ariannol fod yn gymhleth i fusnesau llai ei llywio, a heb adnodd penodol i chwilio am y cyfleoedd hyn, mae llawer o fusnesau bach yn colli allan ar y cymorth ariannol sydd ar gael. Mewn llawer o achosion mae'r busnesau yn fentrau hyfyw ond nid oes ganddynt ddigon o arian parod yn y busnes, a/neu'n bersonol, i wneud buddsoddiad. Canlyniad hyn yw bod twf busnes a lefelau hunangyflogaeth/ busnesau newydd yn cael eu mygu. Ceir tystiolaeth o hyn mewn ceisiadau i gynllun Busnesau Newydd Abertawe lle nodir yn aml mai bodolaeth y gronfa grant fu'r prif gatalydd i ganiatáu i'r busnes ddechrau masnachu. Amlygodd dros 40% o ymatebwyr Arolwg Anghenion Busnes Abertawe mai cyllid (neu ddiffyg mynediad ato) yw'r prif rwystr i dwf eu busnes. O ran rhwystrau busnes cyffredinol, nid yw hyn ond yn ail ar ôl gorbenion/costau eiddo, a all fod yn gysylltiedig mewn ffordd â'r rhwystr cyntaf.
- <u>Sicrhau arbedion maint</u> – Mae'n anoddach i fusnesau llai gyflawni arbedion maint gan nad oes ganddynt yr adnoddau a'r cyfalaf i fanteisio ar y buddion a gyflwynir; mewn llawer o achosion, mae'r risgiau'n llawer mwy na'r manteision o archwilio'r opsiynau hyn, yn syml oherwydd eu maint.
- <u>Manteisio ar gyfleoedd caffael</u> – Mae llawer o fusnesau bach yn sôn am rwystrau o safbwynt manteisio ar gyfleoedd caffael lleol. Mae gwybodaeth sylfaenol a gasglwyd yn ddiweddar yn awgrymu bod llawer o fusnesau'n gweld y broses yn gymhleth, neu nid oes ganddynt y sgiliau a'r capasiti i ymgymryd â'r broses ymgeisio. Mae hyrwyddo caffael blaengar yn amcan

allweddol yn y Cynllun trefi rhanbarthol, gyda ffocws ar adeiladu cyfoeth cymunedol.

- Mynediad i eiddo addas – Cydnabyddir bod mynediad i eiddo modern a phriodol yn cynnig mantais gystadleuol i fusnesau, gan roi mynediad i gwsmeriaid a seilwaith a fydd yn cefnogi'r busnes i dyfu a datblygu.
- Mynediad at dechnoleg a gwneud gwell defnydd ohoni – Mae cysylltedd digidol yn flaenoriaeth gyffredinol i Sir Gaerfyrddin ac mae'n sbardun allweddol i sicrhau twf economaidd. Mae sicrhau bod gan fusnesau fynediad at gysylltedd digidol gwibgyswllt a hynod ddibynadwy yn hanfodol, ac er bod cynnydd wedi'i wneud o ran nodi problemau darpariaeth ar draws yr hyn sy'n sir wledig yn bennaf, mae'r gwaith yn parhau i ymyrryd a gwella cysylltedd pan fo angen. Bydd hyn yn sicrhau bod busnesau'n gallu gweithredu a chystadlu'n hyderus mewn economi fyd-eang tra'n cadw eu canolfan yn Sir Gaerfyrddin.

**Cyfraddau Cychwyn Busnes Isel**

Ac eithrio Sir Benfro, mae gan y rhanbarth 'ddwysedd mentrau' is (nifer y mentrau o'i gymharu â'r boblogaeth oedran gweithio) na chyfartaledd y DU ac ym mhob rhan o'r rhanbarth mae'r gyfradd egin-fusnes yn is nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Mae cyfraddau goroesi 5 mlynedd yn uwch na chyfartaledd y DU (39.6%) ym mhob sir - dim ond Abertawe (39.9%) a Chastell-nedd Port Talbot (40.0%) sy'n disgyn islaw cyfartaledd Cymru (40.4%).

Mae cyfradd egin-fusnes farwaidd yn rhwystr i dwf ac yn awgrymu diffyg hyder a chapasiti o fewn yr economi. Awgryma'r dystiolaeth a gafwyd mewn gwaith diweddar ar ragolygon Arloesi i Sir Gaerfyrddin bod capasiti entrepreneuraidd posibl y sir ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Felly, tra bod busnesau presennol o fewn y sir angen cefnogaeth berthnasol, mae hefyd angen canolbwyntio ar greu ecosystem sy'n harneisio'r fflach entrepreneuraidd presennol ar draws y rhanbarth, a gwneud De-orllewin Cymru yn lle deniadol i gychwyn busnes.

Er bod gan lawer o unigolion sydd am gychwyn eu busnes eu hunain weledigaeth gref a set o sgiliau technegol ar gyfer y busnes arfaethedig, yn aml nid oes ganddynt y sgiliau busnes angenrheidiol i redeg a rheoli eu menter o ddydd i ddydd. Yn aml, mae hyn yn arwain at ddealltwriaeth wael o lifau arian parod, cynlluniau marchnata a/neu strategaeth fusnes.

Gwaethygir y mater hwn gan y dirwedd cymorth busnes, a ganfyddir fel un ddryslyd. Nid yw llawer yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, neu maent wedi'u llethu gan yr amrywiaeth o sefydliadau sy'n gweithredu yn y maes hwn. Yn Abertawe, mae diffyg Canolfan Fusnes a deoryddion Cychwyn Busnes yn dwysau'r broblem. Canlyniad hyn yw bod entrepreneuriaid yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at ffrydiau cyllido pwysig oherwydd gofynion y cynlluniau i gael cynlluniau busnes sylfaenol, rhagolygon llif arian a/neu strategaeth fusnes.

Nododd Arolwg Anghenion Busnes Abertawe nad oedd dros 30% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r gwasanaethau cymorth busnes sydd ar gael oherwydd eu bod yn gweld y llwybrau'n rhy ddryslyd ac/neu'n rhy anodd i ymdopi â hwy. Nid oedd bron hanner yr holl ymatebwyr i'r arolwg yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, ac mewn llawer

o achosion, byddant wedi cymryd, yn anghywir, nad oes cymorth hygyrch ar gael iddynt.

Mae cyfle ar gael i ddarparu cymorth targededig ar lefel leol i unigolion sydd am ddechrau busnes. Byddai'r cymorth hwn yn ategu mentrau cymorth busnes sy'n bodoli eisoes ac yn ceisio creu lefel o gymorth cofleidiol sy'n hawdd cael gafael arni ac sy'n cael ei darparu gan unigolion â gwybodaeth werthfawr am y dirwedd fusnes leol.

Mae gan Dde-orllewin Cymru sylfaen gref o fusnesau cymdeithasol ac mae ganddi'r potensial i ysgogi mwy. Dengys ymchwil bod busnesau cymdeithasol yn cynnig effaith gymdeithasol ychwanegol a gwerth yn Ne-orllewin Cymru, gyda chenadaethau sy'n ymwneud yn weithredol â gwella cymunedau lleol, gwella iechyd a llesiant, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a chefnogi pobl agored i niwed. Felly, mae cefnogi cymorth cyn-cychwyn/ dechrau busnes newydd a grantiau bach ar gyfer mentrau cymdeithasol cyfnod cynnar yn bwysig, gan weithio gyda chymunedau ar lawr gwlad i lunio syniadau mentrus sy’n mynd i’r afael â phroblemau economaidd a chymdeithasol yn eu hardal.

**Diffyg Eiddo ar Gael**

Mae bwlch cydnabyddedig rhwng y galw a’r cyflenwad ar gyfer safleoedd ac eiddo diwydiannol, gan fod rhenti isel (ac mewn rhai achosion, costau uchel adfer a seilwaith ar dir cyn-ddiwydiannol) yn gwneud hyfywedd yn heriol, yn enwedig i’r gorllewin o Abertawe. Mae’r dystiolaeth yn dangos bod hyn yn rhwystr i ehangu busnes, i fuddsoddwyr newydd ac i fusnesau lleol presennol sydd eisiau gofod i ‘ddatblygu’ . O ran gofod swyddfa, Abertawe sy'n dominyddu'r farchnad, er bod Cynllun Datblygu Lleol Abertawe yn nodi bod diffyg gofod swyddfa o ansawdd uchel ar gael i ddiwallu anghenion mewnfuddsoddi a thwf economaidd, ynghyd â gorgyflenwad o ofod swyddfa is-safonol yng nghanol trefi a lleoliadau tu allan iddynt. Ystyrir yn gyffredinol bod angen buddsoddiad gan y sector cyhoeddus cyn bod datblygwyr masnachol yn fodlon buddsoddi.

Mae mynediad i eiddo fforddiadwy, tymor byr yn gyfyngedig, ac mae ardrethi busnes yn rhwystr pellach i fusnesau bach lleol, annibynnol sydd am ddechrau neu adleoli, yn enwedig o amgylch canol dinas Abertawe. Tynnwyd sylw at hyn gan Brosiect Peilot Lleoedd Cyfamser Abertawe sydd wedi gweithio ar baru adeiladau gwag ar y Stryd Fawr â darpar feddianwyr, y mae llawer ohonynt yn fentrau ar raddfa ficro, busnesau newydd a/neu yn fentrau lleol.

**Costau’n Cynyddu**

Mae costau cynyddol tanwydd a deunyddiau crai (gan gynnwys bwyd) yn her sylweddol i fusnesau ac yn effeithio'n uniongyrchol ar eu gallu i aros yn broffidiol, ac mewn rhai achosion yn arwain at gau busnesau. Rhwng 2020 a 2021, cododd cost gyfartalog Trydan a Nwy i ddefnyddwyr annomestig o 11.8% a 24.4%, yn y drefn honno. Mae costau o'r fath wedi cynyddu ymhellach yn Ch1 a Ch2 2022 ac mae hyn yn ffactor sy'n cyfrannu'n fawr at y gyfradd chwyddiant cynyddol, sydd ar lefel nas gwelwyd ers mis Chwefror 1982 ac a gofnodwyd ar 9.1% ym mis Mai 2022. Bydd

cyfraddau llog cynyddol yn effeithio'n negyddol ar wariant defnyddwyr a thwf economaidd sefydlog, gan achosi anawsterau pellach i fusnesau lleol.

**Datgarboneiddio**

Ar hyn o bryd, mae allyriadau carbon rhanbarthol yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU. Mae'r rhain yn adlewyrchu'n bennaf rôl gwaith enfawr Tata ym Mhort Talbot, lleoliad diwydiannol o bwys cenedlaethol sy'n parhau i fod yn ddibynnol ar fewnbwn glo.

Cynhyrchodd Castell-nedd Port Talbot tua 7,165 kt o allyriadau CO2 yn 2019. Rhwng 2005 a 2019, gostyngodd cyfanswm allyriadau'r DU tua 36%. Roedd gostyngiad Castell-nedd Port Talbot yn llawer llai – tua 9% – o sylfaen sylweddol uwch. Er bod allyriadau domestig, sector cyhoeddus a masnachol wedi gostwng i raddau helaeth yn unol â chyfartaledd y DU, yng Nghastell-nedd Port Talbot, y gwaith dur ym Mhort Talbot sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth, gyda strwythur diwydiannol nodedig y fwrdeistref sirol yn llywio'r dwysedd carbon uchaf o unrhyw ardal awdurdod lleol yn y DU.

Mae hyn yn pwyntio at risg amgylcheddol ac economaidd allweddol yng nghyd-destun yr ymrwymiad i sero net erbyn 2050 a sylfaen ddiwydiannol o bwys cenedlaethol sydd â heriau sylweddol o ran gwireddu trawsnewid carbon isel yn y tymor canolig.

Wrth ymdrechu i gyrraedd targedau carbon sero net erbyn 2050, mae gan fusnesau ar draws y rhanbarth rôl hanfodol i'w chwarae drwy wneud newidiadau i arbed ynni, lleihau gwastraff ac allyriadau carbon, a chyflwyno polisïau sy'n fwy ystyriol o'r hinsawdd. Fodd bynnag, bydd mynediad at gyngor a hyfforddiant arbenigol yn hanfodol er mwyn darparu'r wybodaeth a'r argymhellion angenrheidiol i gyflawni'r newidiadau hyn.

**Lleoliaeth/ Economi Sylfaenol**

Mae'r economi sylfaenol yn elfen hollbwysig o hunaniaeth economaidd y rhanbarth ac yn gwneud cyfraniad digyffelyb at lesiant cymdeithasol. Ategir hyn gan y niferoedd uchel o fusnesau sy'n gweithredu o fewn sectorau yr ystyrir eu bod yn rhai sylfaenol. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i; Cyfanwerthu, Manwerthu, Trafnidiaeth, Gwestai, Bwyd a Chyfathrebu. Yn Sir Gaerfyrddin yn unig, mae 3,130 o fusnesau yn gweithredu yn y sectorau hyn, gan gynhyrchu trosiant o £2,441 miliwn a chyflogi dros 20,000 o bobl. Mae sectorau ehangach ychwanegol yn cynnwys Adeiladu a Thwristiaeth, y ddau yn ysgogwyr economaidd a chyflogaeth allweddol yn Sir Gaerfyrddin a'r rhanbarth cyfan. Felly, ni ellir diystyru pwysigrwydd yr economi sylfaenol i'r rhanbarth. Teimlwyd effeithiau'r pandemig yn ddifrifol gan fusnesau sy'n gweithredu yn y sectorau hyn, ac er bod adferiad yn mynd rhagddo'n dda, mae heriau'n parhau.

Bydd y cyfleoedd a gynigir drwy'r dull gweithredu lleol yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf perthnasol, gan sicrhau bod y busnesau hyn yn cael eu cefnogi i gael y sgiliau iawn ar yr amser iawn, yn cael mynediad at fwy o fuddsoddiad cyfalaf,

mynediad at well seilwaith ac yn gwneud gwell defnydd o dechnoleg. Bydd hyn yn eu diogelu, gan feithrin twf cynaliadwy a mwy o wytnwch.

Bydd datblygu cadwyni cyflenwi lleol cynaliadwy yn rhoi hwb i'r economi sylfaenol ac yn dod â budd uniongyrchol i'r amgylchedd, yn gwella parhad cyflenwad, yn gwella enw da corfforaethol, yn annog partneriaethau newydd ac yn lleihau costau gweithredu. Mae busnesau angen cymorth i gael mynediad at gadwyni cyflenwi lleol a thendro am gontractau lleol.

**Yr Iaith Gymraeg**

Yn Sir Gaerfyrddin yn enwedig, mae'r Gymraeg yn ystyriaeth bwysig o ran cymorth busnes ac ar lefel sirol mae llawer o waith wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf i gefnogi busnesau i wella a manteisio ar eu harlwy yn y Gymraeg. Cydnabyddir y gellir gwneud mwy yn y maes hwn, felly, lle bo'n bosibl ac yn berthnasol, dylid parhau i gefnogi busnesau i ddatblygu eu presenoldeb a'u harlwy yn y Gymraeg. Mae hyn yn diwallu anghenion y 43.9% o'r boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg ond hefyd yn ystyriaeth bwysig o ran gallu busnesau i chwarae rhan allweddol yn nhirwedd ddiwylliannol y sir.

## 3.2 CYFLEOEDD LLEOL

Mae pob ardal leol yn gweithio'n adeiladol trwy bartneriaethau adfywio lleol i ffurfio ymatebion i'r heriau a nodir uchod. Cyflwynir y rhain yng nghyd-destun Cynllun Cyflenwi Economaidd Rhanbarth y De-orllewin, a chynlluniau a strategaethau lleol perthnasol. Mae dewislen gyson o ymyriadau prosiect yn esblygu, ond cyflwynir cyd-destun penodol anghenion a gofynion lleol isod.

**<u>Cynllun Cyflenwi Economaidd Rhanbarthol- PINS</u>**

Yn y Cynllun Cyflenwi Economaidd Rhanbarthol, ceir tair 'Cenhadaeth' a fydd yn arwain gweithgaredd yn y dyfodol, dros y deng mlynedd nesaf a thu hwnt. Maent wedi'u cynllunio i roi cyfeiriad teithio clir, tra'n parhau'n ddigon eang i ddarparu ystod eang o fuddsoddiadau posibl a ddaw ymlaen dros amser. Mae'r tair Cenhadaeth lefel uchel fel a ganlyn:

**Cenhadaeth 1: Arweinydd yn y DU ym maes ynni adnewyddadwy a'r economi sero net**

Gan edrych at 2030, ein nod yw gwneud De-orllewin Cymru yn arweinydd yn y DU ym maes ynni adnewyddadwy a'r economi sero net. Mae hynny'n golygu manteisio ar ein hasedau naturiol a'n galluoedd diwydiannol ac ymchwil a datblygu i adeiladu presenoldeb o bwys rhyngwladol mewn technolegau tanwydd yn y dyfodol ac i ysgogi datgarboneiddio ein sylfaen ddiwydiannol a'r economi eang.

<u>Meysydd gweithredu allweddol:</u>

- Capasiti Ychwanegol i yrru'r agenda yn ei blaen
- Datblygu prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mawr y rhanbarth
- Denu a gyrru ymlaen fuddsoddiad diwydiannol
- Datgarboneiddio trafnidiaeth a'r stoc tai.

**Cenhadaeth 2: Adeiladu sylfaen fusnes gref, gydnerth sydd wedi'i gwreiddio.**
"Mae busnes yn greiddiol i'n strategaeth hyd at 2030: trwy ehangu cwmnïau presennol a dechrau a denu rhai newydd y bydd cyflogaeth newydd yn cael ei chynhyrchu a sicrhau twf cynhyrchiant. Mae hynny'n golygu cefnogi twf busnes cynaliadwy - sy'n flaengar ym maes technoleg ac arloesi ac ar draws yr economi".

Meysydd gweithredu allweddol:

- Cymorth mabwysiadu ac arloesi cyflymach (yn gysylltiedig ag argymhellion Cymru 4.0 mewn perthynas â chymorth busnes, sgiliau ac arloesi)
- 'Caffael blaengar' o fewn system datblygu cadwyn gyflenwi a busnes lleol

**Cenhadaeth 3: Tyfu a chynnal cynnig 'profiad' De-orllewin Cymru**
"Mae gan Dde-orllewin Cymru amgylchedd gwych a chynnig 'ansawdd bywyd' unigryw. Mae hwn yn ased allweddol i'r rhanbarth, ac yn un y mae'n rhaid i ni ei amddiffyn a'i wella. Byddwn yn gwneud De-orllewin Cymru yn adnabyddus am ansawdd ac ehangder ei 'gynnig profiad', gan ddod ag ansawdd amgylcheddol trefol a gwledig ynghyd, 'ansawdd bywyd' a diwylliant. Bydd hyn yn cefnogi economi ymwelwyr gwerth uchel - ond bydd hefyd mewn perchnogaeth leol ac yn rhan ganolog o'n cynnig buddsoddi."

Meysydd gweithredu allweddol:

- Buddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu a'i gydlynu, gan gynnwys yng nghanol trefi a dinasoedd
- Cydbwyso mentrau ar raddfa ranbarthol, leol a chymunedol.

**Cyfleoedd yn Sir Gaerfyrddin**

**Cynllun Adfer a Chyflenwi Economaidd Sir Gaerfyrddin (CERDP)**

**Thema 1 - Busnes**
"Diogelu ein busnesau presennol, cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau yn ein sectorau sylfaen a thwf i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol"

**Thema 2 – Pobl**
"Diogelu swyddi, ymateb i ddiweithdra disgwyliedig sylweddol, helpu pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swyddi a fydd yn bodoli, a chreu cyflogaeth newydd gyda sgiliau gwell"

**Thema 3 – Lle**
"Sicrhau dosbarthiad teg o gyfleoedd trwy fuddsoddi yn y seilwaith ac addasu ein hardaloedd twf strategol, canol trefi, yr economi wledig ac adfywio ein cymunedau mwyaf difreintiedig."

**Pedwar uchelgais blaenoriaeth trawsbynciol:**

- Cysylltedd digidol hynod ddibynadwy, diwylliant digidol a sgiliau – gwella cysylltedd, mynd i'r afael â'r heriau cysylltiedig i ddosbarthu ac ymyrryd i wneud gwelliannau mewn cysylltedd digidol nawr ac yn y dyfodol.

- Sgiliau - cefnogi pobl a busnesau i ailhyfforddi, ailsgilio, ac uwchsgilio trwy gyfuno dysgu traddodiadol, ar-lein a seiliedig ar waith.

- Economi werdd – ychwanegu gwerth economaidd drwy gadw a pharhau i ddefnyddio adnoddau ac osgoi gwastraff, buddsoddi mewn seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.

- Economi teg a chyfartal a chefnogaeth i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg – cefnogi diwylliant a llesiant pobl gyda chyflogaeth leol, deg, gweddus a diogel.

**<u>Archwilio'r Rhagolygon Arloesedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin (EIPC)</u>**

Pwrpas yr astudiaeth hon oedd adolygu sefyllfa bresennol Sir Gaerfyrddin a llywio strategaeth arloesi leol CSC yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r 4 cyfle canlynol yn cloi'r adroddiad ac maent yn deillio o ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a dadansoddiadau dogfennol:

- Cyfle 1 - Digidol: Gwella cysylltedd Digidol a manteisio ar gyfleoedd Digidol ledled Sir Gaerfyrddin
- Cyfle 2 - Iechyd: Datblygu labordy byw gwasgaredig
- Cyfle 3 - Economi Sylfaenol: Caffael bwyd cynaliadwy
- Cyfle 4 - Economi Gylchol: Defnyddio dull yr Economi Gylchol ar gyfer yr Agenda Sero Net.

**<u>Cyfleoedd Castell-nedd Port Talbot</u>**

Mae **Cynllun Adfer Economaidd Castell-nedd Port Talbot** yn nodi nifer o gyfleoedd sy'n dod o dan y flaenoriaeth buddsoddi cefnogi busnesau lleol, gan gynnwys:

**Sylfaen Economaidd Drosiannol**

Un o'r pedwar maes allweddol ar gyfer gweithredu yng Nghynllun Adfer Economaidd Castell-nedd Port Talbot yw '*Economi entrepreneuraidd a gwydn: Cryfhau ein sylfaen BBaChau – ym mhob sector ac ar draws y fwrdeistref sirol – drwy ddull cydgysylltiedig gwell o ymdrin â chymorth, adeiladau a chyllid a ffocws o'r newydd ar dwf busnes 'cynhenid' cynaliadwy ar lefel gymunedol'*

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot economi nodedig, gyda sylfaen ddiwydiannol fawr, gan gynnwys cynhyrchydd dur gwreiddiol mwyaf y DU ac ystod eang o gynhyrchwyr BBaCh. Mae hefyd yn cynnwys cyfleoedd sylweddol ar gyfer twf yn y dyfodol, yn enwedig yn gysylltiedig â'r prif safleoedd glan y dŵr a'r Ardal Fenter, y potensial ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol a'r posibilrwydd o ddynodi Porthladd Rhydd yn y dyfodol. Yn ogystal â'r crynodiad o safleoedd strategol a diwydiannau yng Nghoridor yr M4, mae'r fwrdeistref sirol yn amrywiol, gan gynnwys trefi Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe; a Chymoedd Afan, Aman, Nedd, Dulais a Tawe. Gan edrych y tu hwnt i Gastell-nedd Port Talbot ei hun, mae cysylltiadau cryf ag Abertawe, ac ar hyd yr M4 i Gaerdydd a thu hwnt.

## Sectorau

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol ac yn cymryd agwedd ragweithiol at ddatblygiad economaidd a darparu cefnogaeth i annog twf busnes arloesol. Wrth i'r economi ddod allan o'r argyfwng Covid-19, ac i gyd-fynd â'r Asesiadau Llesiant, mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Adfer Economaidd ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir, sy'n canolbwyntio ar gyflawni twf cyflogaeth a busnes o fewn economi fwy amrywiol a gwydn.

Mae crynodiadau cyflogaeth yn llai ac yn fwy gwasgaredig yn rhannau ôl-ddiwydiannol a gwledig y fwrdeistref sirol, gyda rhagolygon mwy cyfyngedig yn gyffredinol ar gyfer twf cyflogaeth ar raddfa, er bod cyfleoedd sylweddol yn dod ymlaen, megis y Ganolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn Onllwyn.

## Datgarboneiddio

Er gwaethaf yr heriau sylweddol a gyflwynir gan ddwysedd carbon diwydiannol uchel, mae gan Gastell-nedd Port Talbot gyfleoedd sylweddol sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio diwydiannol (sydd ynddo'i hun yn ffocws allweddol i'r Cynllun Cyflenwi Economaidd Rhanbarthol).

Ym mis Mai 2020, lansiodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ei Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DARE) – sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, drwy leihau ei ôl troed carbon ei hun a thrwy weithio gydag eraill i ddod â buddsoddiadau allweddol ymlaen mewn ynni adnewyddadwy a thechnolegau carbon isel. Yn ystod ymweliad diweddar Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd y DU ym mis Mawrth 2022, gwnaed sylwadau ar ba mor edmygus oedd yr aelodau o weld y Cyngor nid yn unig yn ysgrifennu adroddiadau, ond yn cyflenwi ei fentrau mewn gwirionedd. Cawsant eu plesio hefyd gan natur gydweithredol y trefniadau gweithio ar draws y fwrdeistref sirol rhwng diwydiant, y byd academaidd a llywodraeth leol, sy'n gweithio'n anhygoel o dda i bawb dan sylw. Mae nifer o gyfleoedd sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio yn cynnwys:

- Gweithgynhyrchu Uwch mewn technolegau carbon isel
- Arddangos potensial technolegau a diwydiannau carbon isel
- Datblygu potensial ynni adnewyddadwy
- Datgarboneiddio seilwaith a'r amgylchedd adeiledig – comisiynodd CBS Castell-nedd Port Talbot fenter arloesol yn ddiweddar wrth adeiladu Canolfan Dechnoleg y Bae gwerth £7.9m, a gwblhawyd yn 2022 a dyma'r adeilad masnachol ynni-bositif cyntaf yng Nghymru sydd yn ddiweddar wedi ennill y Wobr Sero Net fawreddog yng Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd Cymru (CEW) a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022.
- Potensial sylweddol i arwain yr ymgyrch i ddatgarboneiddio'r economi, drwy asedau presennol (e.e., y Ganolfan Hydrogen ym Maglan a chapasiti ynni adnewyddadwy) a'r cyfle i arloesi a mabwysiadu o fewn diwydiant.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r **byd academaidd** a **diwydiant** i wireddu'r cyfleoedd hyn trwy gefnogaeth uniongyrchol trwy gronfeydd twf a chefnogaeth.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y bydd busnesau bach a chanolig yn allweddol i gyflenwi unrhyw raglen ddatgarboneiddio yn llwyddiannus gan y bydd angen iddynt addasu i gyfleoedd cyflogaeth newydd. Mae hyn yn cyflwyno her gan fod y pandemig wedi effeithio ar fuddsoddiadau ac amserlenni gwaith, felly efallai na fydd dod o hyd i'r amser a'r adnoddau i fuddsoddi mewn uwchsgilio staff neu mewn ffyrdd newydd o weithio, fel ôl-osod a sgiliau gwyrdd, ar flaen eu rhestr o flaenoriaethau. Yn ogystal, mae'n ymddangos bod datgysylltiad rhwng nodau'r polisi Sero Net ac awydd busnesau i ymgysylltu – hyd nes bod marchnad ar gyfer y sgiliau a'r cynhyrchion newydd hyn, efallai na fydd BBaChau yn awyddus i gefnogi'r cysyniadau newydd hyn.

**Capasiti ar gyfer twf – Seilwaith**
Ceir nifer o gyfleoedd ar gyfer twf gan gynnwys:

- **Trafnidiaeth** – i wneud y mwyaf o seilwaith ffyrdd, cysylltiadau rheilffordd a Phorthladd Port Talbot
- **Cysylltedd digidol** – sicrhau bod gan bob eiddo gysylltedd digidol cyflym a dibynadwy
- **Eiddo masnachol** - Er gwaethaf safle Castell-nedd Port Talbot fel lleoliad diwydiannol mawr a thystiolaeth o alw uchel am stoc ddiwydiannol, mae'r cyflenwad yn parhau i fod yn gyfyngedig iawn gyda bwlch hyfywedd a'r angen am ymyrraeth gyhoeddus uniongyrchol i gyflwyno cynlluniau sylweddol i fynd i'r afael â'r diffyg eiddo diwydiannol ar draws y fwrdeistref sirol, gan gynnwys y cymoedd ac ardaloedd gwledig.

Maes allweddol ar gyfer gweithredu yng Nghynllun Adfer Economaidd Castell-nedd Port Talbot:
Buddsoddiad a newid trawsnewidiol: Sicrhau buddsoddiad parhaus yn ein prif safleoedd strategol yng Nglannau Port Talbot a Bae Baglan (a'r capasiti i'w cyflenwi); y cyfle allweddol sy'n gysylltiedig â'r Ganolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd; a'r ystod o gamau gweithredu hirdymor – ond rhai sy'n dod i'r amlwg mewn rhai achosion – i gefnogi datgarboneiddio diwydiannol.

**Prif safleoedd cyflogaeth**
Mae safleoedd strategol o bwys cenedlaethol (e.e. ym Mae Baglan) gyda photensial ar gyfer datblygiadau mawr dros amser – mae gan y safleoedd gysylltedd rhagorol a diddordeb masnachol sylweddol. Ceir nifer o safleoedd strategol gyda photensial ar gyfer twf pellach, gan gynnwys:
Parc Ynni Baglan
Glannau'r Harbwr
Dociau Port Talbot

Mae'r cyfleoedd i adeiladu ar y sylfaen wybodaeth yn cynnwys y ffaith bod llawer o Brifysgol Abertawe o fewn Castell-nedd Port Talbot, gyda photensial am gysylltiadau diwydiannol cryfach a rôl y prifysgolion fel ysgogwyr economaidd eu hunain. Cynlluniwyd prosiectau a rhaglenni **Bargen Ddinesig Bae Abertawe** i ddarparu

catalydd ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol a fydd yn cael eu datblygu gyda rhaglen ymyriadau CFfGDU.

Bydd y cyfleoedd a restrir uchod, ynghyd â'r ddarpariaeth sgiliau a amlinellir yn yr adran Pobl a Sgiliau, yn gwella cynhyrchiant ac yn cynyddu cyflog, gan roi cyfle i bawb gael mynediad at swyddi gwerth ychwanegol. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y cyfle a ddaw yn sgil cyfraniad y Trydydd Sector i'r economi leol.

**Cyfleoedd yn Sir Benfro**

Yn Sir Benfro, bydd y cyfleoedd canlynol yn debygol o fod yn sail i fuddsoddiadau “Cefnogi Busnesau Lleol” CFfGDU, yn amodol ar y broses asesu a dethol:

Safleoedd Datblygu Strategol. Mae Porthladd Aberdaugleddau (gan gynnwys safleoedd ynni ar y tir), Doc Penfro (Porthladd Penfro) a Doc Penfro Llanion i gyd yn safleoedd strategol pwysig o amgylch dyfrffordd Aberdaugleddau sy’n hanfodol i’n huchelgais i greu Prifddinas Ynni Gwyrdd y DU gan gyfrannu o leiaf 20% o gynhyrchiant hydrogen y DU a 10% o dargedau Ynni Gwynt y Môr Arnofiol y DU (FLOW), fel y nodir yn Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain. Bydd Clwstwr Ynni’r Dyfodol Dyfrffordd Aberdaugleddau hefyd yn cefnogi datblygiad tanwydd hylifol carbon isel, llongau $CO_2$, ynni adnewyddadwy morol a storio ynni, gan chwarae rhan ganolog felly wrth gefnogi trosglwyddiad cyflymach i economi sero net tra’n ysgogi twf economaidd sylweddol.

Mae’r cyd-destun hwn yn cynnig cyfleoedd pwysig i wella gofodau diwydiannol, masnachol a swyddfeydd addas i gefnogi twf y sector ynni, morol, peirianneg a chysylltiedig o amgylch Dyfrffordd Aberdaugleddau, gan gynnwys datblygiadau strategol megis ehangu Canolfan Arloesedd y Bont a gwelliannau cysylltiedig ym Mharc Gwyddoniaeth Sir Benfro yn Llanion.

Mae safleoedd arwyddocaol eraill yn dechrau gweld budd gwaith dichonoldeb, hyrwyddo a chefnogaeth ehangach gan y sir a'i Phartneriaid Sector Preifat. Mae’r rhain yn cynnwys Maes Awyr Llwynhelyg, lle mae gwaith dichonoldeb diweddar wedi nodi buddsoddiadau cymharol fach a allai gefnogi gallu’r maes awyr i wasanaethu’r farchnad dwristiaid yn arbennig. Ar yr un pryd, rydym ar hyn o bryd yn archwilio nifer o gyfleoedd gydag arloesiadau hedfanaeth, o ran atyniadau gwell ac arloesi yn y diwydiant a allai gefnogi cyfnod diwydiannol newydd. Mae cyfleoedd hefyd yn codi yn Nhrecwn, safle a oedd yn eiddo i’r Weinyddiaeth Amddiffyn yng ngogledd Sir Benfro, sydd â photensial i’w ailddatblygu a’i adnewyddu. Mae hygyrchedd rheilffordd a ffyrdd, yn ogystal â'i agosrwydd at Fae Abergwaun, yn gwneud y safle'n fwyfwy deniadol i gynhyrchwyr ynni a gweithgynhyrchwyr. Bydd buddsoddiadau seilwaith cymedrol yn sicrhau datblygiadau o’r fath, gan alluogi cyfleoedd cyflogaeth y mae mawr eu hangen yng ngogledd Sir Benfro.

Parc Bwyd Sir Benfro

Mae Sir Benfro yn elwa ar rywfaint o dir amaethyddol o’r ansawdd gorau yng Nghymru, ased y dylem geisio manteisio arni ar gyfer y sir, ei chymuned, ac i gefnogi cynaliadwyedd bwyd ehangach yng Nghymru a’r DU. Mae Sir Benfro wedi elwa ar fuddsoddiad gan yr UE a Llywodraeth Cymru i gataleiddio datblygiad Parc Bwyd Sir Benfro, menter ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Mae’r buddsoddiad hwn wedi cefnogi

datblygiad pellach gan y sector preifat a chreu Hufenfa Sir Benfro ochr yn ochr â'r Puffin Produce llwyddiannus ac estynedig. Mae datblygiadau menter ar y cyd pellach yn cynnwys creu cyfres o unedau deori i gefnogi busnesau bwyd newydd yn y Sir. Rydym yn awyddus i weithio gyda busnesau bwyd lleol i wella'r duedd hon ymhellach, gan geisio cyllid i fuddsoddi mewn datblygu i fodloni'r galw cynyddol.

## Cyfleoedd yn Abertawe

### Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe

Er mwyn cefnogi adferiad yr economi leol o'r pandemig covid-19 mae'r Cyngor ar y cyd â phartneriaeth Adfywio Abertawe wedi datblygu cynllun gweithredu adferiad economaidd ar gyfer Abertawe. Mae hwn yn nodi'r camau gweithredu ychwanegol sydd angen i ni eu cymryd i gefnogi busnesau, cefnogi unigolion a gwella gwytnwch yr economi leol yn wyneb y pandemig.

Mae'r Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd yn canolbwyntio ar nodau allweddol:

- Codi Hyder – hybu nifer yr ymwelwyr â chanol dinasoedd ac ardaloedd i gefnogi busnesau lleol
- Cefnogi Busnesau – cymorth busnes, cymorth ariannol ar raddfa fach, mynediad i eiddo a datblygu cyflenwyr lleol i gefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes
- Hyrwyddo Bwyd Lleol – cynyddu hygyrchedd a hyrwyddo bwyd lleol, a chodi proffil Abertawe fel cyrchfan bwyd
- Cefnogi Twristiaeth – gwella gwybodaeth am y farchnad, marchnata cyrchfannau, marchnata ar-lein ac ymgysylltu â busnesau a gweithio mewn partneriaeth
- Datblygu Sgiliau a Chyflogadwyedd – ymestyn ac addasu darpariaeth cyflogadwyedd gan gynnwys lleoliadau gwaith â thâl, a chymorth ar gyfer hunangyflogaeth/ entrepreneuriaeth
- Adfer Economaidd Cynaliadwy – Cynllun trefol newydd, adfywio canol y ddinas a'r canolfannau ardal, cefnogi symudiad tuag at garbon sero net erbyn 2050, adeiladu gallu a hyrwyddo buddsoddiad mewn seilwaith gwyrdd.

Yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Gwledig a Chynllun Adfer Economaidd Abertawe, nodwyd y cyfleoedd canlynol drwy drafodaethau partneriaeth lleol i ymateb i heriau lleol:

Lefelau Cynhyrchiant a Chyflogau Isel

- Gwneud y mwyaf o botensial arbenigedd ymchwil a datblygu prifysgolion y rhanbarth i gefnogi twf busnesau lleol, arloesi ac enillion cynhyrchiant.
- Sicrhau cynadleddau busnes proffil uchel i fanteisio ar Arena Ddigidol newydd.

Dibyniaeth ar Ficrofusnesau a Busnesau Bach

- Cymorth cofleidiol wedi'i deilwra'n lleol ar gyfer busnesau bach, gan ategu darpariaeth Busnes Cymru, i gefnogi twf a chreu swyddi
- Caffael cynyddol i ysgogi cyfleoedd datblygu busnes lleol a byrhau cadwyni cyflenwi.

Cyfradd cychwyn busnes isel

- Grantiau busnes ar raddfa fach i oresgyn rhwystrau cost i ddechrau busnes newydd/hunangyflogaeth a chynnig cymorth busnes lleol cydgysylltiedig, gan ategu darpariaeth Busnes Cymru, i feithrin busnesau newydd a gwella cyfraddau goroesi.

Diffyg eiddo ar gael

- Cefnogaeth gofod yn y cyfamser, gan adeiladu ar gynlluniau peilot llwyddiannus a dysgu sy'n dod i'r amlwg i ddarparu cyfleoedd cost isel i fusnesau newydd a lleihau cyfraddau swyddi gwag ar y stryd fawr.

Costau cynyddol

- Cyngor a chymorth grant ar raddfa fach i fusnesau bach i leihau eu hôl troed carbon a chostau ynni cysylltiedig – gan adeiladu ar grant arloesi gwyrdd peilot a gyflwynwyd gyda chyllid y Gronfa Adfywio Cymunedol.

Datgarboneiddio

- Cyngor a chymorth grant ar raddfa fach i fusnesau bach leihau eu hôl troed carbon – adeiladu ar y grant arloesi gwyrdd peilot a gyflwynwyd gyda chyllid y Gronfa Adfywio Cymunedol
- Datblygu'r farchnad ac adeiladu arbenigedd ar gyfer syniadau newydd megis seilwaith gwyrdd
- Manteisio ar y potensial ar gyfer ffynonellau ynni carbon lleol

## Cyswllt i Genhadaeth Ffyniant Bro

**Cenhadaeth 1. Erbyn 2030, bydd cyflog, cyflogaeth a chynhyrchiant wedi codi ym mhob rhan o'r DU, gyda phob un yn cynnwys dinas sy'n gystadleuol yn fyd-eang, gyda'r bwlch yn cau rhwng y meysydd sy'n perfformio orau a meysydd eraill.**

Mae enillion cyfartalog yn Ne-orllewin Cymru (yn y gweithle) wedi codi 25.1% ers 2011 i £559.30 yn 2021, ond mae hyn yn is na lefelau Cymru (£562.80) a'r DU (£612.8). Ar lefel sirol, Sir Benfro sydd â'r enillion cyfartalog isaf ar £532, gyda Chastell-nedd Port Talbot yr uchaf, ar £596.80 ym mis Ebrill 2021.

Mae'r gyfradd cyflogaeth yn Ne-orllewin Cymru wedi gwella dros y deng mlynedd diwethaf, o 64.8% yn 2011 i 71.7% yn 2021, er ei bod yn dal i lusgo y tu ôl i lefelau Cymru (73.1%) a'r DU (74.7%). Ar draws y rhanbarth, Sir Benfro sydd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf, sef 74.4%, gyda Sir Gaerfyrddin â'r gyfradd isaf, sef 69.1% yn 2021.

Yn 2020, roedd cynhyrchiant (wedi'i fesur fel GVA fesul swydd wedi'i llenwi) tua £46,300 yn Ne-orllewin Cymru. Mae'r bwlch gyda gweddill y DU wedi lleihau ychydig dros amser, ond mae'n dal yn sylweddol: yn 2020, roedd cynhyrchiant tua 80% o lefel y DU. Mae cynhyrchiant ar ei uchaf yng Nghastell-nedd Port Talbot ar £48,600 yn 2020 ac ar ei isaf yn Sir Gaerfyrddin ar £43,100.

**Cenhadaeth 2. Erbyn 2030, bydd buddsoddiad cyhoeddus domestig mewn Ymchwil a Datblygu y tu allan i'r De-ddwyrain Fwyaf yn cynyddu o leiaf 40% ac o leiaf draean dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant, gyda'r cyllid ychwanegol hwnnw gan y llywodraeth yn ceisio trosoli o leiaf ddwywaith cymaint o fuddsoddiad gan y sector preifat yn y tymor hir i ysgogi arloesedd a thwf cynhyrchiant.**

Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n effeithiol gyda'r byd academaidd a diwydiant i greu'r amgylchedd cywir i sicrhau bod y rhanbarth yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle o fuddsoddiad cyhoeddus Ymchwil, Datblygu ac Arloesi er mwyn cefnogi'r clystyru ymchwil, datblygu ac arloesi cynyddol ar draws y rhanbarth.

**<u>Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (FRIW)</u>**

Mae'r cynigion ar gyfer y flaenoriaeth hon yn eistedd yn gyfforddus o fewn Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru a ddisgrifir fel a ganlyn:

**Blaenoriaeth 1: Busnesau Mwy Cynhyrchiol a Chystadleuol**

"Rydym yn awyddus i sbarduno adferiad a ffyniant drwy gefnogi entrepreneuriaid, busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli'n barod i greu a chadw swyddi cynaliadwy sy'n adlewyrchu egwyddorion Gwaith Teg Cymru. Byddwn yn helpu busnesau i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu ac yn cryfhau cynhyrchiant a chystadleurwydd busnesau a mentrau cymdeithasol o bob maint, yn enwedig busnesau o faint micro i ganolig. Mae hyn yn cynnwys cefnogi busnesau gyda'u hymdrechion i greu neu wella eu cyfran o'r farchnad allforio"

**Blaenoriaeth 2: Lleihau'r Ffactorau sy'n Arwain at Anghydraddoldeb Economaidd**

"Rydym am i gynifer o bobl â phosibl allu cymryd rhan mewn gwaith cynaliadwy o ansawdd da, a chael cyflog teg am y gwaith hwnnw, gan sicrhau bod hyn yn cael ei rannu'n deg ar draws ardaloedd daearyddol a gwahanol ddemograffeg, yn enwedig ymysg grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod anghydraddoldeb yn cael effaith niweidiol ar dwf economaidd a chanlyniadau cymdeithasol. Yn y tymor byr, bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio ar gefnogi'r rhai y mae effaith economaidd y pandemig Covid wedi'u taro waethaf, yn enwedig pobl ifanc, y rhai mewn cyflogaeth incwm isel ac ansicr, merched, grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), a phobl anabl"

**Blaenoriaeth 3: Cefnogi'r Newid i Economi Ddi-Garbon**

"Yr argyfwng hinsawdd yw her fyd-eang ein hoes ni. Mae'r risgiau'n real i bob dinesydd a busnes, ond maen nhw waethaf i'r rhai sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd pontio i economi ddi-garbon yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd glân ac effeithlon o ran ynni, swyddi o ansawdd a buddion yn y farchnad fyd-eang, yn ogystal â buddion i'n heconomi, ein hiechyd, ein cyfalaf naturiol, a'n gwasanaethau ecosystemau"

**Blaenoriaeth 4: Cymunedau Iachach, Tecach, a Mwy Cynaliadwy**

"Mae gweithluoedd sy'n hapus ac yn iach, a chymunedau cryf a chydnerth sydd â chysylltiadau da, yn asedau economaidd sydd o fudd i bawb. Mae'r cyswllt rhwng llesiant a'r economi yn gliriach nag erioed. Rydym am helpu i sicrhau bod gan

gymunedau lle a chymunedau pobl y cydnerthedd a’r strwythurau sydd eu hangen arnynt er mwyn i’r bobl sy’n byw yma allu byw bywyd hir a hapus, a gwireddu eu potensial i wneud cyfraniad cynhyrchiol i’n heconomi a’n cymdeithas”

## 3.4 Y DEILLIANNAU A GYFLENWIR GAN Y CYNLLUN BUDDSODDI O DAN Y FLAENORIAETH BUDDSODDI CEFNOGI BUSNESAU LLEOL

Swyddi wedi'u creu
Swyddi wedi'u diogelu
Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr
Cynnydd mewn ymwelwyr
Cyfraddau is o swyddi gwag
Gostyngiadau nwyon tŷ gwydr
Nifer y busnesau newydd a grëwyd
Gwell canfyddiad o farchnadoedd
Mwy o gynaliadwyedd busnes
Cynnydd yn nifer y busnesau a gefnogir
Mwy o fuddsoddiad
Gwell canfyddiad o atyniadau
Nifer y busnesau sy'n cyflwyno cynhyrchion newydd i'r cwmni
Nifer y sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth newydd
Nifer yr adeiladau sydd â chysylltedd digidol gwell
Nifer y busnesau sy'n mabwysiadu technolegau neu brosesau newydd i'r cwmni
Nifer y cynhyrchion newydd i'r farchnad
Nifer y busnesau ymchwil a datblygu gweithredol
Cynnydd yn nifer y BBaChau sy'n weithredol ym maes arloesi
Nifer y busnesau sy'n mabwysiadu cynhyrchion neu wasanaethau newydd neu well
Cynnydd yn nifer y cynlluniau arloesi a ddatblygwyd
Nifer y cwmnïau cam cynnar sy'n cynyddu eu refeniw yn dilyn cymorth
Nifer y busnesau sy'n cymryd rhan mewn marchnadoedd newydd
Nifer y busnesau sy'n cymryd rhan mewn marchnadoedd newydd
Nifer y busnesau sy'n cynyddu eu gallu allforio
Mwy o seilwaith ynni carbon isel neu ddi-garbon wedi'i osod
Nifer y busnesau sydd â chynhyrchiant gwell
Cynnydd yn nifer y prosiectau yn deillio o astudiaethau dichonoldeb a ariennir
Cynnydd yn nifer yr eiddo sy'n cael eu hamddiffyn yn well rhag llifogydd ac erydu arfordirol
Dim un o'r uchod

## 3.5 YMYRIADAU A DDEFNYDDIR GAN Y RHANBARTH SY’N CWRDD Â’R FLAENORIAETH BUDDSODDI CEFNOGI BUSNESAU LLEOL

W16: Buddsoddi mewn marchnadoedd agored a gwelliannau i seilwaith y sector manwerthu a gwasanaethau yng nghanol trefi, gyda chymorth cofleidiol i fusnesau bach.

W17: Cyllid ar gyfer datblygu a hyrwyddo (masnach a defnyddwyr) yr economi ymwelwyr, megis atyniadau lleol, llwybrau, teithiau a chynhyrchion twristiaeth yn fwy cyffredinol

W18: Cefnogi Mabwysiadu Gwneud yn Gallach: Darparu cyngor arbenigol wedi'i deilwra, grantiau cyfatebol a hyfforddiant arweinyddiaeth i alluogi busnesau bach a chanolig ym maes gweithgynhyrchu i fabwysiadu datrysiadau technoleg ddigidol ddiwydiannol gan gynnwys deallusrwydd artiffisial; roboteg a systemau ymreolaethol; gweithgynhyrchu ychwanegion; y rhyngrwyd diwydiannol o bethau; realiti rhithwir; dadansoddeg data. Profwyd bod y cymorth hwn yn ysgogi lefelau uchel o fuddsoddiad preifat mewn technolegau, sy'n ysgogi twf, cynhyrchiant, effeithlonrwydd a gwytnwch mewn gweithgynhyrchu.

W19: Cynyddu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu ar lefel leol. Buddsoddiad i gefnogi lledaeniad gwybodaeth a gweithgareddau arloesi, mewn meysydd sy'n bwysig yn economaidd a meysydd sy'n dod i'r amlwg. Cefnogi masnacheiddio syniadau, annog cydweithio a chyflymu’r llwybr i’r farchnad fel bod mwy o syniadau’n troi’n arferion diwydiannol a masnachol. Buddsoddiad mewn canolfannau hyfforddi doethurol.

W20: Grantiau ymchwil a datblygu sy'n cefnogi datblygiad cynhyrchion a gwasanaethau arloesol. Grantiau i gynyddu capasiti ymchwil a lefel y cydweithio rhwng cwmnïau i rannu arfer gorau

W21: Cyllid ar gyfer datblygu a chefnogi seilwaith arloesi priodol ar lefel leol.

W22: Buddsoddi mewn seilwaith menter a phrosiectau datblygu safleoedd cyflogaeth/arloesedd. Gall hyn helpu i ddatgloi prosiectau datblygu safleoedd a fydd yn cefnogi twf mewn lleoedd.

W23: Cryfhau ecosystemau entrepreneuraidd lleol, a chefnogi busnesau ar bob cam o’u datblygiad i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi, gan gynnwys drwy rwydweithiau lleol.

W24: Cyllid ar gyfer canolfannau hyfforddi newydd a gwelliannau i’r canolfannau hyfforddi presennol, cynigion cymorth busnes, ‘deoryddion’ a ‘chyflymwyr’ ar gyfer menter leol (gan gynnwys menter gymdeithasol) a all gefnogi entrepreneuriaid a busnesau newydd yn ystod camau cynnar eu datblygiad a thwf drwy gynnig cyfuniad o gwasanaethau, gan gynnwys rheoli cyfrifon, cyngor, adnoddau, hyfforddiant, hyfforddi, mentora a mynediad i weithle.

W25: Grantiau i helpu i leoedd ymgeisio am a chynnal digwyddiadau a chynadleddau busnes rhyngwladol sy’n cefnogi sectorau twf lleol ehangach

W26: Cefnogaeth i dyfu’r economi gymdeithasol leol, gan gynnwys busnesau cymunedol, cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol.

W27: Cyllid i ddatblygu rhwydweithiau buddsoddwyr angel ledled y wlad.

W28: Grantiau Allforio i gefnogi busnesau i dyfu eu masnachu tramor, gan gefnogi cyflogaeth a buddsoddiad lleol.

W29: Cefnogi datgarboneiddio a gwella'r amgylchedd naturiol wrth dyfu'r economi leol. Mabwysiadu dull systemau cyfan o fuddsoddi mewn seilwaith i gyflawni datgarboneiddio effeithiol ar draws ynni, adeiladau a thrafnidiaeth a thu hwnt, yn unol â'n targed hinsawdd sy'n rhwymo'n gyfreithiol. Cynyddu cryfderau lleol presennol neu ddatblygol mewn technolegau, nwyddau a gwasanaethau carbon isel i fanteisio ar y cyfle byd-eang cynyddol.

W30: Mesurau cymorth busnes i ysgogi twf cyflogaeth, yn enwedig mewn ardaloedd o ddiweithdra uwch.

W31: Cyllid i gefnogi astudiaethau dichonoldeb perthnasol

W32: Cyllid i gefnogi datblygiad busnesau bach i fod yn gwmnïau cynhyrchiol o faint canolig

W33: Buddsoddi mewn seilwaith cydnerthedd ac atebion seiliedig ar natur sy'n amddiffyn busnesau lleol ac ardaloedd cymunedol rhag peryglon naturiol gan gynnwys llifogydd ac erydu arfordirol.

**PROSIECTAU POSIBL SY'N DOD O DAN Y FLAENORIAETH BUDDSODDI CEFNOGI BUSNESAU LLEOL**

Mae'r rhanbarth wedi ymgynghori'n eang mewn ardaloedd lleol a nodwyd ystod o raglenni allweddol sy'n dod o dan y flaenoriaeth fuddsoddi hon. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu o raglenni a ariennir eisoes o dan Gronfeydd Strwythurol yr UE a chynlluniau peilot Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU. Mae nifer o feysydd gweithgaredd sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys:

- Cefnogaeth i BBaChau twf cynhenid
- Cefnogi arloesedd trwy rannu gofod, offer, gofod cychwyn busnes
- Mesurau cydweithredol i gefnogi twf economaidd.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o brosiectau a rhaglenni a ragwelir:

**Cronfa Cychwyn Busnes a Thwf Busnes** - cronfa gyfalaf/refeniw wedi'i thargedu i gefnogi datblygiad a thwf busnesau lleol ac i ysgogi cyflogaeth leol.

**Rhaglen adfywio economaidd gwledig** – rhaglen wledig wedi'i thargedu sy'n adeiladu ar fomentwm y Rhaglen Datblygu Gwledig flaenorol ac yn cynnig cymorth i fusnesau gwledig.

**Cronfa twristiaeth, diwylliant a threftadaeth** – cymorth i gynyddu effaith economaidd leol y sector ymwelwyr drwy wella profiad ymwelwyr o fewn trefi a'r prif "fannau poblogaidd" i dwristiaid ar draws y rhanbarth

**Cronfeydd Datblygu Eiddo** - pecyn cymorth i gefnogi datblygwyr a pherchen-feddianwyr i fuddsoddi mewn adeiladu, ehangu ac adnewyddu eiddo i ddiwallu anghenion seilwaith busnesau lleol ac i fynd i'r afael â'r bwlch hyfywedd presennol sy'n bodoli ar draws y rhanbarth.

**Gwasanaethau cymorth busnes** sy'n asio ac yn ategu darpariaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau integreiddio llwyddiannus ag ymyriadau perthnasol eraill o dan Cymunedau a Lleoedd i gynyddu i'r eithaf gyfraddau goroesi busnes a bywiogrwydd economaidd.

# 4.0 BLAENORIAETH BUDDSODDI MEWN POBL A SGILIAU A RHAGLEN MULTIPLY

## 4.1 HERIAU LLEOL

Mae Rhanbarth y De-orllewin yn gweithio trwy ei Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i gydlynu a deall anghenion sgiliau gweithio'n agos gyda busnesau a darparwyr i ddeall y dirwedd esblygol o angen a galw.

**Heriau cyffredin ar draws y rhanbarth o dan y flaenoriaeth Pobl a Sgiliau yw:**

**Cyfraddau Anweithgarwch Economaidd Uchel**
Yn Ne-orllewin Cymru roedd 20.9% o'r boblogaeth oedran gweithio (ac eithrio myfyrwyr) yn economaidd anweithgar ym mis Rhagfyr 2021, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (19.9%) a'r DU (17.6%). Sir Gaerfyrddin sydd â'r gyfradd anweithgarwch economaidd uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, sef 23.8%. Mae'r gyfradd yng Nghastell-nedd Port Talbot (21.1%) yn uwch na chyfartaledd Cymru, tra bod Abertawe (19.5%) a Sir Benfro (19.3%) yn is na chyfartaledd Cymru, ond yn uwch na chyfradd y DU. Caiff myfyrwyr eu heithrio o'r ffigurau hyn gan fod gan y rhanbarth lefel uwch na'r cyfartaledd o fyfyrwyr.

Mae'n debygol bod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y gyfradd uwch hon ar draws y rhanbarth, gan gynnwys:

- Mae'r rhanbarth yn gartref i lefel uwch na'r cyfartaledd o bobl ag anableddau a chyflyrau iechyd cyfyngus hirdymor sy'n eu gwthio ymhellach o'r farchnad lafur.
- Mae'r rhanbarth yn gartref i lefel uwch na'r cyfartaledd o bobl sydd wedi ymddeol.

Mae hyn yn rhwystr sylweddol i dwf y rhanbarth, gan fod yr economaidd anweithgar yn cynrychioli ffynhonnell sylweddol o gyflenwad llafur sy'n elfen hanfodol o farchnad lafur weithredol-effeithiol. Mae hyn hefyd yn peri pryder o ystyried y gall bod yn segur am gyfnod hir gael effaith negyddol ar lesiant, iechyd a boddhad bywyd person. Mae hwn felly yn fater sylfaenol i fynd i'r afael ag ef yn yr uchelgais i wella cyfleoedd bywyd unigolion a thyfu'r economi leol.

Yr her allweddol yw ymgysylltu â'r rhai sy'n economaidd anweithgar, sy'n gofyn am ymyriadau yn y gymuned i gefnogi goresgyn rhwystrau, magu hyder a chynyddu cymhelliant i ddechrau edrych ar sgiliau a chyflogaeth.

Yn dilyn y pandemig, mae nifer gynyddol o'r economaidd anweithgar â hyder isel, wedi'u hynysu, wedi ymddieithrio o'u cymunedau, ac felly'n cael anawsterau o ran cael y cymorth y maent ei angen. Mae angen codi dyheadau ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd a chreu llwybrau i gael mynediad at y sgiliau a'r cymorth angenrheidiol i symud ymlaen i gyflogaeth.

**Diweithdra**
Mae cyfraddau diweithdra nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn amrywio ar draws y rhanbarth o 3% yn Sir Gaerfyrddin ym mis Mai 2022, 3.1% yn Sir Benfro, 3.2% yng Nghastell-nedd Port Talbot a 3.6% yn Abertawe - sy'n uwch na lefel Cymru

(3.4%) ond yn is na'r DU (3.8%) %). Yn Abertawe, cododd diweithdra'n gyflym ar ddechrau'r pandemig, ac er bod y gyfradd ddiweithdra wedi gostwng yn raddol dros y 2 flynedd ddiwethaf, nid yw eto wedi cyrraedd y lefelau a welwyd cyn y pandemig ym mis Mawrth 2020 (3.4%). Yn gyffredin â siroedd eraill, mae gwahaniaeth sylweddol mewn diweithdra ar draws gwahanol ardaloedd lleol yn Abertawe gydag ardaloedd difreintiedig yn profi cyfraddau diweithdra uwch na'r cyfartaledd - Townhill (8.1%), Penderi (6.9%), Castell (6.6%) mewn cyferbyniad ag ardaloedd eraill sy'n is na'r cyfartaledd; Mayals (1.1%), Llangyfelach (1.3%). Mae her i sicrhau nad yw pobl o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ar draws y rhanbarth yn cael eu hallgáu, ac mae darpariaeth ar waith i sicrhau bod anghydraddoldebau o ran cael mynediad at gyfleoedd yn cael eu lleihau o fewn cymunedau.

**Rhwystrau i Sgiliau a Chyflogaeth**

Mae pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar yn y rhanbarth yn wynebu ystod o rwystrau cymhleth, sy'n eu hatal rhag cael mynediad at sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth. Yr her o dan y flaenoriaeth hon yw ymgysylltu, cefnogi ac ysgogi'r economaidd anweithgar a'r di-waith i oresgyn y rhwystrau hyn i'w symud ymlaen i'r farchnad lafur.

Mae effeithiau'r pandemig wedi cynyddu unigrwydd ac arwahanrwydd, wedi lleihau hyder, cymhelliant, hunan-gred a dyheadau ac wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl pobl a'u gallu i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth. Yr her allweddol yw adsefydlu'r unigolion hyn i ddod yn fwy hyderus i adael y tŷ a chynyddu eu lefelau cymhelliant i chwilio am waith. Mae'r her hon hyd yn oed yn fwy difrifol oherwydd oedi wrth gael mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol gan gynnwys cwnsela a chymorth therapi. Mae angen cefnogaeth gyson un-i-un e.e. gweithiwr allweddol.

Mae rhai o'r rhwystrau allweddol y mae pobl yn eu hwynebu yn cynnwys:

- Diffyg Hyder a chymhelliant, llesiant a dyhead.
- Arwahanrwydd cymdeithasol, allgáu digidol.
- Materion iechyd meddwl a chorfforol
- Sgiliau isel neu ddim sgiliau, diffyg sgiliau neu gymwysterau penodol, diffyg profiad yn y gweithle.
- Costau cynyddol tlodi byw, rhwystrau trafnidiaeth
- Argaeledd gofal plant hyblyg a fforddiadwy o safon
- Mae lleoliadau daearyddol yn gwneud dysgu'n anhygyrch i rai sy'n byw yn ein cymoedd a'n hardaloedd gwledig gan fod trafnidiaeth yn rhwystr mawr, yn enwedig pan fo'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ddysgu yng nghanol trefi.

O ran sgiliau, yr her allweddol i bobl leol o ran cael mynediad at gyfleoedd yw diffyg cymwysterau perthnasol, gwybodaeth am y sgiliau sydd eu hangen a sgiliau bywyd a chyflogadwyedd. Her bellach yw cefnogi pobl i adnabod eu sgiliau a'u galluoedd personol a'u helpu, trwy gynllun sgiliau personol i nodi a dod o hyd i'r sgiliau cywir sydd eu hangen yn unol â galw'r farchnad lafur leol. Byddai hyn yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i bobl gael mynediad at fwy o gyfleoedd i fanteisio ar dwf economaidd lleol a chyfleoedd datblygu economaidd, megis y Fargen Ddinesig, gan sicrhau yn ei dro bod cymunedau lleol yn fwy llewyrchus a chynhyrchiol.

Mae cyfleoedd i ddarparu cymorth dwys, cofleidiol, un-i-un dan arweiniad gweithiwr allweddol i symud yr unigolion hyn yn nes at y farchnad lafur a fyddai'n darparu mecanweithiau wedi'u teilwra i wneud y symudiad o anweithgarwch i gyflogaeth mor syml â phosibl. Dylai hyn fod ar ffurf system gydlynol lle darperir arweiniad gyrfaoedd ar y cyd â nodi anghenion sgiliau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag uchelgeisiau'r person hwnnw ac anghenion yr economi leol. Mae hyn yn ymestyn i amlygu a hyrwyddo pwysigrwydd gwaith yn ogystal ag archwilio datblygiad yng nghyd-destun sgiliau sylfaenol, sgiliau parod ar gyfer gwaith a hyfforddiant galwedigaethol, i leihau'r siawns o roi'r gorau i'r hyfforddiant, neu ddigalonni.

**Grwpiau agored i niwed**

Mae bwlch yn y ddarpariaeth bresennol sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd a sgiliau i grwpiau allweddol o unigolion agored i niwed gyda rhwystrau a heriau cymhleth pellach rhag ymuno â'r farchnad lafur. Mae angen buddsoddiad i ddarparu cymorth gweithwyr allweddol dwys ac ymyriadau â ffocws i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb o ran cael mynediad at gyfleoedd i'r unigolion difreintiedig hyn. Mae grwpiau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Plant sy'n Derbyn Gofal 16+ oed a'r rhai sy'n Gadael Gofal
- Pobl ifanc ôl-16 sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
- Pobl ifanc cyn 16 oed ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET
- Pobl ifanc 16-24 oed sy'n agored i niwed sydd wedi ymddieithrio o'r farchnad lafur.
- Pobl sy'n cael eu heffeithio gan gyflyrau iechyd ac anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio
- Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- BAME
- Menywod
- Gadawyr carchar a chyn-droseddwyr
- Pobl â chyfrifoldebau gofal
- Unigolion o aelwydydd di-waith
- Unigolion sy'n gysylltiedig â'r tîm Iechyd Cymunedol ac a atgyfeiriwyd ganddo
- Pobl dros 50 oed yn ddi-waith oherwydd y pandemig.

**Lefelau Cymwysterau Islaw Cyfartaledd y DU**

Dros amser, bu gwelliant cyson mewn lefelau cymwysterau yn y rhanbarth: yn 2021, roedd gan 36% o'r boblogaeth oedran gweithio gymwysterau NVQ4+, o gymharu â 22% yn 2004, a hanerodd y gyfran heb unrhyw gymwysterau dros yr un cyfnod (yn rhannol wrth i newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur ddisodli'n raddol y rhai sy'n gadael). Ond mewn termau cymharol, mae bwlch o hyd gyda gweddill y DU, ac amrywiaeth sylweddol ar draws y rhanbarth.

Mae cyflymder y trosglwyddo i ennill sgiliau lefel uwch wedi bod yn arafach yng Nghastell-nedd Port Talbot, er enghraifft, na gweddill Cymru a'r DU a dim ond 29.3% o weithlu Castell-nedd Port Talbot sydd wedi cymhwyso i NVQ4+, o gymharu â 38.7% yng Nghyymru a 43.5% yn y DU. Mae gan Abertawe gyfran uwch o drigolion

oedran gweithio â chymwysterau hyd at NVQ lefel 3 ac uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU, fodd bynnag, nid oes gan 7.7% unrhyw gymwysterau ac mae 8.4% ar NVQ lefel 1, felly, ystyrir bod 16.1% yn isel neu ddim yn meddu ar sgiliau (APS 2021). Mae gan Sir Gaerfyrddin nifer uwch na'r cyfartaledd o bobl heb unrhyw gymwysterau a chyfran is na'r cyfartaledd o bobl â chymwysterau lefel uwch.

Mae diffyg cymwysterau neu sgiliau yn rhwystr i gyflogaeth i lawer. Mae hyn yn berthnasol i'r rhai nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau o gwbl a'r rhai sy'n dymuno ailsgilio neu uwchsgilio er mwyn gwella eu hunain a cheisio cyflogaeth lefel uwch neu swydd amgen. Mae lefelau sgiliau'n debygol o effeithio ar allu trigolion i gael mynediad at gyflogaeth leol sy'n talu'n well. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, er enghraifft, lle mae lefelau sgiliau cyfartalog yn is, mae cyflog blynyddol canolrifol mewn gweithleoedd tua £29,000 – sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Ond mae'r cyflog cyfartalog a gaiff trigolion Castell-nedd Port Talbot yn sylweddol is, sef tua £27,000.

Mae cyfle i gefnogi'r rhai heb unrhyw gymwysterau i ennill cymwysterau sgiliau sylfaenol a'r rhai hyd at lefel 2, a allai fod yn borth i gyflogaeth ond hefyd cymwysterau lefel uwch. Mae'r sgiliau sylfaenol hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i); Saesneg, Mathemateg ac ESOL. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r bylchau yn narpariaeth bresennol yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru ac yn caniatáu datblygu ymyriadau ar lefel leol sy'n diwallu anghenion lleol.

At hynny, mae angen penodol i ddatblygu sgiliau digidol a chynyddu lefelau cynhwysiant digidol. Mae byd gwaith yn newid ac mae dibyniaeth ar dechnolegau digidol yn y gweithle yn cynyddu'n gyflym. Bydd darparu sgiliau digidol perthnasol a throsglwyddadwy i unigolion felly nid yn unig yn gwella eu cyflogadwyedd ond hefyd yn eu gwneud yn fwy hyderus o ran cyrchu gwasanaethau ehangach ar-lein.

**Anghenion Sgiliau Lleol – Cyflenwad a Galw**

Er mwyn creu marchnad lafur ranbarthol sy'n tyfu ac yn wydn, mae'n hollbwysig arfogi unigolion â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr lleol. Mae hyn yn ymwneud â'r sgiliau sydd eu hangen nawr a'r rhai y bydd eu hangen yn y dyfodol. Bydd dull blaengar yn sicrhau bod pobl leol yn gallu elwa ar gyfleoedd sy'n codi yn y dyfodol. Mae hwn hefyd yn gam hanfodol i leihau'r hyn a elwir yn 'draen dawn' lle mae unigolion cymwys iawn yn gadael yr ardal i gymryd cyflogaeth â chyflog uwch yn rhywle arall. Bydd datblygu sylfaen sgiliau cryfach hefyd yn cynyddu'r siawns o ddenu busnesau newydd i'r rhanbarth a thyfu'r rhai presennol i wella ffyniant.

Gwnaed llawer o waith i fapio anghenion sgiliau rhanbarthol gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, gyda chyflogwyr o sectorau strategol allweddol yn y rhanbarth yn adrodd am nifer o sgiliau y mae galw amdanynt a sgiliau dymunol, fel yr amlinellir isod:

Gweithgynhyrchu a Pheirianneg – Sgiliau datrys problemau, sgiliau arwain a rheoli, sgiliau llythrennedd cyfrifiadurol, sgiliau mewn technoleg newydd.

Adeiladu – Sgiliau parodrwydd ar gyfer gwaith, sgiliau cyfathrebu, sgiliau datrys problemau a deheurwydd llaw.
Bwyd-amaeth - Sgiliau deall, sgiliau cyfathrebu, sgiliau arwain a rheoli a sgiliau gweithgynhyrchu bwyd.

Ariannol, Proffesiynol a Digidol – Sgiliau TG uwch/arbenigol, sgiliau codio/datblygu gwe, sgiliau mewn technoleg newydd a sgiliau TG sylfaenol.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Sgiliau gofal iechyd, sgiliau cyfathrebu, sgiliau TG sylfaenol a sgiliau technoleg newydd.

Gwasanaethau Cyhoeddus – Sgiliau TG uwch a sylfaenol, datrys problemau, sgiliau Cymraeg llafar, sgiliau cyfathrebu, sgiliau arwain a rheoli a sgiliau gyrru HGV/LGV.

Twristiaeth, Hamdden a Manwerthu – Sgiliau marchnata, sgiliau cogydd/cegin, sgiliau TG uwch a sylfaenol a sgiliau codio/datblygu gwe.

Diwydiannau Creadigol – Sgiliau TG uwch a sylfaenol, sgiliau mewn technoleg newydd, sgiliau entrepreneuraidd, codio/datblygu gwe, sgiliau datblygu cynnwys creadigol a sgiliau marchnata.

O ystyried yr anghenion sgiliau hyn, mae’n amlwg bod cyfleoedd i ganolbwyntio ar gyflwyno sgiliau mewn rhai meysydd allweddol, gyda’r dystiolaeth hon yn cadarnhau ymhellach yr angen i ddatblygu sgiliau parodrwydd digidol a chyffredinol unigolion ar gyfer gwaith. Gellid mynd i'r afael â'r rhain trwy gyflwyno sgiliau sylfaenol hyd at lefel 2 gyda sgiliau mwy arbenigol yn cael eu cyflwyno trwy ddulliau eraill megis dysgu seiliedig ar waith neu drwy gyflwyno galwedigaethol.

Un her allweddol yw darparu cymwysterau ar gyfer cyflogwyr / gweithwyr sy'n ymateb i heriau, cyfleoedd ac anghenion sgiliau lleol presennol ac sy'n dod i'r amlwg ac a fydd yn ategu buddsoddiad ehangach sy'n seiliedig ar le ar draws y rhanbarth. Wrth wneud hynny, bydd yn targedu gweithgareddau sy’n manteisio ar gyfleoedd ac anghenion yr ardal leol ac yn diwallu anghenion economi gynyddol werdd a digidol, tra hefyd yn darparu cynnig cyffredinol i fusnesau sy’n profi heriau gweithlu a / neu sy’n dangos potensial twf o bob maint ac ar draws pob sector.

Gan weithio ar y cyd â darparwyr lleol, byddai cymorth yn fodd i gyllido bylchau yn y ddarpariaeth sgiliau lleol ac archwilio dulliau darparu amgen. Gallai hyn fod ar ffurf cyflwyniad cryno, seiliedig ar fodiwlau, o natur achrededig a heb ei hachredu. Mae hyn yn creu system sgiliau sy'n arloesol ac yn hyblyg o ran ei dull o weithredu ac sy'n cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr ac argymhellion a wnaed gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol. Yn unol â hyn, mae cyfle i wella cysylltiadau rhwng ysgolion, colegau addysg bellach ac addysg uwch i gynnig model ‘esgynnydd sgiliau’ o ddatblygu sgiliau sy’n cyd-fynd ag anghenion diwydiant.

O ganlyniad i boblogaeth hŷn y rhanbarth, mae cyfle hefyd i ddarparu cymorth wedi’i deilwra i’r rhai mewn cyflogaeth i gael mynediad at ddarpariaeth sgiliau. Byddai hyn yn lleihau'r nifer o unigolion medrus sy'n cael eu colli o'r farchnad lafur ac yn cefnogi cadw mewn rhai sectorau lle mae gweithlu sy'n heneiddio yn bryder. Mae'r materion

hyn yn fwy difrifol yn y sectorau Adeiladu a Gweithgynhyrchu a Pheirianneg (ond nid yn gyfyngedig iddynt).

**Gwella sgiliau'r gweithlu presennol**

Mae busnesau lleol yn y rhanbarth eisiau gwella sgiliau a galluoedd eu staff, ond ni allant fforddio'r amser a'r gost, gan ei gwneud yn rhwystr i'r busnes ddatblygu eu gweithlu. Byddai rhaglenni sgiliau mewn gwaith cymorthdaledig yn gam enfawr i chwalu'r rhwystr a sicrhau bod y gweithlu presennol yn gallu uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer eu datblygiad proffesiynol. Mae hyn hefyd yn arwain at fwy o ffyniant economaidd i'r ardal a gweithlu medrus.

**Cyngor a Chanllawiau Gyrfaoedd**

Dengys tystiolaeth bod nifer o Brif Sectorau wedi profi, ac maent yn parhau i brofi, heriau o ran denu, cadw a recriwtio staff â'r sgiliau priodol i ddiwallu eu hanghenion. Mae nifer o faterion yn arwain at greu'r heriau recriwtio hyn, gyda diffyg sgiliau a'r canfyddiad o sectorau yn brif ffactorau cyfranogol.

Mae gyrfaoedd, cyngor a chanllawiau yn chwarae rhan allweddol wrth chwalu mythau a gwella canfyddiadau sectorau. Mae'r sectorau sy'n adrodd eu bod yn cael eu heffeithio'n arbennig gan hyn yn cynnwys; Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Lletygarwch, Twristiaeth, Hamdden a Manwerthu, Adeiladu a Bwyd-Amaeth. Mae'r rhain i gyd yn sectorau o bwysigrwydd strategol i'r rhanbarth, felly mae'n hollbwysig bod pobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd a geir yn y diwydiannau hyn. Mae hwn yn gam pwysig yn y broses o greu llif o dalent wedi'i harfogi â'r sgiliau dymunol i'w bwydo i'r farchnad lafur, a fyddai o fudd i fusnesau lleol ac yn eu tro i'n heconomi leol.

I'r perwyl hwn, mae cyfle i ddarparu cyngor a chanllawiau gyrfaoedd mewn ffordd fwy cydlynol ar lefel leol, gan ystyried anghenion sgiliau cyflogwyr lleol. Bydd gweithio ar y cyd â sefydliadau sydd eisoes yn darparu gwasanaethau o'r fath yn lleihau dyblygu ac yn ategu'r hyn a gynigir eisoes. Dylai'r broses o ddarparu cyngor a chanllawiau gyrfaoedd hefyd ystyried proffiliau rhywedd llawer o sectorau a cheisio chwalu'r stereoteipiau rhywedd nodweddiadol sy'n gysylltiedig â rhai sectorau. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhywiau sy'n amlwg ar draws llawer o feysydd yr economi sy'n ymwneud â chyflogaeth, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chyfleoedd i ffynnu'n fwy cyffredinol.

Yn Sir Benfro, un her a nodwyd yw sicrhau bod pobl ifanc wedi'u harfogi i wneud dewisiadau gyrfa gwybodus, fel eu bod yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen nid yn unig yn y diwydiannau traddodiadol yn Sir Benfro, ond mewn sectorau newydd a datblygol yn enwedig yn y sector ynni adnewyddadwy morol (ond heb fod yn gyfyngedig i'r sector hwn).

**Pobl ifanc**

Mae diffyg dealltwriaeth o'r gwahanol lwybrau dysgu o gyn-16 i ôl-16 i rai o'n pobl ifanc. Nid yw opsiynau'n cael eu cyfathrebu'n effeithiol i sicrhau bod pobl ifanc yn deall yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael, o Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Phrentisiaethau. Nid yw rhai o'n pobl ifanc yn cael mynediad at ymyriadau /

cymorth priodol ac nid ydynt yn cael eu hadnabod tan yn ddiweddarach. Mae cyfathrebu gwell yn ein hysgolion yn hanfodol i sicrhau bod ein holl bobl ifanc yn archwilio'r dewisiadau gwahanol o lwybrau dysgu a datblygu.

Mae angen ymyrraeth gynnar i nodi dysgwyr sy'n agored i niwed neu'r rheini ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac i sicrhau bod darpariaeth briodol ar waith i gefnogi dysgwyr i oresgyn heriau ac atal risg o waharddiadau parhaol a lleihau'r risg y bydd pobl ifanc yn dod yn NEET ôl-16/Cyfnod Allweddol 4. Mae pobl ifanc o bob oed a chyfnod allweddol mewn addysg wedi cael eu heffeithio'n negyddol gan effaith pandemig Covid-19 ac absenoldebau cysylltiedig o'r ysgol. Mae angen rhagor o waith i ddeall maint yr effaith mewn ysgolion a'r heriau a gyflwynir er mwyn datblygu ymyriadau i wella dysgu, sgiliau sylfaenol a chyrhaeddiad yn gadarnhaol ar bob lefel cyn-16.

Ar draws y rhanbarth mae hefyd angen sicrhau bod pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) yn cael eu hailgysylltu â'r farchnad lafur, a bod pobl ifanc yn parhau i ymgysylltu â dysgu, hyfforddiant neu gyflogaeth. Rhaid hefyd annog a chefnogi pobl ifanc entrepreneuraidd i gychwyn eu busnesau eu hunain, er y gallai ymyriadau i gyflawni hyn gyd-fynd yn well â'r thema Cefnogi Busnesau Lleol.

Mae'r ystadegau cyflogaeth diweddaraf yn Abertawe yn dangos cynnydd yn nifer y bobl ifanc 16-24 oed ar fudd-daliadau nad ydynt yn gysylltiedig â gwaith ac sydd felly'n economaidd anweithgar. Mae'r pandemig wedi achosi problemau i bobl ifanc yn yr ardal, megis colli hyder a sgiliau allweddol, y mae angen mynd i'r afael â nhw. (Ymgynghoriad AGP)

**Myfyrwyr Rhyngwladol a Ffoaduriaid**

Un her benodol a nodwyd yn Abertawe yw myfyrwyr rhyngwladol preswyl a ffoaduriaid, sy'n fedrus ac yn llawn cymhelliant i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth, ond sy'n wynebu problemau wrth drosglwyddo eu cymwysterau tramor, sy'n eu rhwystro rhag cael mynediad i gyfleoedd lleol.

**Sgiliau sylfaenol**

Nid oes gan cyfran fawr o bobl yn y rhanbarth sgiliau sylfaenol. Mae angen ymyriadau a buddsoddiad i fynd i'r afael â sgiliau llythrennedd, rhifedd, ESOL a llythrennedd digidol. Mae her sylweddol i ymgysylltu â phobl nad ydynt yn barod i gyfaddef eu diffyg sgiliau. Mae angen i raglenni fod ar gael gydag ymagwedd fwy meddal i ddenu dysgwyr, a chyflenwi'r gwasanaethau presennol yn y cymunedau. Dylid gwneud hyn ar lefel leol a micro-leol, gan adeiladu ar yr hyn y maent eisoes yn ei wneud drwy gynnig cymorth ychwanegol mewn ffordd nad yw'n targedu sgiliau sylfaenol yn uniongyrchol yn y tymor byr, ac a fydd yn cynorthwyo dilyniant yn y tymor hir. Gellid cyflenwi hyn fel rhan o ddarpariaeth cymorth cymunedol a cyflogadwyedd ehangach.

**Adferiad Covid a Chostau Byw**

Mae incwm aelwydydd yn Ne-orllewin Cymru yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU, gydag Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen yn 2019 yn £16,646; sy'n 77.7% o lefel y DU. Bydd y cynnydd mewn costau byw a phrisiau ynni a bwyd cynyddol yn rhoi pwysau pellach ar incwm yr aelwyd. Mae meddu ar sgiliau byw sylfaenol yn hanfodol er mwyn gallu addasu i'r newidiadau hyn. Byddai cymorth a hyfforddiant ar sgiliau rhifedd gweithredol yn helpu unigolion i ddeall eu harian; datganiadau banc, cymharu prisiau a ffioedd contract. Cyflymodd y pandemig yr angen am sgiliau digidol i gael mynediad at wasanaethau a chyflogaeth, ond mae hefyd wedi gadael llawer o bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn ynysig trwy gydol y pandemig.

**Hyrwyddo Sgiliau Digidol**

Mae problem gyda bwlch cynyddol mewn sgiliau digidol yn Abertawe. Mae angen buddsoddiad i asesu a mynd i'r afael â'r anghenion sgiliau digidol presennol ac yn y dyfodol ac i ddatblygu darpariaeth sgiliau digidol sylfaenol ac uwch, er mwyn sicrhau bod gan bobl a busnesau'r sgiliau i fanteisio ar y technolegau a'r offer diweddaraf.

Mae diffyg sgiliau digidol a mynediad i'r rhyngrwyd yn cael effaith enfawr ar fywydau pobl. Mae dinasyddion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol angen mynediad at gysylltedd digidol, technoleg a sgiliau, sy'n hanfodol i sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal. Yn Abertawe, mae angen cynyddu cyfranogiad a gwella canlyniadau mewn pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg).

**Sgiliau Gwyrdd a Sgiliau ar gyfer Sero Net**

Mae gan y rhanbarth nifer o uchelgeisiau sy'n cyd-fynd â themâu buddsoddi cymorth cymunedau a lleoedd a busnes o ran yr agenda werdd a sero net. Ceir her i godi ymwybyddiaeth o sgiliau gwyrdd ac i fynd i'r afael â'r diffyg mewn sgiliau a gallu i ddiwallu'r anghenion lleol wrth ymdrin â'r amgylchedd newidiol sy'n gysylltiedig ag adferiad gwyrdd, ynni gwyrdd, systemau bwyd sy'n newid, systemau trafnidiaeth, mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd.

Er enghraifft, bydd yr heriau sydd ar fin digwydd yn y sector amgylchedd adeiledig yn gofyn am ymateb cyflym i ddatblygu sgiliau er mwyn sicrhau bod gweithlu medrus a chymwys ar gael sy'n gallu ymateb i'r agenda di-garbon sy'n dod i'r amlwg. Bydd angen i'r sector addysg ddarparu atebion hyfforddi arloesol i uwchsgilio'r gweithlu presennol a hefyd darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar newydd-ddyfodiaid i gefnogi anghenion esblygol y sector penodol hwn. Bydd yr atebion blaenoriaeth yn cynnwys:

- Rhaglenni uwchsgilio i fodloni disgwyliadau adeiladu gwyrdd, o'r sylfaenol i'r uwch, o ran deall atebion tŷ cyfan
- Rhaglenni hyfforddi ynghylch gosod cynhyrchion adnewyddadwy, yn ogystal ag asesiad achrededig cadarn o addasrwydd/cymhwysedd y gosodiad.
- Rhaglenni hyfforddi i gwrdd ag adeiladu oddi ar y safle, o safbwynt gweithgynhyrchu i gefnogi cwmnïau lleol.

Wrth i ddatblygiadau newydd gael eu cyflwyno, mae angen inni edrych ar ddatrysiadau datblygu sgiliau a hyfforddi effeithiol sy'n ymatebol, gyda sefydlu canolfan arbenigedd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i sectorau Adeiladu a

Pheirianneg a Gweithgynhyrchu, lle mae anghenion sgiliau yn y dyfodol yn ymwneud â sgiliau peirianneg arbenigol, sgiliau ôl-osod, sgiliau gweithgynhyrchu clyfar a sgiliau ynni adnewyddadwy.

**Yr Iaith Gymraeg**

Wrth gymryd i ystyriaeth y ddarpariaeth sgiliau yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, rhaid ystyried datblygu darpariaeth sy’n galluogi unigolion i ymgymryd â dysgu yn eu dewis iaith. Gyda 43.9% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg mae dadl glir y byddai'r galw yn bodoli. Mae hyn hefyd yn diwallu anghenion cyflogwyr lleol lle y nodwyd fod sgiliau iaith Gymraeg yn bwysig yn y sectorau Diwydiannau Creadigol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Manwerthu, Twristiaeth a Hamdden.

**Cyfleoedd Cyfoethogi a Gwirfoddoli**

Mae dadl i awgrymu y gallai darparu cyfleoedd cyfoethogi a gwirfoddoli ddod â buddion tebyg i’r rhai a ddarperir gan gyfleoedd profiad gwaith. Yn draddodiadol, ystyriwyd profiad gwaith fel rhywbeth y mae pobl ifanc yn ei wneud fel rhan o'u haddysg statudol, ond gall bob grŵp oedran a phobl o bob cefndir gael mantais o hyn. Gall sesiynau blasu mewn diwydiannau perthnasol leihau'r nifer sy'n gadael ac amlygu'r manteision ehangach i'w gwireddu drwy fod mewn gwaith yn hytrach na’r ffocws traddodiadol ar y wobr ariannol. Gellir dweud yr un peth am leoliadau gwirfoddoli yn y trydydd sector niferus yn y rhanbarth a grwpiau cymunedol llai. Byddai cymryd rhan mewn cynlluniau o’r fath yn darparu dull fesul cam o fynd i mewn i’r farchnad lafur, gan ddileu rhywfaint o’r pwysau y gallai’r rhai sydd bellaf i ffwrdd oddi wrthi ei deimlo wrth drosglwyddo’n syth i gyflogaeth â thâl. Mae cyfleoedd i archwilio ymarferoldeb dull o’r fath ar draws y rhanbarth, gan edrych ar wersi a ddysgwyd o fentrau tebyg.

**Multiply**

Nid yw llawer o bobl economaidd anweithgar yn cael profiadau cadarnhaol yn yr ysgol neu'r coleg felly mae angen ymgysylltu a dysgu mewn ffordd arloesol sy'n wahanol i amgylcheddau dysgu ffurfiol. Bydd angen ystyried ymyriadau cymunedol i gyflenwi rhifedd gweithredol er mwyn cynyddu ymgysylltiad oherwydd llai o hyder a mwy o arwahanrwydd y mae pobl economaidd anweithgar yn ei wynebu yn dilyn y pandemig.

Wrth gyflenwi’r fenter Multiply, rydym yn rhagweld y bydd yr heriau fel a ganlyn:

- Prinder tiwtoriaid rhifedd.
- Recriwtio dysgwyr, yn rhannol oherwydd y stigma sy'n gysylltiedig â diffyg sgiliau sylfaenol.
- Mae'r ffocws ar rifedd yn unig yn annhebygol o fynd i'r afael ag anghenion llawn dysgwyr, a fydd yn aml hefyd yn brin o sgiliau llythrennedd a digidol sylfaenol. Fel y cyfryw, efallai y bydd angen darparu Multiply ochr yn ochr â darpariaeth arall, neu fe all fod yn llai effeithiol nag y gallai fod.
- Ceir rhyngweithio cymhleth gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru sy'n bodoli eisoes, a bydd rhaid llywio drwy hyn.
- Bydd gwariant llawn o'r dyraniad fel y'i diffinnir nawr yn heriol iawn, felly o ganlyniad nid yw'r swm llawn yn cael ei ddyrannu ar hyn o bryd, gyda 50% o

flwyddyn 1 yn cael ei ddyrannu, 90% o Flwyddyn 2 a 95% o Flwyddyn 5. Mae yna lawer ffactorau cymhleth yn ymwneud â chyflenwi sgiliau sylfaenol sy'n ymestyn y tu hwnt i rifedd yn unig, ac yn arbennig yr angen am ddarpariaeth mewn cyd-destun sy'n osgoi stigma ac sy'n galluogi cyfranogiad haws.

## 4.2 CYFLEOEDD LLEOL

Mae pob ardal leol yn gweithio'n adeiladol trwy bartneriaethau adfywio lleol i ffurfio ymatebion i'r heriau a nodir uchod. Cyflwynir y rhain yng nghyd-destun Cynllun Cyflenwi Economaidd Rhanbarth y De-orllewin, a chynlluniau a strategaethau lleol perthnasol. Mae dewislen gyson o ymyriadau prosiect yn esblygu, ond cyflwynir cyd-destun penodol anghenion a gofynion lleol isod.

**<u>Cynllun Cyflenwi Economaidd Rhanbarthol</u>**

Yn y Cynllun Cyflenwi Economaidd Rhanbarthol, ceir tair 'Cenhadaeth' a fydd yn arwain gweithgaredd yn y dyfodol, dros y deng mlynedd nesaf a thu hwnt. Maent wedi'u cynllunio i roi cyfeiriad teithio clir, tra'n parhau'n ddigon eang i ddarparu ystod eang o fuddsoddiadau posibl a ddaw ymlaen dros amser. Mae'r tair Cenhadaeth lefel uchel fel a ganlyn:

**Cenhadaeth 1: Arweinydd yn y DU ym maes ynni adnewyddadwy a'r economi sero net**

Gan edrych at 2030, ein nod yw gwneud De-orllewin Cymru yn arweinydd yn y DU ym maes ynni adnewyddadwy a'r economi sero net. Mae hynny'n golygu manteisio ar ein hasedau naturiol a'n galluoedd diwydiannol ac ymchwil a datblygu i adeiladu presenoldeb o bwys rhyngwladol mewn technolegau tanwydd yn y dyfodol ac i ysgogi datgarboneiddio ein sylfaen ddiwydiannol a'r economi eang.

<u>Meysydd gweithredu allweddol:</u>

- Capasiti Ychwanegol i yrru'r agenda yn ei blaen
- Datblygu prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mawr y rhanbarth
- Denu a gyrru ymlaen fuddsoddiad diwydiannol
- Datgarboneiddio trafnidiaeth a'r stoc tai
- 

**Cenhadaeth 2: Adeiladu sylfaen fusnes gref, gydnerth sydd wedi'i gwreiddio.**

"Mae busnes yn greiddiol i'n strategaeth hyd at 2030: trwy ehangu cwmnïau presennol a dechrau a denu rhai newydd y bydd cyflogaeth newydd yn cael ei chynhyrchu a sicrhau twf cynhyrchiant. Mae hynny'n golygu cefnogi twf busnes cynaliadwy - sy'n flaengar ym maes technoleg ac arloesi ac ar draws yr economi".

<u>Meysydd gweithredu allweddol:</u>

- Cymorth mabwysiadu ac arloesi cyflymach (yn gysylltiedig ag argymhellion Cymru 4.0 mewn perthynas â chymorth busnes, sgiliau ac arloesi)
- 'Caffael blaengar' o fewn system datblygu cadwyn gyflenwi a busnes lleol

**Cenhadaeth 3: Tyfu a chynnal cynnig 'profiad' De-orllewin Cymru**

"Mae gan Dde-orllewin Cymru amgylchedd gwych a chynnig 'ansawdd bywyd' unigryw. Mae hwn yn ased allweddol i'r rhanbarth, ac yn un y mae'n rhaid i ni ei

amddiffyn a'i wella. Byddwn yn gwneud De-orllewin Cymru yn adnabyddus am ansawdd ac ehangder ei 'gynnig profiad', gan ddod ag ansawdd amgylcheddol trefol a gwledig ynghyd, 'ansawdd bywyd' a diwylliant. Bydd hyn yn cefnogi economi ymwelwyr gwerth uchel - ond bydd hefyd mewn perchnogaeth leol ac yn rhan ganolog o'n cynnig buddsoddi."

Meysydd gweithredu allweddol:

- Buddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu a'i gydlynu, gan gynnwys yng nghanol trefi a dinasoedd
- Cydbwyso mentrau ar raddfa ranbarthol, leol a chymunedol

Yng nghyd-destun Cynllun Cyflenwi Economaidd Rhanbarthol y De-orllewin a Chynlluniau Adfer Economaidd Lleol, nodwyd y cyfleoedd canlynol drwy drafodaethau partneriaeth lleol i ymateb i heriau lleol:

**Mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd**

- Gweithgaredd cymunedol i ymgysylltu â'r economaidd anweithgar
- Darpariaeth cyflogadwyedd a sgiliau lle mae bylchau yn y ddarpariaeth leol ar hyn o bryd - cyfle i greu llwybr i gyflogaeth i gynnwys gweithgaredd cyn-ymgysylltu, cyflogadwyedd, sgiliau a hyfforddiant, gwirfoddoli a lleoliadau taledig wedi'u teilwra i anghenion unigolion a'r farchnad lafur leol.
- Darparu cymorth cyn-ymgysylltu 1-2-1 sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn dan arweiniad mentor/gweithiwr allweddol a chymorth cyflogadwyedd cofleidiol dwys arweiniad mentor/gweithiwr allweddol i symud yn nes neu i mewn i'r farchnad lafur.
- Cefnogaeth sgiliau bywyd ar gyfer iechyd a llesiant, magu hyder a chymhelliant, gwaith tîm, sgiliau chwilio am swydd, sgiliau cyfathrebu a chyflwyno.
- Bydd gweithgareddau'r prosiect yn ategu, yn alinio ac yn ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol gan sicrhau bod ychwanegedd a dim dyblygu.

**Gwneud y mwyaf o botensial pobl ddi-waith a chymorth mewn gwaith**

- Datblygu darpariaeth cymorth mewn gwaith sy'n gysylltiedig â sgiliau a chymorth cyflogaeth i uwchsgilio a chadw staff trwy ddarparu mynediad at addysg a hyfforddiant.
- Gwella lefelau sgiliau trwy ddarpariaeth sgiliau bywyd a gyrfaoedd ar gyfer y di-waith nad ydynt yn gallu cael mynediad at gymorth a chyllid i oresgyn rhwystrau sgiliau a hyfforddiant.

**Lleihau rhwystrau i sgiliau a chyflogaeth**

- Dull cydgysylltiedig o ddarparu cymorth mwy cyfannol, gyda phartneriaid cyflenwi yn dod ag arbenigeddau ynghyd i gefnogi grwpiau allweddol sydd ag anghenion gwahanol i oresgyn rhwystrau cymhleth
- ceisio datblygu model/rhwydwaith dysgu a datblygu i wella'r ddarpariaeth i'n cymunedau, gan ei gwneud yn hygyrch i bawb.

- Cefnogaeth gofleidiol Cyn-Ymgysylltu a Chyflogadwyedd gan weithwyr allweddol ymroddedig ar hyd y llwybr cyfan, gydag asesiad cychwynnol o anghenion a sgiliau i nodi rhwystrau a datblygu cynllun gweithredu personol, pwrpasol.
- Cymorth mentora 1-2-1 dwys wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn i oresgyn rhwystrau ac adnabod llwybrau addas.
- Llwybr ail-ymgysylltu sgiliau i bobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn.
- Cyfleoedd ymyrraeth ar gyfer sgiliau a hyfforddiant, gwirfoddoli, sesiynau blasu gwaith, lleoliadau gwaith cyflogedig, cyflogaeth ac ymgysylltu â darpariaeth prif ffrwd.
- Cefnogaeth sgiliau bywyd ar gyfer magu hyder a chymhelliant, gwaith tîm, sgiliau chwilio am swydd, sgiliau cyfathrebu a chyflwyno.
- Cyngor ar fudd-daliadau a chyllidebu.

**Sgiliau cefnogol**

- Mapio sgiliau a rhagweld gofynion a phrinder yn y dyfodol yn y farchnad lafur.
- Cyfle i alinio darpariaeth sgiliau a chyflogadwyedd i gefnogi anghenion sgiliau lleol a rhanbarthol.
- Cyfle i weithio mewn partneriaeth i wneud y gorau o'r ddarpariaeth hyfforddiant ac i ddarparu cymorth sgiliau o fewn cymunedau - Hyfforddiant Sgiliau Sylfaenol, ESOL, cyflogadwyedd a sgiliau bywyd (ar gyfer magu hyder a chymhelliant, gwaith tîm, sgiliau chwilio am swydd, sgiliau cyfathrebu a chyflwyno), hyfforddiant technegol a galwedigaethol, cymwysterau, hyfforddiant cysylltiedig â gwaith, trwyddedau, sgiliau digidol, sgiliau gwyrdd a sgiliau gweithle.
- Darpariaeth sgiliau gwyrdd i sicrhau bod gweithlu medrus yn y rhanbarth i gyflawni nodau sero net llywodraeth y DU.
- Rhaglen datblygu sgiliau ymgysylltu a meddalach i bobl ifanc.

**Adferiad o bandemig Covid ac effaith costau byw cynyddol**

- Ymyriadau iechyd a llesiant
- Cyngor ar fudd-daliadau a chyllidebu gan gynnwys sgiliau rhifedd.
- Cyfle i ddarparu cyllid pan fo cyllido'n rhwystr i bobl gael mynediad at sgiliau, addysg a chyflogaeth (Hyfforddiant cysylltiedig â gwaith, trwyddedau, cymwysterau, teithio, gofal plant, dillad ac offer)

**Heriau i gyflogwyr**

- Ymgysylltu â chyflogwyr i ddeall anghenion a heriau
- Gwasanaeth paru swyddi a sgiliau trwy ddarpariaeth cyflogadwyedd
- Darparu cyfleoedd i gyflogwyr a phobl gyda chyfleoedd gwaith cyflogedig, treialon gwaith, diwrnodau blasu a gwirfoddoli
- Cyfle i fusnesau a chyflogwyr gadw ac uwchsgilio staff trwy hyfforddiant.

**Dysgu gyda chymorth technoleg**
Defnyddio technoleg i gefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd, gan wreiddio hyn ym mhob math o ddysgu. Bydd y cyfle i fynd â hyn allan i'r cymunedau yn dileu'r rhwystrau megis diffyg adnoddau digidol a hygyrchedd.

**Lleoliadau gwaith cyflogedig** - Gwerthusiadau o raglenni cyflogaeth blaenorol e.e. Mae Gweithffyrdd+, Kickstart a Job Start a ariennir gan y Gronfa Adfywio Cymunedol yn nodi manteision ‘Cyfleoedd Gwaith â Thâl’. Gosodir yr unigolyn sy'n chwilio am waith mewn lleoliadau gwaith cyflogedig priodol ac mae'r rhaglenni'n cyllido busnesau i gefnogi unigolion ar y lleoliadau hyn. Mae hwn yn gyfle dan CFfGDU y byddai'r Cyngor yn dymuno symud ymlaen ag ef er mwyn sicrhau bod yr elfen hon yn ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth cymorth cyflogaeth.

**Alinio cymorth sgiliau a chyflogaeth** – mae cyfle i weithio gyda phartneriaid i gysylltu gwasanaethau cymorth lleol a darpariaeth prif ffrwd ar draws y rhanbarth i sicrhau bod rhwystrau i gyflogaeth yn cael eu goresgyn lle bo modd, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid i ddarparu sgiliau cyflogadwyedd i’r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig ac anghenion dysgu ychwanegol.

**Cymorth mentora** – i wneud y mwyaf o’r cyfle o brofiad wrth gynnig cymorth mentora lefel uchel, i'r rhai sy'n gadael yr ysgol ac oedolion. Gwneir hyn trwy ddull cyfannol ac arloesol o edrych ar yr holl rwystrau sy'n atal unigolyn rhag symud ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Defnyddir nifer o dechnegau a strategaethau profedig i sicrhau bod gan unigolyn yr offer i dyfu a chynnal addysg a/neu gyflogaeth.

**Pobl ifanc**
Bydd y Cwricwlwm Newydd yn cynyddu gweithgarwch ymgysylltu o fewn ein hysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o'r sgiliau y mae cyflogwyr yn eu hystyried yn hanfodol tra'n amlygu'r sgiliau meddalach sydd mor berthnasol â sgiliau technegol neu ymarferol. Mae cyfle i ddatblygu ymyriadau i atal ymddieithrio ieuenctid a darparu llwybrau cwricwlwm amgen.

Mae cyfle i weithredu darpariaeth ychwanegol ar gyfer adnabod dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gynnar ar bob lefel addysg, ac i ddatblygu rhaglen o ymyriadau ar gyfer dysgwyr megis addysgu arbenigol neu ddarpariaethau hyfforddiant amgen sy’n gysylltiedig â Chynllun Datblygu Unigol. Ar hyn o bryd, dim ond darpariaeth i ddysgwyr ag anghenion mwy difrifol neu gymhleth sydd ar gael, gan adael bwlch yn y ddarpariaeth i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol mwy cymedrol. Cafodd y pandemig Covid-19 effaith negyddol ar ddysgwyr ar bob lefel, sydd wedi sbarduno cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd ar ei hôl hi o ran lefelau cyrhaeddiad, ynghyd â chynnydd mewn materion ymddygiad a gwaharddiadau. Mae angen darpariaeth i gefnogi cyn-16 ac ôl-16 i oresgyn yr heriau hyn a thrwy hynny leihau'r risg o waharddiadau o'r ysgol a'r risg o ddod yn NEET. Bydd ymyrraeth gynnar hefyd yn lleddfu’r galw am ddarpariaeth cyflogadwyedd ôl-16.

**Dysgu oedolion**
Mae cyfle gyda CFfGDU a Multiply i weithio gydag ysgolion a rhieni i gynyddu sgiliau llythrennedd a rhifedd oedolion i gefnogi dysgu eu plant a chynyddu eu sgiliau eu hunain.

**Ymyriadau llesiant**

Mae cyfle i ddatblygu rhaglen o gyrsiau ymgysylltu a hamdden, a fydd yn galluogi darparwyr i adnabod a nodi anghenion sgiliau, gyda ffocws ar iechyd emosiynol a meddyliol yr unigolyn i ddechrau. Unwaith yr eir i'r afael ag iechyd a llesiant a bod gan bobl fwy o hyder, gellir nodi sgiliau sylfaenol.

**Seilwaith dysgu**

Mae cyfle i wella lleoliadau i fod yn gwbl weithredol er mwyn darparu dysgu lle gall llythrennedd a rhifedd gael eu lapio o amgylch cyrsiau bwyta'n iach, deall labeli bwyd, cyllidebu, a choginio ar gyllideb.

**Rhwydweithiau sgiliau**

Mae cyfle i ddatblygu ac ehangu partneriaethau ymhellach i fapio'r bylchau rhwng gadael yr ysgol a symud ymlaen i gyflogaeth er mwyn nodi pa sgiliau sydd eu hangen, a datblygu rhaglenni ychwanegol i gefnogi'r bobl hyn. Trwy gynnal ymarferion mapio ar draws cyflogwyr yn y rhanbarth, bydd yn bosibl nodi pa sgiliau sydd eu hangen a datblygu cwricwlwm pwrpasol i ddiwallu anghenion cyflogwyr.

Cyfle i weithio ar y cyd i wella systemau ar gyfer asesu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr, gan wneud yn siŵr bod y dysgwyr hynny'n cael cymorth priodol, a monitro'r cynnydd a wneir gan ddysgwyr sy'n cael cymorth. Bydd yr ymyriad hwn yn nodi unrhyw ddiffyg sgiliau ac yn nodi cymorth priodol.

**<u>Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (FRIW)</u>**

**Blaenoriaeth 1: Busnesau Mwy Cynhyrchiol a Chystadleuol**
"Rydym yn awyddus i sbarduno adferiad a ffyniant drwy gefnogi entrepreneuriaid, busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli'n barod i greu a chadw swyddi cynaliadwy sy'n adlewyrchu egwyddorion Gwaith Teg Cymru. Byddwn yn helpu busnesau i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu ac yn cryfhau cynhyrchiant a chystadleurwydd busnesau a mentrau cymdeithasol o bob maint, yn enwedig busnesau o faint micro i ganolig. Mae hyn yn cynnwys cefnogi busnesau gyda'u hymdrechion i greu neu wella eu cyfran o'r farchnad allforio"

**Blaenoriaeth 2: Lleihau'r Ffactorau sy'n Arwain at Anghydraddoldeb Economaidd**
"Rydym am i gynifer o bobl â phosibl allu cymryd rhan mewn gwaith cynaliadwy o ansawdd da, a chael cyflog teg am y gwaith hwnnw, gan sicrhau bod hyn yn cael ei rannu'n deg ar draws ardaloedd daearyddol a gwahanol ddemograffeg, yn enwedig ymysg grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod anghydraddoldeb yn cael effaith niweidiol ar dwf economaidd a chanlyniadau cymdeithasol. Yn y tymor byr, bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio ar gefnogi'r rhai y mae effaith economaidd y pandemig Covid wedi'u taro waethaf, yn enwedig pobl ifanc, y rhai mewn cyflogaeth incwm isel ac ansicr, merched, grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), a phobl anabl"

**Blaenoriaeth 3: Cefnogi'r Newid i Economi Ddi-Garbon**
"Yr argyfwng hinsawdd yw her fyd-eang ein hoes ni. Mae'r risgiau'n real i bob dinesydd a busnes, ond maen nhw waethaf i'r rhai sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd pontio i economi ddi-garbon yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd glân ac effeithlon o ran ynni, swyddi o ansawdd a buddion yn y farchnad fyd-eang, yn ogystal â buddion i'n heconomi, ein hiechyd, ein cyfalaf naturiol, a'n gwasanaethau ecosystemau"

**Blaenoriaeth 4: Cymunedau Iachach, Tecach, a Mwy Cynaliadwy**
"Mae gweithluoedd sy'n hapus ac yn iach, a chymunedau cryf a chydnerth sydd â chysylltiadau da, yn asedau economaidd sydd o fudd i bawb. Mae'r cyswllt rhwng llesiant a'r economi yn gliriach nag erioed. Rydym am helpu i sicrhau bod gan gymunedau lle a chymunedau pobl y cydnerthedd a'r strwythurau sydd eu hangen arnynt er mwyn i'r bobl sy'n byw yma allu byw bywyd hir a hapus, a gwireddu eu potensial i wneud cyfraniad cynhyrchiol i'n heconomi a'n cymdeithas"

**<u>Cyswllt i Genhadaeth Ffyniant Bro</u>**
**Cenhadaeth 1. Erbyn 2030, bydd cyflog, cyflogaeth a chynhyrchiant wedi codi ym mhob rhan o'r DU, gyda phob un yn cynnwys dinas sy'n gystadleuol yn fyd-eang, gyda'r bwlch yn cau rhwng y meysydd sy'n perfformio orau a meysydd eraill.**

Mae enillion cyfartalog yn Ne-orllewin Cymru (yn y gweithle) wedi codi 25.1% ers 2011 i £559.30 yn 2021, ond mae hyn yn is na lefelau Cymru (£562.80) a'r DU (£612.8). Ar lefel sirol, Sir Benfro sydd â'r enillion cyfartalog isaf ar £532, gyda Chastell-nedd Port Talbot yr uchaf, ar £596.80 ym mis Ebrill 2021.

Mae'r gyfradd cyflogaeth yn Ne-orllewin Cymru wedi gwella dros y deng mlynedd diwethaf, o 64.8% yn 2011 i 71.7% yn 2021, er ei bod yn dal i lusgo y tu ôl i lefelau Cymru (73.1%) a'r DU (74.7%). Ar draws y rhanbarth, Sir Benfro sydd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf, sef 74.4%, gyda Sir Gaerfyrddin â'r gyfradd isaf, sef 69.1% yn 2021.

Yn 2020, roedd cynhyrchiant (wedi'i fesur fel GVA fesul swydd wedi'i llenwi) tua £46,300 yn Ne-orllewin Cymru. Mae'r bwlch gyda gweddill y DU wedi lleihau ychydig dros amser, ond mae'n dal yn sylweddol: yn 2020, roedd cynhyrchiant tua 80% o lefel y DU. Mae cynhyrchiant ar ei uchaf yng Nghastell-nedd Port Talbot ar £48,600 yn 2020 ac ar ei isaf yn Sir Gaerfyrddin ar £43,100.

**Cenhadaeth 6. Erbyn 2030, bydd nifer y bobl sy'n cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus wedi cynyddu'n sylweddol ym mhob rhan o'r DU. Yn Lloegr, bydd hyn yn arwain at 200,000 yn fwy o bobl yn cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus bob blwyddyn, wedi'i ysgogi gan 80,000 yn fwy o bobl yn cwblhau cyrsiau yn y meysydd sgiliau isaf.**

Dros amser, bu gwelliant cyson mewn lefelau cymwysterau yn y rhanbarth: yn 2021, roedd gan 36% o'r boblogaeth oedran gweithio gymwysterau NVQ4+, o'i gymharu â 22% yn 2004, a hanerodd y gyfran heb unrhyw gymwysterau dros yr un cyfnod (yn rhannol wrth i newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur ddisodli'n raddol y rhai sy'n

gadael). Ond mewn termau cymharol, mae bwlch o hyd gyda gweddill y DU (lle mae 43.5% wedi cymhwyso i NVQ4+), ac amrywiad sylweddol ar draws y rhanbarth. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, dim ond 29.3% sydd â chymwysterau NVQ 4+, o'i gymharu â 39.4% yn Abertawe.

**Cenhadaeth 7. Erbyn 2030, bydd y bwlch mewn Disgwyliad Oes Iach (HLE) rhwng ardaloedd lleol lle mae ar ei uchaf a'i isaf wedi lleihau, ac erbyn 2035 bydd HLE yn codi o bum mlynedd**

I ddynion, mae Disgwyliad Oes Iach yn uwch na chyfartaledd Cymru (61.5 mlynedd) ar gyfer y cyfnod 2018-2020 yn Abertawe (61.9 mlynedd) a Sir Benfro (61.8 mlynedd) ond yn is yn Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot (y ddau yn 59.7 mlynedd). I fenywod, mae'r darlun yn wahanol gyda dim ond Sir Benfro, ar 65.8 mlynedd, â Disgwyliad Oes Iach yn uwch na chyfartaledd Cymru (62.4 mlynedd) ar gyfer y cyfnod 2018-2020, a Sir Gaerfyrddin (61.8), Abertawe (60.5) a Chastell-nedd Port Talbot (57.9) i gyd isod

Mae'r bwlch absoliwt mewn disgwyliad oes iach ar gyfer merched adeg eu geni ym mhob sir yn dra gwahanol gyda bwlch o 3.3 blynedd o gymharu â'r pumed ran lleiaf difreintiedig yn Sir Benfro, bwlch o 8.9 mlynedd yn Sir Gaerfyrddin, bwlch o 17.2 mlynedd yng Nghastell-nedd Port Talbot a bwlch o 19.8 mlynedd yn Abertawe ar gyfer y cyfnod 2018-2020. I ddynion, mae'r bwlch absoliwt mewn disgwyliad oes iach ar ei isaf yng Nghastell-nedd Port Talbot gyda bwlch o 10.2 mlynedd rhwng y pumed ran lleiaf i'r mwyaf difreintiedig, ac yna Sir Gaerfyrddin ar 10.8 mlynedd, Abertawe ar 14.9 mlynedd, a Sir Benfro gyda'r bwlch mwyaf, sef 15.1 mlynedd, ar gyfer y cyfnod 2018-2020.

Mae'r gwerthoedd hyn yn rhagddyddio'r pandemig ac o'r herwydd, ni wyddys pa effaith y bydd y pandemig wedi'i chael ar y gwerthoedd hyn. Data o Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
https://publichealthwales.shinyapps.io/PHWO_HealthExpectanciesWales_2022/

**Cenhadaeth 8. Erbyn 2030, bydd llesiant wedi gwella ym mhob rhan o'r DU, gyda'r bwlch rhwng meysydd sy'n perfformio orau a meysydd eraill yn cau.**

Mae sgorau llesiant meddwl, yn ôl Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin, ar gael i bobl 16 oed a throsodd o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r data hwn yn dangos bod lefelau llesiant meddwl ar gyfer 2018-19 (y data diweddaraf sydd ar gael) ar eu hisaf yn Sir Benfro (49.7), ac yna Abertawe (50.3) a Sir Gaerfyrddin (51.1), gyda dim ond Castell-nedd Port Talbot (52.1) yn uwch na chyfartaledd Cymru (51.4).

## 4.3 Y DEILLIANNAU A GYFLENWIR GAN Y CYNLLUN BUDDSODDI O DAN Y FLAENORIAETH BUDDSODDI MEWN POBL A SGILIAU

Nifer yr unigolion economaidd anweithgar sy'n derbyn budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael yn dilyn cymorth
Mwy o gyfranogwyr gweithredol neu barhaus o fuddiolwyr CFfGDU mewn grwpiau cymunedol [a/neu] mwy o gyflogadwyedd trwy ddatblygu sgiliau rhyngbersonol
Cyfran uwch o gyfranogwyr â sgiliau sylfaenol (Saesneg, mathemateg, digidol ac ESOL)

Nifer y bobl mewn cyflogaeth â chymorth [a] nifer y bobl sy'n ymgysylltu â gwasanaethau gofal iechyd prif ffrwd
Nifer y bobl sy'n parhau i ymgysylltu â chymorth gweithwyr allweddol a gwasanaethau ychwanegol
Nifer y bobl sy'n chwilio am swydd yn dilyn cymorth
Nifer y bobl mewn cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, yn dilyn cymorth
Nifer y bobl sy'n cynnal cyflogaeth am 6 mis
Mwy o amcanion cyflogaeth, sgiliau a/neu CFfGDU wedi'u hymgorffori mewn llywodraethu corfforaethol ardal leol
Nifer y bobl mewn addysg/hyfforddiant
Cynnydd yn nifer y bobl â sgiliau sylfaenol (Saesneg, mathemateg, digidol ac ESOL)
Llai o bobl yn wynebu rhwystrau strwythurol i gyflogaeth ac i ddarpariaeth sgiliau
Cynnydd yn nifer y bobl a ddaeth yn gyfarwydd â disgwyliadau cyflogwyr, gan gynnwys safonau ymddygiad yn y gweithle
Llai o bobl yn wynebu rhwystrau strwythurol i gyflogaeth ac i ddarpariaeth sgiliau
Nifer y bobl sy'n ennill cymhwyster neu'n cwblhau cwrs yn dilyn cymorth
Nifer y bobl sy'n ennill cymwysterau, trwyddedau a sgiliau
Nifer yr unigolion economaidd weithgar sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant sgiliau prif ffrwd.
Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn cymorth sgiliau bywyd yn dilyn ymyriadau
Nifer y bobl sy'n hyfedr mewn sgiliau cyn-cyflogaeth a rhyngbersonol (perthynas, trefniadaeth a rheoli dicter, cyfweld, ysgrifennu CV ac ysgrifennu ceisiadau am swydd)
**Multiply yn unig -** Cynnydd yn nifer yr oedolion sy’n ennill cymwysterau mathemateg hyd at, ac yn cynnwys, Lefel 2.
**Multiply yn unig -** Cynnydd yn nifer yr oedolion sy’n cymryd rhan mewn cymwysterau a chyrsiau mathemateg hyd at, ac yn cynnwys, Lefel 2.

## 4.4 YMYRIADAU CFfGDU A DDEFNYDDIR I GWRDD Â’R FLAENORIAETH BUDDSODDI MEWN POBL A SGILIAU

W34: Cymorth cyflogaeth i bobl economaidd anweithgar: Cymorth un-i-un dwys a chofleidiol i symud pobl yn nes at ddarpariaeth prif ffrwd ac i gael a chadw cyflogaeth, gan gynnwys cymorth cofleidiol i bobl sy’n dilyn prentisiaethau, wedi’i ategu gan sgiliau bywyd a sylfaenol ychwanegol a/neu arbenigol a chymorth sgiliau (digidol, Saesneg, mathemateg* ac SSIE) lle mae bylchau yn y ddarpariaeth leol. Cyllid ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol i bobl economaidd anweithgar, lle mae'r ddarpariaeth yn ychwanegol at yr hyn a ariennir drwy ddarpariaeth prif ffrwd.
* drwy Multiply

W35: Cyrsiau gan gynnwys sgiliau sylfaenol (digidol, Saesneg, mathemateg (trwy Multiply) ac ESOL), a darpariaeth sgiliau bywyd a sgiliau gyrfa** ar gyfer pobl nad ydynt yn economaidd anweithgar ac nad ydynt yn gallu cael mynediad at hyfforddiant arall neu gymorth cofleidiol a nodir uchod. Wedi'i ategu gan gymorth ariannol i ddysgwyr gofrestru ar gyrsiau a chwblhau cymwysterau.
**lle nad yw'n cael ei fodloni drwy ddarpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Lywodraeth Cymru.

W36: Gweithgareddau fel cyfoethogi a gwirfoddoli i wella cyfleoedd a hybu llesiant.

W37: Ymyriadau i gynyddu lefelau cynhwysiant digidol, gyda ffocws ar sgiliau digidol hanfodol, cyfathrebu manteision o fynd (yn ddiogel) ar-lein, ac mewn cymorth cymunedol i roi'r hyder a'r ymddiriedaeth i ddefnyddwyr aros ar-lein.

W38: Cefnogaeth wedi'i theilwra i helpu pobl mewn cyflogaeth, nad ydynt yn cael eu cefnogi gan ddarpariaeth prif ffrwd i fynd i'r afael â rhwystrau i gael mynediad at gyrsiau addysg a hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cadw grwpiau sy'n debygol o adael y farchnad lafur yn gynnar.

W39: Cefnogaeth i ardaloedd lleol i gyllido anghenion sgiliau lleol. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau technegol a galwedigaethol a chyrsiau hyd at lefel 2 a hyfforddiant ar gyfer trwyddedau galwedigaethol sy'n berthnasol i anghenion ardal leol a chymwysterau gwerth uchel lle mae angen sgiliau ychwanegol na ellir eu diwallu drwy gyllid prif ffrwd.

W40: Cyrsiau sgiliau gwyrdd wedi'u targedu ar sicrhau bod gennym y gweithlu medrus i gyflawni uchelgais sero net y llywodraeth a'r uchelgeisiau amgylcheddol ehangach.

W41: Ailhyfforddi ac uwchsgilio cymorth i'r rheini mewn sectorau carbon uchel, gan ganolbwyntio'n benodol ar drosglwyddo i swyddi gwyrdd, a rhai Diwydiant 4.0 a 5.0.

W42: Cyllid i gefnogi sgiliau digidol lleol.

W43: Cyllid i gefnogi ymgysylltu a datblygu sgiliau meddalach ar gyfer pobl ifanc, mewn perthynas â gwaith Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio.

**Ymyriadau y rhaglen Multiply**

W44: Cyrsiau wedi'u cynllunio i gynyddu hyder gyda rhifau i'r bobl sydd angen y camau cyntaf tuag at gymwysterau ffurfiol.

W45: Cyrsiau i rieni sydd eisiau cynyddu eu sgiliau rhifedd er mwyn helpu eu plant, a helpu gyda'u dilyniant eu hunain.

W46: Cyrsiau wedi'u hanelu at garcharorion, y rhai a ryddhawyd yn ddiweddar o'r carchar neu ar drwydded dros dro

W47: Cyrsiau wedi'u hanelu at bobl na allant wneud cais am swyddi penodol oherwydd diffyg sgiliau rhifedd ac/neu annog pobl i uwchsgilio er mwyn cael mynediad at swydd/gyrfa benodol.

W48: Modiwlau mathemateg perthnasol ychwanegol wedi'u hymgorffori mewn cyrsiau galwedigaethol eraill.

W49: Rhaglenni arloesol yn cael eu darparu ar y cyd â chyflogwyr – gan gynnwys cyrsiau sydd wedi'u cynllunio i gwmpasu sgiliau rhifedd penodol sy'n ofynnol yn y gweithle.

W50: Cyrsiau dwys a hyblyg newydd wedi'u targedu ar bobl heb Lefel 2 mewn mathemateg yng Nghymru, sy'n arwain at gymhwyster cyfatebol (am ragor o wybodaeth am gymwysterau cyfatebol, gweler 'Gall Cymwysterau groesi ffiniau' (sqa.org.uk))

W51: Cyrsiau sydd wedi'u cynllunio i helpu pobl i ddefnyddio rhifedd i reoli eu harian.

W52: Cyrsiau wedi'u hanelu at bobl 19 oed neu hŷn sydd ar fin gadael, neu sydd newydd adael, y system ofal

W53: Gweithgareddau, cyrsiau neu ddarpariaeth a ddatblygwyd mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol a phartneriaid eraill gyda'r nod o ymgysylltu â'r dysgwyr anoddaf eu cyrraedd – er enghraifft, y rheini nad ydynt yn y farchnad lafur neu grwpiau eraill y nodwyd eu bod mewn angen yn lleol.

## PROSIECTAU POSIBL SY'N DOD O DAN Y FLAENORIAETH BUDDSODDI MEWN POBL A SGILIAU

Mae'r rhanbarth wedi darparu pecyn cryf o fesurau cymorth o dan y thema hon ers dros ddegawd, ac yn fwy diweddar wedi defnyddio cyfle Cronfa Adfywio Cymunedol y DU i dreialu trefniadau olynol posibl ar lefel leol ac wedi ymgynghori'n helaeth ar lefel leol i ddeall blaenoriaethau a natur yr ymyriadau sy'n mynd rhagddynt. ymlaen.

Mae mesurau allweddol a fydd yn gyson ar draws y rhanbarth yn cynnwys:

- Cefnogi pobl i mewn i waith - Rhaglen aml-asiantaeth bwrpasol o gymorth wedi'i theilwra i leihau anweithgarwch economaidd ac i gefnogi'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur yn ôl i waith. Bydd y prosiect yn cynnig dewislen o gyfleoedd hyfforddi gan gynnwys mynediad i sgiliau sylfaenol, cymorth cyflogadwyedd, mentora a lleoliadau gwaith i wella canlyniadau cyflogaeth ar gyfer carfannau penodol sy'n wynebu rhwystrau yn y farchnad lafur gan gynnwys pobl 50+. Gallai hyn adeiladu ar arfer da ar brosiect Llwybrau at Waith Cronfa Adfywio Cymunedol Abertawe.
- Darpariaeth ymgysylltu ieuenctid – darpariaeth cyn- ac ôl-16 i gefnogi pobl ifanc i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Byddai hyn yn golygu datblygu rhaglen o weithgareddau i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc. Byddai'r prosiect yn gweithio gyda'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET neu blant a phobl ifanc sydd eisoes yn NEET gan ddefnyddio dulliau cymorth ieuenctid ataliol i ymgysylltu â phobl sydd yn aml ag ystod o anghenion cymhleth. Bydd y prosiect yn cynnwys cyfres o becynnau cymorth ieuenctid pwrpasol wedi'u cynllunio i gefnogi'r unigolyn tuag at ganlyniadau gwell. O fewn y cynnig, bydd nifer o swyddi gan gynnwys rhai yn gysylltiedig â'r maes digidol a chyfryngau; iechyd a llesiant emosiynol; a gwaith ieuenctid.
- Mae prosiectau o'r natur hon eisoes wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Bydd y mentrau hyn yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd o brosiectau blaenorol o'r natur hon a gynhaliwyd yn llwyddiannus ar draws y rhanbarth. Gallai hyn gynnwys ymgysylltu ag ysgolion a cholegau i gynnwys cyflogadwyedd, gofal plant ac adeiladu.
- Math o ymyriad "Cynnydd" a ddatblygwyd i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ddod yn NEET, fel yr aseswyd trwy gyfeirio at eu cyflawniadau addysgol, presenoldeb ysgol neu goleg ac ymddygiad ochr yn ochr â barn broffesiynol i roi dull "cyfunol" o asesu'r risg sydd ynghlwm wrth bob unigolyn. Mae'n ymddangos bod hyn yn cyd-fynd ag ymyriad W43 ac eithrio efallai y bydd rhai o'r bobl ifanc dan sylw mor ifanc ag 11 oed. Mae Cynnydd yn ateb Cymreig pwrpasol i faterion lleol a rhanbarthol yr eir i'r afael â hwy o fewn fframwaith trefniadau deddfwriaethol, polisi a sefydliadol Cymru. Mae'n cyd-fynd yn fras â'r amcan Pobl a Sgiliau o "Gefnogi pobl sydd bellaf o'r farchnad lafur i oresgyn rhwystrau i waith trwy ddarparu cymorth cydlynol, wedi'i deilwra'n lleol,

gan gynnwys mynediad at sgiliau sylfaenol” ond yn hytrach na bod yn ddull adweithiol o fynd i'r afael ag arwahanrwydd unigolyn o’r farchnad lafur, mae’n ddull rhagweithiol, ataliol y profwyd ei fod yn osgoi anweithgarwch economaidd rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae tystiolaeth gwerthuso yn dangos bod y pandemig, a wnaeth darfu ar y ddarpariaeth i ryw raddau, wedi dwysau lefel y pryder, ffobia ysgol, sgiliau cymdeithasol gwael ac iechyd meddwl gwael ymhlith y grŵp targed gan gynyddu eu risg o ddod yn NEET yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae adroddiad gwerthuso interim terfynol Cynnydd yn dod i’r casgliad bod “*tystiolaeth hefyd yn dangos, lle mae cyfranogwyr wedi ymgysylltu, y bu’r gweithredu’n llwyddiannus iawn o ran cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol gyda 69% o’r achosion a gaewyd hyd yma yn gadael y trefniant mewn llai o risg o NEET. Mae hyn yn uwch na'r disgwyl (62%) er bod yr anghenion yn fwy dwys na'r disgwyl. Felly, dylid canmol y gweithrediad am ei gyfradd llwyddiant gyda chyfranogwyr.”*

Mae gweithrediad Cynnydd yn parhau tan fis Tachwedd 2022. Bydd y gwerthusiad terfynol, a fydd ar gael erbyn Chwefror 2023, yn cynnwys dadansoddiad o'r enillion ar fuddsoddiad. Fodd bynnag, dangosodd rhag-asesiad fod ymyriad wedi'i deilwra fel Cynnydd yn rhoi elw sylweddol well i fuddsoddiad cyhoeddus na naill ai ymyriad cyffredinol neu'r opsiwn “gwneud dim”.

Mae'r rhanbarth hefyd yn bwriadu hyfforddi hyfforddwyr fel eu bod yn gallu cyflwyno hyfforddiant sgiliau rhifedd i gefnogi'r fenter Multiply, oherwydd mae prinder hyfforddwyr o'r fath yn Sir Benfro ac ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru. Nodwyd y prinder o hyfforddwyr sgiliau sylfaenol rhifedd mewn ymgynghoriad â gwasanaethau addysg oedolion mewn awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach ar draws De-orllewin Cymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn fel rhan o'r gwaith paratoi y tu ôl i'r Cynllun Buddsoddi hwn.

Mae ystod eang o feysydd gweithgaredd eraill sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys:
- Profiad gwaith cyflogedig
- Prosiect Lleoliadau â Thâl/cynllun cefnogi prentisiaethau.
- Rhaglen gadawyr carchar.
- Prosiect sgiliau a lleoliadau GIG (o bosibl).
- Treialu rhaglen sgiliau Gwyrdd
- Mynd i'r afael ag anghenion sgiliau cyflogwyr lleol yn awr ac yn y dyfodol
- Prosiect cyflogadwyedd a sgiliau Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches - Abertawe fel dinas noddfa
- Gwasanaeth Sgiliau Peilot a Broceriaeth (GCS)
- Cymorth Dwys yn y Gwaith
- Cefnogi sgiliau sylfaenol a sgiliau bywyd, fel bod unigolion yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas (gan gysylltu â Multiply).
- Ymyrraeth gynnar i roi'r sgiliau a'r wybodaeth i bobl ifanc ac oedolion i reoli bywyd bob dydd yn annibynnol
- Prosiectau amgylcheddol i gefnogi rhyngweithio grŵp, iechyd meddwl a llesiant.

- Sesiynau strwythuredig sy'n darparu cyllid ymarferol, cyllidebu, tai a rheoli arian.
- Rhaglen cyn-ymgysylltu.
- Gwella'r ddarpariaeth prentisiaeth. Sicrhau bod cynnig hyblyg i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant – gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa arferol i gefnogi anghenion pobl ifanc.
- Adnabod ac ymyrryd yn gynnar â’r rhai sy'n trosglwyddo i gyrchfannau ôl-16.
- Cefnogaeth ysgol wedi'i thargedu ar gyfer gwyliau ysgol.

## 5.0 DETHOL PROSIECTAU

Mae’r rhaglen yn gyfle cyffrous i ddylunio a chyflenwi ymyriadau lleol gyda chysondeb rhanbarthol, ac i gyfuno a chomisiynu gweithgarwch ar draws mannau lle mae hyn yn gwneud synnwyr ac ychwanegu gwerth i’r bobl a’r cymunedau sy’n derbyn cymorth.

Mae rhanbarth y De-orllewin yn awyddus i gynllunio ymyriadau i sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio i brosiectau sy’n gwneud synnwyr i bobl a busnesau, gan ganolbwyntio ar gyflenwi a lleihau’r nifer o lefelau o fiwrocratiaeth cyn belled ag y bo modd. Dylai trefniadau cyllido sicrhau eu bod yn dilyn y trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer sefydliadau sy’n derbyn cyllid ac ystyried effaith bosibl y baich gweinyddol a grëir gan drefniadau cyfreithiol ac ariannol cymhleth ac anelu at gadw’r rhain i’r lleiafswm sydd ei angen i sicrhau darpariaeth effeithiol a gwerth ychwanegol.

Er bod angen darparu i raddau ar gyfer pontio o raglenni presennol, mae strategaeth ymadael yn parhau i fod yn gwestiwn allweddol i unrhyw weithgaredd o unrhyw raddfa gan unrhyw sefydliad, a disgwylir i sefydliadau fynegi’r pwynt hwn yn ofalus mewn ceisiadau - dylai gweithgaredd y rhaglen ymwneud â galluogi a chefnogi gweithgareddau cynaliadwy, nid creu dibyniaeth hirdymor.

Mae'r rhanbarth yn cynnwys pedwar awdurdod lleol partner gydag ymhell dros ddegawd o gydweithio adeiladol a chadarnhaol, gyda dyraniadau lleol unigol. Y ddealltwriaeth yw bod y dyraniadau yn y bôn yn ddyraniadau lleol gyda throsolwg rhanbarthol i rannu arfer da, cysondeb a rheolaeth dda ar raglenni, tra’n caniatáu i bob ardal leol yr hyblygrwydd i addasu rhaglenni i gwrdd â’r gwahaniaethau cynnil mewn angen lleol, yn ogystal â mynd i'r afael â nifer fawr o heriau a chyfleoedd cyffredin.

Bwriada'r rhanbarth ddefnyddio 4% o'r arian rhwng Abertawe fel awdurdod arweiniol gan weithio'n agos gyda thimau bach ym mhob awdurdod lleol unigol i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflenwi'n ddi-dor. Mae dull cydweithredol wedi gweithio’n dda rhwng yr awdurdodau partner dros nifer o flynyddoedd ar ystod o raglenni gan gynnwys yn fwyaf diweddar rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru sy’n dilyn yr un model sylfaenol ag a gynigir yma.

Bydd y dull yn cael ei gwblhau unwaith y caiff canllawiau’r prosiect eu cyhoeddi yn ystod mis Awst ond y bwriad gweithredol yw defnyddio’r dulliau cyflenwi canlynol ym mhob achos, gan fod yn glir ynghylch budd lleol a rhanbarthol y gweithgareddau arfaethedig:

- Cynlluniau grant a ddewiswyd yn ofalus sy'n galluogi busnesau a chymunedau i elwa o gyfleoedd rhaglenni
- Comisiynu gweithgaredd lleol a rhanbarthol lle mae budd uniongyrchol i'r bobl yn eu cymunedau ac i fusnesau ar draws y rhanbarth, gyda chymhwysedd uniongyrchol yn ystod cyfnod y rhaglen
- Gweithgarwch a gaffaelir ar lefel leol a rhanbarthol
- Cyfleoedd i weithio ar draws rhanbarthau lle bo'n briodol a gwerth ychwanegol a lle mae tystiolaeth benodol o fudd lleol
- Cyflenwi'n fewnol lle bo'n briodol ac yn gymesur â dyletswyddau sefydliadol

- Sicrhau mewnbwn arian cyfatebol priodol yn dibynnu ar raddfa a natur y gweithgaredd ac osgoi mynd ar drywydd papur rhag tynnu sylw oddi ar cyflenwi'r prosiect.
- Sicrhau ymgysylltiad gwirioneddol gan ddarparwyr prosiectau a thystiolaeth o'r gallu i gyflenwi
- Sicrhau bod gan ddarparwyr prosiectau ddigon o gapasiti i reoli a chyflenwi'r prosiectau'n effeithiol
- Dulliau aml-asiantaeth lle bo'n briodol a sicrhau digon o gapasiti gweinyddol i weithredu prosiectau'n effeithiol.

Yn amodol ar y canllawiau, bydd y dulliau hyn yn cael eu defnyddio'n unigol neu ar y cyd, gan ddibynnu ar anghenion gweithgareddau a phrosiectau penodol.

UK Government

LEVELLING UP